



Cynllun Blynyddol 2013/14

Dyddiad cyhoeddi:

28 Mawrth 2013

Cynnwys

Adran

1	Crynodeb gweithredol	1
2	Cyflwyniad ac ymatebion i'r ymgynghoriad	4
3	Strategaeth, dibenion strategol a dulliau gweithredu cyffredinol	11
4	Blaenoriaethau ar gyfer 2013/14	24
5	Meysydd gwaith eraill ar gyfer 2013/14	37
6	Gwaith rhaglenni a gwasanaethau i randdeiliaid	51
7	Darpar feysydd gwaith a blaenoriaethau tymor hwy	56
8	Cyflawni ein dyletswyddau a gwerth am arian	59
9	Agwedd Ofcom at reoleiddio a mentrau symleiddio diweddar	61

Tudalen

Atodiad

1	Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad	67
---	---	----

Tudalen

Adran 1

Crynodeb gweithredol

Mae Cynllun Blynyddol Ofcom yn rhoi ein rhaglen waith ar gyfer 2013/14

- 1.1 Mae'r Cynllun Blynyddol hwn yn rhoi dibenion strategol, blaenoriaethau arfaethedig a rhaglen waith Ofcom ar gyfer y deuddeg mis rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014.
- 1.2 Mae ein cynllun wedi cael ei ddatblygu ymhellach yn dilyn ymgynghoriad â rhanddeiliaid. Rydym wedi ymateb yn fanwl i'r pwyntiau a godwyd yn Atodiad 1 y datganiad hwn ac wedi diwygio'r testun Drafft lle bo angen. Ochr yn ochr â'r Cynllun Blynyddol rydym hefyd wedi cyhoeddi tabl ar ein gwefan sy'n rhoi'r rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn nesaf¹. Ein dibenion strategol sy'n tywys ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.
- 1.3 Prif ddyletswyddau Ofcom yw hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebu a hybu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol drwy hybu cystadleuaeth, pan fo'n briodol. O ran post, ein prif ddyletswydd yw sicrhau bod gwasanaeth post cyffredinol yn cael ei ddarparu. Pan fyddwn yn cynnal ein swyddogaethau mewn perthynas â gwasanaethau post, mae gofyn i ni roi blaenoriaeth i'r brif ddyletswydd hon os yw'n ymddangos i ni ei bod yn gwrthdaro â'n prif ddyletswyddau.
- 1.4 Rydym wedi diffinio strategaeth gyffredinol sy'n rhoi'r elfennau hynny rydym yn credu sy'n allweddol i sicrhau manteision i ddefnyddwyr ac i ddinasyddion, wrth ystyried y dyletswyddau hyn:


Strategaeth Ofcom

Byddwn yn gweithio ar ran defnyddwyr a dinasyddion drwy hybu cystadleuaeth effeithiol, dewisiadau ar sail gwybodaeth a'r cyfle i gymryd rhan mewn ystod eang o wasanaethau cyfathrebu, gan gynnwys y post. Byddwn yn sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau, drwy fecanweithiau marchnad pan fo'n bosibl a chamau rheoleiddio pan fo angen. Byddwn yn rhoi diogelwch cymesur i ddefnyddwyr ac yn helpu i gynnal hyder cynulleidfaoedd mewn cynnwys a ddarlledir. Byddwn yn cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, gan gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus o ansawdd uchel a lluosogrwydd perchnogaeth o'r cyfryngau.

Er mwyn cyflawni'r nodau hyn byddwn yn ymgynghori, yn dryloyw ac yn gymesur. Byddwn yn cael gwybodaeth drwy ymchwil a gwybodaeth o ansawdd uchel a byddwn yn rhannu hynny'n eang. Byddwn yn ystyried amrywiaeth y DU a'i gwledydd. Byddwn yn ceisio bod yn arloesol, yn ymatebol ac yn effeithiol ym mhopeth a wnawn.

¹ <http://www.ofcom.org.uk/files/2013/03/Programme-of-Work-2013-14.pdf>

- 1.5 Yn ogystal â'r datganiad strategaeth hwn, mae egwyddorion rheoleiddio Ofcom² yn dal yn berthnasol, gan gynnwys:
- Bydd Ofcom yn gweithredu gyda gogwydd yn erbyn ymyrryd, ond â pharodrwydd i ymyrryd yn gadarn, yn ddiymdroi ac yn effeithiol pan fydd angen;
 - Bydd Ofcom yn ceisio sicrhau bod ei ymyriadau ar sail tystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw o ran ystyriaeth ac o ran canlyniadau; a
 - Bydd Ofcom bob amser yn ceisio defnyddio'r mecanweithiau rheoleiddio lleiaf ymwithol er mwyn cyflawni ei amcanion polisi.
- 1.6 Eleni, rydym wedi mireinio ein dibenion strategol, a sefydlwyd yn wreiddiol yn 2011/12, i adlewyrchu ein strategaeth a fframio ein rhaglen waith dros y blynyddoedd nesaf.




- 1.7 Mae gan Ofcom strategaeth ehangach mewn perthynas â dinasyddion – nid cefnogi polisi cyhoeddus yw'r unig ffordd rydym yn cyflawni ein dyletswyddau yn y maes hwn. Bydd ymyriadau a gweithredoedd penodol er budd dinasyddion yn parhau i gael eu lledaenu ar draws ein holl ddibenion strategol yn hytrach na dim ond disgyn o dan ein swyddogaeth o gyfrannu bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a'i roi ar waith.
- 1.8 Mae rhaglen waith Ofcom ar gyfer 2013/14 yn seiliedig ar y dibenion strategol hyn, ac yn cyfrannu ati y mae:
- blaenoriaethau'r llynedd a'n cynnydd yng nghyswllt y rhain;
 - datblygiadau ehangach yn y farchnad, gan gynnwys newid yn nefnydd defnyddwyr o wasanaethau cyfathrebu;
 - newidiadau deddfwriaethol i'n dyletswyddau; a
 - meysydd lle mae Ofcom yn darparu arbenigedd technegol ac arbenigedd am y diwydiant i gynghori'r llywodraeth.

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2013/14

- 1.9 Yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf byddwn yn canolbwyntio'n bennaf ar y meysydd blaenoriaeth yn Ffigur 1. Bydd rhai o'n meysydd blaenoriaeth o raglen waith y llynedd yn parhau yn ystod 2013/14, ochr yn ochr â nifer o feysydd gwaith newydd.
- 1.10 Byddwn yn asesu a fydd ein blaenoriaethau ar gyfer 2013/14 wedi'u cyflawni'n llwyddiannus yn erbyn y canlyniadau cadarnhaol yr ydym yn ceisio'u sicrhau i ddinasyddion a defnyddwyr. I gyflawni hyn, rydym wedi pennu canlyniadau interim a therfynol ar gyfer pob un o'n blaenoriaethau (gweler tudalennau 41 a 42) a byddwn yn mesur ein cynnydd at gyflawni'r rhain yn ein Hadroddiad Blynyddol.

² <http://www.ofcom.org.uk/about/what-is-ofcom/statutory-duties-and-regulatory-principles/>

Ffigur 1: Blaenoriaethau Cynllun Blynyddol 2013/14



- 1.11 Yn dilyn datblygiadau diweddar ynghylch torri hawlfraint ar-lein a'r Adolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, ni fydd gennym unrhyw flaenoriaethau yn ein dibenion strategol o gyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y senedd, a'i roi ar waith. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod y diben strategol hwn yn fwy adweithiol, yn cael ei arwain gan faterion polisi sy'n cael eu nodi gan y Senedd neu'r Llywodraeth ac yn cael ei gefnogi gan Ofcom.
- 1.12 Yn ogystal â'r blaenoriaethau hyn, byddwn yn ymgymryd ag amrywiaeth o waith arall fel rhan o'n rhaglen 2013/14 (mae'r manylion yn Adran 5), gan adlewyrchu ein cyfrifoldebau a'n dyletswyddau statudol. Byddwn hefyd yn parhau i ddarparu gwasanaethau eraill i randdeiliaid, megis trwyddedu mynediad i'r sbectrwm radio (mae'r manylion yn Adran 6). Byddwn yn darparu'r gwasanaethau hyn yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol bosibl.
- 1.13 Byddwn hefyd yn parhau i ymateb i faterion newydd, pryderon sy'n effeithio ar ddefnyddwyr ar draws y DU, a cheisiadau newydd y Llywodraeth, gan ganolbwyntio ar y meysydd hynny lle gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf.
- 1.14 Yn ogystal ag ymateb i geisiadau gan y Llywodraeth a'i helpu i weithredu ei pholisïau ym maes cyfathrebu, byddwn hefyd yn helpu llywodraethau gwledydd y DU i sicrhau bod manteision ar gael i ddefnyddwyr ac i ddinasyddion ar draws ac yn holl wledydd y DU.
- 1.15 Am y tro cyntaf eleni byddwn yn cynnwys rhestr o feysydd posibl a fydd yn berthnasol i Ofcom yn y dyfodol. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys blaenoriaethau posibl i'r dyfodol ar gyfer y sefydliad a materion a fydd yn dod i'r fei y bydd yn rhaid i Ofcom lunio barn yn eu cylch yn y dyfodol o bosibl. Bydd Ofcom yn dal i gadw llygad ar y ddau faes, ond mae'n rhy gynnar cynnal gwaith yng Nghynllun Blynyddol y flwyddyn nesaf.

Adran 2

Cyflwyniad ac ymatebion i'r ymgynghoriad

Mae Cynllun Blynyddol Ofcom yn rhoi ein rhaglen waith ar gyfer 2013/14

- 2.1 Mae'r Cynllun Blynyddol hwn yn ystyried ein cynnydd gyda'r gwaith hyd yma, cyflwr y sector cyfathrebu ac anghenion ein rhanddeiliaid. Mae ganddo rôl bwysig yn rhoi eglurder i randdeiliaid ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Rydym wedi cyflawni nifer o flaenoriaethau o 2012/13 ac wedi symud ymlaen gyda nifer o rai eraill

- 2.2 Rydym eisoes wedi cyflawni nifer o'r blaenoriaethau yng Nghynllun Blynyddol 2012/13. Mae'r rhain yn cynnwys:
- **Cyflawni gwarantau sbectrwm y Llywodraeth ar gyfer Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd 2012 Llundain** – roedd Ofcom wedi llwyddo i gyflawni'r gwarantau sbectrwm ar gyfer y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd gan amharu cyn lleied â phosibl ar ddefnyddwyr a gwylwyr.
 - **Arwerthu'r bandiau sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz** – yn ddiweddar, cwblhaodd Ofcom yr arwerthiant 4G a gynhaliwyd dros ychydig o wythnosau ym mis Ionawr a Chwefror 2013. Dyma oedd y broses o ryddhau sbectrwm pwysicaf ers nifer o flynyddoedd ar gyfer diwallu gofynion defnyddwyr am wasanaethau di-wifr. Mae'r ddau fand sbectrwm wedi rhyddhau hyd at 250 MHz o sbectrwm symudol ychwanegol, o'i gymharu â'r 333 MHz sy'n cael ei ddefnyddio heddiw.
 - **Pennu anghenion defnyddwyr post** – ym mis Mawrth 2013 cyhoeddodd Ofcom ddatganiad ar anghenion rhesymol defnyddwyr mewn perthynas â'r farchnad ar gyfer darparu gwasanaethau post yn y Deyrnas Unedig.
 - **Sicrhau cystadleuaeth effeithiol yn y marchnadoedd ffôn llais a chysylltedd busnes** – ym mis Mehefin 2012 ymgynghorodd Ofcom ar gynigion i hybu cystadleuaeth ym maes darparu llinellau ar les yn y DU. Byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniad terfynol cyn hir. Yn 2012 roeddem hefyd wedi dechrau adolygu'r farchnad ar gyfer cychwyn galwadau a therfynu galwadau llais llinell sefydlog ac roeddem wedi cyhoeddi cynigion ymgynghori ym mis Chwefror 2013. Ein nod yw cwblhau'r adolygiad hwn erbyn mis Medi 2013.
 - **Asesu'r gwasanaethau cyfathrebu a ddarperir yn y gwledydd** – ym mis Ebrill 2013 byddwn yn cyhoeddi adroddiad a fydd yn astudio daearyddiaeth economaidd gwasanaethau cyfathrebu yn y DU ac ym mhob un o'r gwledydd.
 - **Cyngor cyson i'r Llywodraeth ar fesur lluosogrwydd yn y cyfryngau a chyfrannu at Ymchwiliad Leveson** – roedd Ofcom wedi cyflwyno dau adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol yn cynghori ar ddulliau o fesur lluosogrwydd yn y cyfryngau. Roeddem hefyd wedi cyflwyno tystiolaeth a darparu cyngor i Ymchwiliad Leveson gan gynnwys cyngor ar faterion sy'n cynnwys modelau ar gyfer rheoleiddio'r cyfryngau. Dan ein dyletswyddau lluosogrwydd yn y cyfryngau roeddem wedi cwblhau prawf budd cyhoeddus ar Global Radio yn prynu GMG Radio.

- 2.3 Rydym wedi symud ymlaen yn sylweddol gyda nifer o faterion eraill hefyd ond rydym wedi eu trosglwyddo ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf:
- clirio sbectrwm yn amserol yn y bandiau 800 MHz a 2.6 GHz er mwyn gallu rhoi dyfarniadau newydd, gan liniaru materion sy'n ymwneud â chydfodolaeth;
 - hybu dewis effeithiol i ddefnyddwyr drwy sicrhau bod gwybodaeth glir ar gael am bris ac ansawdd gwasanaethau;
 - datblygu a gweithredu polisiau a fydd yn ei gwneud yn haws newid rhwng darparwyr cyfathrebu; a
 - sicrhau bod y gwasanaeth post cyffredinol yn cael ei ddarparu.

Mae'r sector cyfathrebu'n dal i ddatblygu'n gyflym ac mae'n herio ein dull o reoleiddio

- 2.4 Mae cyfathrebu wrth galon bywyd pob un ohonom ac mae'n chwarae rhan economaidd a diwylliannol bwysig hefyd. Mae'r sector cyfathrebu'n galluogi cyfranogiad a chydlynid cymdeithasol yng nghymdeithas y DU, ac mae hefyd yn gwneud cyfraniad uniongyrchol sylweddol at yr economi (yn 2011 roedd referniw diwydiant cyfathrebu'r DU yn £53.3bn³) ac mae'n helpu twf y DU yn anuniongyrchol drwy fwy o gynhyrchiant busnes, mynediad gwell at farchnadoedd a llif gwybodaeth sy'n gynt ac o ansawdd gwell.
- 2.5 Mae ymddygiad defnyddwyr a thechnolegau newydd yn ysgogi newid yn y farchnad ac mae angen i Ofcom sicrhau bod ei waith yn adlewyrchu'r datblygiadau hyn, ac yn ymateb iddynt, gan gynnwys:
- **Y cynnydd parhaus mewn argaeledd band eang cyflym iawn a'r nifer sy'n ei fabwysiadu** – ym mis Mawrth 2012 roedd gwasanaethau band eang cyflym iawn BT a Virgin Media ar gael i oddeutu 65% o gartrefi'r DU. Roedd hyn saith pwynt canran yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, yn bennaf o ganlyniad i waith BT yn parhau i gyflwyno ffibr-i'r-cabinet. Ddiwedd mis Mawrth 2012 roedd 1.4 miliwn o gysylltiadau band eang cyflym iawn yn y DU; sef 6.6% o'r holl gysylltiadau.
 - **Y cynnydd yn y nifer sydd â dyfeisiau wedi'u cysylltu** – roedd nifer yr oedolion yn y DU a oedd yn berchen ar ffôn deallus wedi codi i 39% yn Ch1 2012, a oedd 12 pwynt canran yn uwch na 2011. Roedd bod yn berchen ar gyfrifiaduwr llechen wedi codi i 11% o gartrefi'r DU, a oedd wedi codi 9 pwynt canran o un flwyddyn o'r llall, ac a oedd wedi codi i 19% yn barod erbyn Ch 4 2012, ac roedd bod yn berchen ar setiau teledu wedi'u cysylltu yn dal yn 5% o'r cartrefi sydd â theledu; a oedd hefyd wedi codi i 15% erbyn Ch4 2012.
 - **Cynnydd yn y galw am ddata symudol** – o ganlyniad i'r torehth o ddyfeisiau sydd wedi'u cysylltu a newidiadau yn ymddygiad defnyddwyr, ar gyfartaledd roedd pobl yn treulio 2.1 awr y mis yn defnyddio gwasanaethau data symudol yn 2011, 25 munud y mis (24.7%) yn fwy na 2010, ac mae faint o ddata sy'n cael ei ddefnyddio wedi mwy na dyblu dros y 18 mis hyd at fis Ionawr 2012.

³ Adolygiad Ofcom o'r Farchnad Gyfathrebu 2012

- 2.6 Roedd gennym ragor o fanylion ynghylch datblygiadau'r farchnad yn y dyfodol yn y sectorau cyfathrebu yn Adran 2 y Cynllun Blynyddol Drafft ⁴.

Roedd nifer o themâu craidd yn yr ymatebion a gawsom

- 2.7 Cawsom 31 o ymatebion i'n Cynllun Blynyddol Drafft, a cheir crynodeb o'r rhain yn Atodiad 1. Daeth nifer o themâu allweddol i'r amlwg yn yr ymatebion hyn, a cheir amlinelliad ohonynt isod.

Band eang cyflym iawn, buddsoddiad a chystadleuaeth	Mynegwyd nifer o bryderon penodol ynghylch cynnyrch sy'n cael eu rheoleiddio, gan gynnwys yr angen am gynnyrch llais cyfanwerthu (sy'n cyfateb i rentu llinell cyfanwerthu) ar gyfer defnyddio FTTH a phryderon ynghylch gallu a manylion gwasanaethau band eang cyflym iawn cyfanwerthu BT.
Post, Dyletswydd Gwasanaeth Cyffredin a chystadleuaeth o un pen i'r llall	Nododd Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu ac Intellect bryderon ynghylch goblygiadau cystadleuaeth o un pen i'r llall ar gyfer darpariaeth barhaus dyletswydd gwasanaeth cyffredin y post a rheoleiddio post yn fwy cyffredinol.
Defnyddwyr telegyfathrebu busnes	Galwodd ystod eang o randdeiliaid am fwy o ganolbwyntio yn benodol ar gwsmeriaid cyfathrebu busnes, gan gynnwys busnesau bach a chanolig, ond ni roddwyd fawr o fanylion ynghylch pryderon penodol na'r ffynonellau niwed.
Newid	Roedd nifer o ymatebwyr yn croesawu ymrwymiad Ofcom i newid, er bod nifer o faterion wedi'u codi. Roedd pryder cyffredinol nad oedd llawer o gynnydd wedi'i wneud gyda'r amcan hwn ers y cychwyn, gyda diffyg eglurder ar y camau pellach sydd wedi'u cynllunio. Mynegodd rhai rhanddeiliaid awydd i gynyddu sgôp ein gwaith hyd yma i gynnwys gwasanaethau eraill.
Galwadau niwsans	Roedd cefnogaeth eang i'n gwaith ar alwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael, ond roedd nifer o randdeiliaid am ymestyn ein gwaith i gynnwys galwadau niwsans yn fwy cyffredinol, gan gynnwys galwadau a negeseuon testun marchnata nad oes unrhyw un wedi gofyn amdanynt.
Cyfleoedd i gymryd rhan	Roedd galwadau parhaus am weithredu ar faterion darpariaeth llais a data symudol, gan ganolbwyntio'n benodol ar y gwledydd. Tynnodd rhanddeiliaid eraill sylw at yr angen i ddarparu band eang sefydlog o ansawdd priodol mewn ardaloedd mwy anghysbell gyda dwysedd poblogaeth is, gan gynnwys cwestiynau ynghylch datblygu ymrwymiad gwasanaeth cyffredinol band eang a chwestiynau am 'ddyletswydd gwasanaeth cyffredin band eang'.
Strategaeth sbectrwm tymor hwy	Roedd galw am ddull gweithredu mwy strategol ar gyfer rhyddhau a rheoli sbectrwm, gyda'r nod o ddarparu map gweithgarwch tymor hwy (3 blynedd +) i gefnogi canlyniadau da i ddefnyddwyr a dinasyddion yn y maes hwn. Roedd galw am waith penodol i gefnogi'r strategaeth UHF, gan gynnwys: Cynllun band am 700 MHz erbyn WRC-15 a rhagor o waith ar faterion cydfodolaeth yn y dyfodol.
Rheoleiddio effeithiol	Roedd thema amlwg gan randdeiliaid ynghylch prydlondeb camau gweithredu rheoleiddio a chanolbwyntio ar ddadreoleiddio. Dyma'r materion allweddol: <ul style="list-style-type: none"> • yr angen am ganolbwyntio'n barhaus ar ddadreoleiddio lle bo'n briodol; • tryloywder gyda dyddiadau cyflawni ar gyfer gwaith yn y Cynllun

4

<http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/consultations/annualplan1314/summary/condoc.pdf>

- Blynyddol ac yn fwy cyffredinol;
- cyfleu oedi i brosiectau; a
 - gwybodaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gyffredinol.

Mae'r ymatebion hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd rhai o feysydd allweddol ein strategaeth a'n rhaglen ar gyfer 2013-14

- 2.8 **Buddsoddiad a chystadleuaeth mewn band eang cyflym iawn** – codwyd ystod eang o faterion posibl ynghylch cystadleuaeth a buddsoddiad mewn perthynas â band eang cyflym iawn. Mae fframwaith rheoleiddio clir yn hanfodol yn y maes hwn, a bydd yn un o'r prif bryderon a fydd yn cael sylw yn ein hadolygiad marchnad mynediad sefydlog 2013; byddwn yn ystyried cynnyrch rheoleiddio penodol yn yr adolygiad hwn.
- 2.9 **Gwasanaethau cyffredin ar gyfer y post** - mae parhau i ddarparu'r ddyletswydd gwasanaeth cyffredin ar gyfer y post yn bryder allweddol i rhanddeiliaid ac yn flaenoriaeth graidd i Ofcom yn 2013/14. Roeddem wedi cyhoeddi'r canllawiau terfynol o ran cystadleuaeth o un pen i'r llall ar 27 Mawrth. Mae'n nodi'n glir sut y byddwn yn asesu effaith cystadleuaeth ar y gwasanaeth cyffredinol a sut y byddwn yn unioni hyn os bydd angen. Rydym yn nodi bod y Post Brenhinol wedi dweud yn ei ymatebion nad oedd angen ymyrryd eto.
- 2.10 **Strategaeth sbectrwm tymor hwy** - rydym yn datblygu rhaglen waith tymor hwy a fydd yn nodi ein blaenoriaethau allweddol dros y pump i saith mlynedd nesaf. Bydd hyn yn nodi unrhyw sialensiau a champau gweithredu allweddol yn y dyfodol. Efallai y bydd yn canolbwyntio ar fandiau allweddol, neu ar ddatblygiadau a materion fesul sector, fel sy'n briodol. Yn ogystal, mae'r Cynllun Blynyddol yn amlinellu'r gweithgareddau a'r camau gweithredu allweddol er mwyn cyflawni ein strategaeth UHF. Dyma elfen allweddol o ran cyflawni sbectrwm ar gyfer band eang symudol, teledu daearol digidol a gwasanaethau eraill yn y tymor hwy.
- 2.11 **Cyfleoedd i gymryd rhan** – gwasanaethau ar gael yn eang. Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos yn glir bod pryderon o hyd ynghylch a yw gwasanaethau cyfathrebu ar gael i'r holl ddefnyddwyr a dinasyddion. Bydd Ofcom yn parhau i weithio gyda'r Llywodraeth i hyrwyddo sicrhau bod band eang cyflym ar gael yn eang a buddsoddi mewn rhwydweithiau symudol, a chynnal gwaith ymchwil fel sail i bolisi cyhoeddus sy'n datblygu.
- 2.12 **Rheoleiddio effeithiol** – fel rydym wedi'i amlinellu yn ein strategaeth, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar reoleiddio tryloyw, effeithiol a chymesur. Rhaid i hyn fod yn ein holl waith. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar hyn dros y flwyddyn sydd i ddod, gan nodi meysydd i'w gwella i sicrhau ein bod yn cyflawni ein strategaeth yn gyffredinol.
- 2.13 Rydym yn deall bod cael darlun clir o amserlenni prosiectau yn bwysig i rhanddeiliaid o ran rheoli llwyth gwaith ac ystyried goblygiadau'r rheoleiddio. Fel rhan o broses y Cynllun Blynyddol y flwyddyn nesaf, byddwn yn rhoi mesur newydd ar waith, a fydd yn helpu rhanddeiliaid i'r perwyl hwn gobeithio.
- 2.14 Ar gyfer Cynllun Blynyddol 2014/15, rydym yn bwriadu gwahodd rhanddeiliaid i nodi meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt yn y flwyddyn sydd i ddod cyn i ni ddechrau paratoi'r ddogfen Drafft, yn yr un modd ag y mae rhai ymgynghoriadau yn galw am fewnbwn. Gobeithio y bydd hyn yn galluogi rhanddeiliaid i gyfrannu'n gynharach ac

yn caniatáu i ni fod yn glir ynghylch amserlenni'r dyfodol yn y Cynllun Blynyddol drafft.

- 2.15 **Canolbwyntio ar y Gwledydd** – mae Ofcom yn gwbl ymwybodol o'r angen i barhau i ddeall a chadw materion ac onglau sy'n benodol i'r Gwledydd mewn cof o ran polisïau newydd a chyfredol. Fel yr ydym yn ei amlinellu yn Adran 6, rhaid i ni ystyried y Gwledydd yn ein holl flaenoriaethau, ein prif feysydd gwaith a'n gwaith rhaglennu.
- 2.16 **Bod yn ymwybodol o'r materion tymor hwy** – mae ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos bod ymwybyddiaeth o faterion tymor hwy, fel yr amlinellwyd yn Adran 7 yn y Cynllun Blynyddol, yn bwysig. Yn benodol, rhaid i ni barhau i gofio am yr effaith y gall darparu gwasanaeth dros ben llestri ei chael ar wasanaethau cyfathrebu, rheoleiddio a llunio a gweithredu polisïau yn y dyfodol.

Yn dilyn yr ymatebion a datblygiadau eraill, rydym wedi gwneud nifer o newidiadau i'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2013-14

Newid

- 2.17 Mae newid yn ganolog i'n diben cyffredinol o gystadleuaeth effeithiol a dewisiadau ar sail gwybodaeth i gwsmeriaid. O ystyried yr adborth i'r ymgynghoriad, rydym yn credu ei bod yn bwysig bod yn fwy clir ynghylch ein blaengynllun ar gyfer y prosiect hwn.
- 2.18 Bydd sicrhau newid effeithiol a chwalu rhwystrau i newid yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Ofcom. Mae ein hadolygiad o ddefnyddwyr yn newid yn canolbwyntio ar wella'r gymysgedd gyfredol o brosesau ar gyfer newid rhwng darparwyr a llwyfannau ar rwydwaith copr Openreach. Mae hwn yn ymarfer cymhleth, ac ni cheir barn gyffredin ymysg rhanddeiliaid nac o fewn y diwydiant, ynghylch yr hyd sydd ei angen. Yn dilyn ymgynghoriad yn 2012, rydym wedi casglu rhagor o dystiolaeth ac wedi adolygu'r dewisiadau.
- 2.19 Rydym yn bwriadu cyhoeddi datganiad ynghylch y mater hwn yn ystod haf 2013. Yna byddwn yn ystyried yr angen am ddiwygio newid mewn rhwydweithiau a sectorau eraill.

Defnyddwyr telegyfathrebu busnes

- 2.20 Thema gyson yng Nghynlluniau Blynyddol blynyddoedd blaenorol oedd pryder ynghylch lefel y gystadleuaeth ar gyfer defnyddwyr telegyfathrebu busnes. Mae ein gwaith yn y gorffennol wedi ystyried y mater hwn, drwy ein hadolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes a gwblhawyd yn ddiweddar a'n hadroddiad, Profiad y Defnyddiwr Busnes, yn 2010. Hefyd, mae'r adolygiadau yr ydym yn eu cynnal ar y farchnad galwadau sefydlog a'r marchnadoedd mynediad llinell sefydlog yn rhoi sylw i anghenion defnyddwyr preswyl yn ogystal â busnesau o ran band eang a llinell ffôn sefydlog. O fewn sgôp yr adolygiad o'r farchnad mynediad llinell sefydlog, rydym hefyd yn edrych yn fwy penodol ar wasanaethau sy'n cael eu targedu at fusnesau, gan gynnwys ISDN 2 ac ISDN 30.
- 2.21 O ystyried pryderon parhaus rhanddeiliaid ynghylch y maes hwn, rydym yn cynnal gwaith ymchwil ar hyn o bryd i geisio deall yn well beth yw gofynion cysylltedd TGCh ystod ehangach o gwsmeriaid busnes, yn arbennig busnesau bach a chanolig. Mae hwn yn brosiect ar wahân i'r Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes. Efallai y

byddwn yn comisiynu rhagor o waith ymchwil ynghylch profiad y defnyddiwr busnes yn y maes hwn yn nes ymlaen yn y flwyddyn os bydd yr ymchwil cyfredol yn awgrymu meysydd i'w harchwilio ymhellach.

Galwadau niwsans

- 2.22 Roedd ymatebion rhanddeiliaid yn amlinellu pryderon parhaus ynghylch effaith galwadau niwsans ar ddefnyddwyr. Mae pwerau statudol Ofcom yn y maes hwn wedi'u cynnwys yn bennaf yn y darpariaethau camddefnyddio parhaus yn adrannau 128-130 y Ddeddf Cyfathrebiadau, ac rydym wedi canolbwyntio hyd yma ar alwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael.
- 2.23 Fodd bynnag, yn ogystal â'n gwaith gorfodi ym maes gwarchod defnyddwyr, rydym yn benderfynol o ymgysylltu â rheoleiddwyr eraill i'w helpu i fynd i'r afael â niwed o ganlyniad i alwadau ffôn a negeseuon testun marchnata nad oes unrhyw un wedi gofyn amdanynt, fel yr amlinellwyd yn y cynllun gweithredu pum pwynt i fynd i'r afael â galwadau niwsans⁵, a gyhoeddwyd gennym ym mis Ionawr 2013.

Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a'i roi ar waith.

- 2.24 Amlinellodd y Cynllun Blynyddol Drafft ddwy flaenoriaeth o dan ein diben strategol polisi cyhoeddus - gweithredu darpariaethau sy'n ymwneud â thorri hawlfraint ar-lein yn Neddf yr Economi Ddigidol 2010 a chynnal a chyhoeddi adolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae datblygiadau diweddar wedi effeithio ar y ddwy flaenoriaeth hyn: mae'r gwaith ar dorri hawlfraint ar-lein wedi'i ailflaenoriaethu ar gyfer 2013-14, ac mae'n bosibl y bydd y gofyniad i gynnal adolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn newid yn ystod 2013-14.

2.24.1 **Gweithredu darpariaethau sy'n ymwneud â thorri hawlfraint ar-lein yn Neddf yr Economi Ddigidol 2010** - Bydd Ofcom yn parhau gyda'i ddyletswyddau o weithredu darpariaethau sy'n ymwneud â thorri hawlfraint ar-lein yn Neddf yr Economi Ddigidol ar ôl i Orchymyn Costau diwygiedig y Llywodraeth gael ei gyflwyno gerbron y Senedd. Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys creu Cod i reoleiddio darpariaethau Deddf yr Economi Ddigidol a chreu corff apeliadau annibynnol. Byddwn hefyd yn cynnal ymgynghoriad newydd i geisio nodi'r costau a'r amser angenrheidiol i Ddarparwr Gwasanaeth Rhyngwryd effeithlon gydymffurfio ag ymrwymadau Cod Ofcom. Rydym hefyd yn bwriadu noddi safon sydd ar gael yn gyhoeddus ar gyfer arfer gorau o ran adnabod tanysgrifwyr. O ganlyniad i'r oedi posibl hwn o weithredu darpariaethau Deddf yr Economi Ddigidol, rydym wedi dadflaenoriaethu ein gwaith ar dorri hawlfraint ar-lein ar hyn o bryd.

2.24.2 **Cynnal a chyhoeddi adolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus** – mae'r Llywodraeth wedi rhoi gwybod i ni ei bod yn bwriadu gofyn i'r Senedd, yn ystod y flwyddyn gyfredol, i'n rhyddhau ni o'n dyletswydd statudol i adolygu darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac adrodd ar hyn o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Rydym yn cadw'r bwriad hwn mewn cof wrth gwrs, a hefyd yn ystyried y byddai'n amhriodol i ni anwybyddu'r ddyletswydd a hithau yn dal i fod mewn grym. Mae gan Ofcom nifer o ddyletswyddau sy'n berthnasol i ddarlledu, ac rydym yn rhagweld y byddwn yn ymgymryd â rhaglen waith sy'n angenrheidiol i fodloni'r rhain yn ystod 2013/14, gan gynnwys cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar ddarlledu

⁵ <http://media.ofcom.org.uk/2013/01/08/action-plan-to-tackle-nuisance-calls/>

gwasanaeth cyhoeddus a chyfrannu at Adolygiad Cyfathrebu'r Llywodraeth.
Bydd y rhaglen waith hon yn parhau yn unol â'r bwriad.

- 2.25 Bydd Ofcom yn parhau i chwarae rhan bwysig yn arwain neu'n cyfrannu at nifer o faterion polisi cyhoeddus ar gais y Senedd neu'r Llywodraeth. Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn parhau yn y dyfodol, pan fydd y Senedd yn dod o hyd i swyddogaeth wedi'i diffinio'n glir ar gyfer Ofcom.

Adran 3

Strategaeth, dibenion strategol a dulliau gweithredu cyffredinol

Mae rhanddeiliaid yn cefnogi datganiad strategaeth Ofcom

- 3.1 Roedd ymatebion i'r cynllun blynyddol drafft yn croesawu'r eglurhad ynghylch strategaeth gyffredinol Ofcom. Roeddent yn nodi ei fod yn rhoi eglurder a ffocws ac yn helpu i esbonio'r meysydd ffocws penodol ar gyfer y rhaglen waith ar gyfer 2013/14.

Ein strategaeth gyffredinol yw sicrhau bod marchnadoedd cyfathrebu'r DU yn gweithio i gefnogi buddiannau defnyddwyr a dinasyddion

- 3.2 Prif ddyletswyddau Ofcom yw hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebu a hybu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol drwy hybu cystadleuaeth, pan fo'n briodol. O ran post, ein prif ddyletswydd yw sicrhau bod gwasanaeth post cyffredinol yn cael ei ddarparu. Pan fyddwn yn cynnal ein swyddogaethau mewn perthynas â gwasanaethau post, mae gofyn i ni roi blaenoriaeth i'r brif ddyletswydd hon os yw'n ymddangos i ni ei bod yn gwrthdaro â'n prif ddyletswyddau.

Strategaeth Ofcom

Byddwn yn gweithio ar ran defnyddwyr a dinasyddion drwy hybu cystadleuaeth effeithiol, dewisiadau ar sail gwybodaeth a'r cyfle i gymryd rhan mewn ystod eang o wasanaethau cyfathrebu, gan gynnwys y post. Byddwn yn sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau, drwy fecanweithiau marchnad pan fo'n bosibl a chamau rheoleiddio pan fo angen. Byddwn yn rhoi diogelwch cymesur i ddefnyddwyr ac yn helpu i gynnal hyder cynulleidfaoedd mewn cynnwys a ddarlledir. Byddwn yn cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, gan gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus o ansawdd uchel a lluosogrwydd perchnogaeth o'r cyfryngau.


Er mwyn cyflawni'r nodau hyn byddwn yn ymgynghori, yn dryloyw ac yn gymesur. Byddwn yn cael gwybodaeth drwy ymchwil a gwybodaeth o ansawdd uchel a byddwn yn rhannu hynny'n eang. Byddwn yn ystyried amrywiaeth y DU a'i gwledydd. Byddwn yn ceisio bod yn arloesol, yn ymatebol ac yn effeithiol ym mhopeth a wnawn.

Ffigur 3: Strategaeth Ofcom

Yr hyn rydym yn ei wneud i hybu buddiannau defnyddwyr a dinasyddion...



... a sut byddwn yn ymddwyn wrth wneud hyn



3.3 Mae **cystadleuaeth effeithiol a dewis ar sail gwybodaeth** ar draws pob gwasanaeth cyfathrebu yn elfen allweddol i'n strategaeth. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau ar yr ochr galw a chyflenwi i gynyddu'r dewis i ddefnyddwyr. O dan y diben hwn, bydd gweithgareddau allweddol yn cynnwys:

- polisi cystadleuaeth ar yr ochr cyflenwi ar gyfer gwasanaethau lle ceir neu lle mae'n bosibl cael tagfeydd economaidd, gan gynnwys mynediad sefydlog preswyl, telegyfathrebu busnes, cyfathrebu symudol, darlledu a phost; a
- gwasanaethau ar yr ochr galw i rymuso defnyddwyr drwy ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen i ddefnyddwyr wneud dewisiadau effeithiol a sicrhau newid hawdd rhwng gwasanaethau.

3.4 Byddwn yn parhau i hybu'r **cyfle i gyfranogi** mewn cymdeithas i ddefnyddwyr ac i ddinasyddion drwy argaeledd a defnyddio ystod eang o wasanaethau cyfathrebu. Mae angen i ddefnyddwyr a dinasyddion ar draws y DU allu ymgysylltu â gwasanaethau cyfathrebu ac elwa ohonynt. Mae enghreifftiau penodol o'n gwaith yn y maes hwn yn cynnwys:


- sicrhau bod rhwydweithiau a gwasanaethau ar gael yn eang;
- cymorth uniongyrchol i'r bobl fwyaf bregus;
- darparu gwasanaethau cyffredinol yn effeithiol ac yn effeithlon;
- gweithgareddau dethol i helpu i godi ymwybyddiaeth defnyddwyr o wasanaethau a dewisiadau ar gyfer cyfranogi, yn enwedig ar gyfer grwpiau bregus; a
- darparu gwybodaeth a thystiolaeth i gefnogi datblygu polisi cyhoeddus ehangach ar faterion fel cynhwysiant a llythrennedd yn y cyfryngau.

- 3.5 **Sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm** – mae hon yn elfen hollbwysig o'n strategaeth ac yn faes mawr o'n gwaith. Y dull gweithredu rydym yn ei ffafrio yw defnyddio mecanweithiau'r farchnad. Fodd bynnag, mewn rhai achosion rydym yn cydnabod efallai bydd angen cymryd camau rheoleiddio. Mae modd cefnogi ein dyletswyddau ehangach, gan gynnwys nodau cystadleuaeth effeithiol, dewisiadau ar sail gwybodaeth a rhwydweithiau a gwasanaethau sydd ar gael yn eang, drwy ein penderfyniadau sbectrwm.
- 3.6 **Diogelu defnyddwyr rhag niwed** – er bod marchnadoedd effeithiol yn darparu ystod dda o ganlyniadau i ddefnyddwyr, mae amddiffyniadau ôl-stop yn dal yn angenrheidiol mewn marchnad sy'n fwy rhyddfrydig a chystadleuol gyda rhwystrau isel o ran ymuno a gadael. Penderfynir ar ein blaenoriaethau yn y maes hwn ar sail blaenoriaeth weinyddol drwy ddefnyddio ffactorau fel graddfa neu natur y niwed a'n gallu i fynd i'r afael â'r mater. Mae enghreifftiau o faterion wedi cynnwys ffioedd terfynu cynnar mewn contractau band eang a llais sefydlog, cam-werthu llinellau sefydlog a galwadau mud.
- 3.7 **Cynnal hyder cynulleidfaoedd mewn cynnwys a ddarllidir** – mae defnyddwyr yn dal i ddisgwyl rhywfaint o amddiffyniad mewn perthynas â safonau ar gyfer cynnwys a ddarllidir. Mae hyn yn cynnwys nifer o weithgareddau penodol, gan gynnwys:
- trwyddedu a gorfodi; a
 - sicrwydd effeithiol a safonau uchel cyson mewn byd IP sy'n dod yn fwyfwy bydeang.
- 3.8 **Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd** - yn aml bydd buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion sy'n ymwneud â chyfathrebu'n cael eu darparu drwy bolisi cyhoeddus a fydd yn cael ei ddiffinio gan y Senedd. Mae gennym swyddogaeth o ran eu helpu i ddatblygu, drwy weithredu a gorfodi cyrff cyhoeddus i gyflawni canlyniadau i ddinasyddion fel darlledu gwasanaeth cyhoeddus a lluosogrwydd perchnogaeth y cyfryngau. Rydym yn canolbwyntio ein gweithgareddau ar y materion sy'n rhan o'n dyletswyddau ni ac sy'n ein galluogi ni i wneud gwahaniaeth i ddinasyddion. Mae'r swyddogaeth hon yn ategol at nifer o'r rheini a nodir uchod, gyda materion dinasyddion yn torri ar draws yr ystod o weithgareddau Ofcom.
- 3.9 Mae'r strategaeth gyffredinol hon yn seiliedig ar ein hadolygiad o ddibenion strategol blaenorol, gan roi mwy o bwyslais ar y canlyniadau a fydd yn sicrhau manteision i ddefnyddwyr a dinasyddion yn hytrach na'r mecanweithiau a ddefnyddiwn i'w cyflawni.
- 3.10 Yn ogystal â'r datganiad strategaeth hwn, mae egwyddorion rheoleiddio Ofcom⁶ yn dal yn berthnasol, gan gynnwys:
- Bydd Ofcom yn gweithredu gyda gogwydd yn erbyn ymyrryd, ond â pharodrwydd i ymyrryd yn gadarn, yn ddiymdroi ac yn effeithiol pan fydd angen;
 - Bydd Ofcom yn ceisio sicrhau bod ei ymyriadau ar sail tystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw o ran ystyriaeth ac o ran canlyniadau; a
 - Bydd Ofcom bob amser yn ceisio defnyddio'r mecanweithiau rheoleiddio lleiaf ymwithiol er mwyn cyflawni ei amcanion polisi.

⁶ <http://www.ofcom.org.uk/about/what-is-ofcom/statutory-duties-and-regulatory-principles/>

Ein dulliau strategol manylach i ddarparu manteision i ddefnyddwyr a dinasyddion

- 3.11 Isod rydym yn nodi'r egwyddorion, y strategaethau a'r dulliau penodol byddwn yn eu defnyddio ym mhob un o'r meysydd hyn er mwyn helpu i sicrhau manteision i ddefnyddwyr ac i ddinasyddion. Mae'r datganiadau hyn yn berthnasol i'n dulliau gweithredu gyda'r rhan fwyaf o waith a chyfrifoldebau Ofcom. Cânt eu defnyddio i gyfrannu at ein blaenoriaethau a'n meysydd gwaith mawr ar gyfer y flwyddyn nesaf, a ddisgrifir ymhellach yn Adrannau 4 a 5.



Diben Strategol 1: Hybu cystadleuaeth effeithiol a dewis gwybodus

- 3.12 Dull gweithredu sylfaenol Ofcom yw bod canlyniadau da i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr yn aml, ond nid bob tro, yn cael eu darparu gan farchnadoedd effeithiol sy'n gweithredu'n dda. Mae llawer o'r hyn mae Ofcom yn ei wneud yn berthnasol i chwalo rhwystrau sy'n atal marchnadoedd rhag gweithredu'n dda, gyda'r nod o sicrhau dewis effeithiol i ddefnyddwyr, yn ddefnyddwyr ac yn fusnesau.
- 3.13 Mae'r diben strategol hwn felly yn edrych ar ran fawr o waith Ofcom, ar yr ochr galw a chyflenwi. Mae modd ei rannu i nifer o feysydd ffocws penodol.
- Rhwydweithiau telegyfathrebu – sefydlog preswyl, symudol a gwasanaethau busnes.
 - Gwasanaethau clywedol, gan gynnwys darlledu.
 - Polisiâu ac ymyriadau cystadleuaeth ar yr ochr galw i helpu marchnadoedd i weithio i ddefnyddwyr.

Dull gweithredu strategol rhwydweithiau telegyfathrebu

Mynediad sefydlog preswyl

- 3.14 Cefnogi cystadleuaeth o un pen i'r llall 'yn y farchnad' i hybu buddsoddiad ac arloesedd mewn rhwydweithiau band eang cyflym iawn newydd. Mae'r dull gweithredu hwn yn arbennig o berthnasol i ardaloedd trefol sy'n fwy dwys.
- 3.15 Hybu cystadleuaeth ymysg darparwyr cyfathrebu, gan ganolbwyntio ar barhau i sicrhau bod swyddogaethau adran mynediad BT a'i fusnesau eraill yn cael eu cadw ar wahân, a sicrhau mynediad cyfartal i wasanaethau hanfodol.
- Mewn mynediad cenhedlaeth bresennol, canolbwyntio ar fuddsoddiad a chystadleuaeth drwy fynediad at linellau copr wedi'u dadfwndelu.
 - Yn rhwydwaith ffibr BT, canolbwyntio ar fynediad wedi'i reoleiddio at wasanaethau sy'n cynnig ffordd hyblyg o gynnig gwasanaethau adwerthu (VULA)

i holl ddefnyddwyr y rhwydwaith ar delerau sy'n cadw'r cymhellion i fuddsoddi a sicrhau cystadleuaeth hefyd.

- 3.16 Mewn ardaloedd mwy gwledig, agor mynediad i bibelli a pholion BT i alluogi cystadleuaeth 'ar gyfer y farchnad'.
- 3.17 Sicrhau bod rheoleiddio yn darparu cymhellion addas ar gyfer ansawdd gwasanaeth digonol gan Openreach, wrth ystyried ei swyddogaeth hollbwysig o ran darparu gwasanaethau llais sefydlog a data ledled y DU.
- 3.18 Cynnal adolygiadau rheolaidd o'r farchnad o dan Fframwaith yr UE i sicrhau bod rheoleiddio, gan gynnwys y ffocws rheoleiddio a nodir uchod, yn parhau i fod yn briodol ac yn addas i'r diben.

Mynediad symudol

- 3.19 Darparu manteision i ddefnyddwyr o ran argaeledd, pris ac arloesedd drwy gyfuniad o:
 - hybu cystadleuaeth mewn darpariaeth gwasanaeth cyfanwerthu cenedlaethol, drwy sicrhau pedwar darparwr cyfanwerthu cenedlaethol;
 - hwyluso arloesedd drwy bolisi sbectrwm hyblyg a phrydlon, gan flaenoriaethu 4G a defnyddio sbectrwm wedi'i eithrio o drwydded (gan gynnwys gofod gwyn) pan fo'n briodol; a
 - galluogi defnyddio rhwydwaith mwy effeithlon a chyfnerthu asedau ffisegol a rhwydweithiau mynediad radio, pan fydd hyn o fudd i ddefnyddwyr ac yn cyd-fynd â chynnal cystadleuaeth.

Telegyfathrebu busnes

- 3.20 Hybu cystadleuaeth, arloesedd a gwerth am arian drwy ddarparu llinellau ar les, a mudo gwasanaethau i lwyfannau newydd a rhatach drwy:
 - ganolbwyntio ein rheoleiddio ar wasanaethau tagfeydd;
 - sicrhau pan fydd BT yn gryf bod gan ei gystadleuwyr fynediad at wasanaethau cyfanwerthu sy'n cael eu darparu dros ei lwyfannau diweddaraf ar sail sy'n gyfystyr â changen adwerthu BT;
 - diogelu defnyddwyr a chwsmeriaid cyfanwerthu mewn marchnadoedd sy'n dirywio drwy signalau pris priodol a newid wedi'i reoli o lwyfannau sy'n cyrraedd diwedd eu hoes; ac
 - addasu rheoleiddio yn ôl yr amodau cystadleuol gwahanol mewn rhannau gwahanol o'r DU.

Dull gweithredu strategol ar gyfer gwasanaethau clywedol, gan gynnwys darlledu

- 3.21 Hybu cystadleuaeth effeithiol a chynaliadwy mewn gwasanaethau clywedol, gan sicrhau manteision dewis, prisiau ac arloesedd i ddefnyddwyr.

- 3.22 Mynd i'r afael â'r tagfeydd sy'n parhau pan fyddant yn codi mewn hawliau cynnwys (gan gynnwys cynnwys premiwm), llwyfannau darlledu a llwyfannau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau clywedol.
- 3.23 Cefnogi'r Llywodraeth wrth iddi adolygu rheoliadau cyfathrebu, gan ei helpu gyda'i hamcanion o ystyried eglurder a chwmpas y fframwaith ar gyfer cystadleuaeth *ex-ante* mewn darlledu yng nghyd-destun datblygiadau yn y farchnad, a phenderfynu a yw cydgyfeirio'r farchnad yn gofyn am rywfaint o gydgyfeirio yn y trefniadau cystadleuaeth telegyfathrebu a darlledu.
- 3.24 Aros yn effro i'r cysylltiadau posibl â nodau polisi ehangach; yn enwedig swyddogaeth ymyriadau i sicrhau darlledu gwasanaeth cyhoeddus am ddim o ansawdd uchel a'i oblygiadau i'r dewis i ddefnyddwyr mewn gwasanaethau clywedol, a drafodir yn niben Strategol 6 isod.

Polisiâu ac ymyriadau cystadleuaeth ar yr ochr galw i helpu marchnadoedd i weithio i ddefnyddwyr

- 3.25 Mae ein strategaeth yn y maes hwn yn ymwneud â grymuso defnyddwyr i wneud dewisiadau effeithiol a lleihau'r rhwystrau i'w gallu i fanteisio i'r eithaf ar y dewis sydd ar gael ar yr ochr cyflenwi. Rydym yn gwneud hyn drwy ddatblygu polisiâu, a phan fydd angen, ymyrryd i gywiro methiannau ar ochr galw'r farchnad; er enghraifft, yn deillio o ddiffyg gwybodaeth ddigonol i ddefnyddwyr er mwyn gwneud dewisiadau gwybodus a rhwystrau sy'n atal newid.
- 3.26 Yn gyffredinol, mae dwy haen i'n strategaeth – gwybodaeth a newid.

Dull gweithredu strategol i rymuso drwy wybodaeth

- 3.27 Ymyrryd i sicrhau bod gwybodaeth addas ar gael i ddefnyddwyr mewn achosion pan na fydd y farchnad yn rhoi digon o wybodaeth a phan fydd yr wybodaeth yn bwysig i ddewis defnyddwyr.
- 3.28 Sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir i ddefnyddwyr yn: briodol; hygyrch; dealladwy; ac mae modd ei dilysu a'i chymharu.
- 3.29 Hybu a hwyluso darparu gwybodaeth ddibynadwy a chredadwy yn y farchnad pan fo'n bosibl; e.e. achredu cyfrifianellau cymharu prisiau trydydd partion.

Dull gweithredu strategol i rymuso drwy newid

- 3.30 Hybu newid rhwng darparwyr mewn ffordd sy'n fwy boddhaol a hwylus er mwyn i ddefnyddwyr ei chael hi'n hawdd newid ac fel nad yw prosesau'n atal cystadleuaeth effeithiol.
- 3.31 Yng nghyd-destun ein barn strategol tymor hir ei bod yn well defnyddio prosesau sy'n cael eu harwain gan y darparwr sy'n ennill y cwsmer yn hytrach na phrosesau sy'n cael eu harwain gan y darparwr sy'n colli'r cwsmer, ystyried y ffordd orau o wella'r broses newid mewn cyd-destunau marchnad penodol.
- 3.32 Mewn egwyddor, galluogi defnyddwyr i newid rhwng gwasanaethau wedi'u bwndelu mewn ffyrdd sy'n cyd-fynd â'r dull a ffeirir gennym ar gyfer gwasanaethau unigol.
- 3.33 Aros yn effro i ganlyniadau nad bwriadwyd ymyriadau arfaethedig a'u heffaith ar brofiadau defnyddwyr.

Diben Strategol 2: Sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm

- 3.34 Wrth gyflawni ein dyletswydd i sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau, mae pum prif ffrwd yn perthyn i'n dull gweithredu strategol:
- parhau i ddefnyddio dulliau gweithredu wedi'u harwain gan y farchnad yng nghyswllt rheoli sbectrwm pan fo'n addas, ar yr un pryd â chydabod gwerth camau rheoleiddio mewn materion sy'n ymwneud â sbectrwm;
 - adnabod ac ailfwrriadu bandiau sbectrwm ychwanegol i gefnogi bod gwasanaethau data symudol yn dal ar gael yn eang, ar yr un pryd â chydbwysio anghenion ffyrdd gwerthfawr eraill o ddefnyddio sbectrwm;
 - datblygu a chefnogi dulliau newydd o rannu sbectrwm er mwyn defnyddio'r adnodd prin hwn yn well, gan ganolbwyntio ar fynediad rheoli sbectrwm deinamig, gan gynnwys dyfeisiau gofod gwyn;
 - helpu'r Llywodraeth i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch sut mae'n defnyddio sbectrwm nawr ac yn y dyfodol; a
 - hybu buddiannau'r DU mewn fforymau rheoleiddio rhyngwladol ac Ewropeaidd yn unol â'n strategaeth sbectrwm a nodi dylanwad cynyddol datblygiadau rhyngwladol ar farchnad y DU.

Diben Strategol 3: Hyrwyddo cyfleoedd i gyfranogi

- 3.35 Er mwyn i ddefnyddwyr a dinasyddion allu manteisio ar wasanaethau cyfathrebu, mae angen cyfle i gymryd rhan arnynt; mae angen iddynt allu cael gafael ar wasanaethau a'u defnyddio'n effeithlon. Yn y gorffennol, mae llawer o'n gweithgarwch yn y maes hwn wedi cael ei wneud o dan bennawd mynediad a chynhwysiant. Yn y maes hwn, mae tair prif elfen yn perthyn i'n dull gweithredu strategol.
- 3.36 **Hybu argaeledd gwasanaethau cyfathrebu yn eang**, a sicrhau bod pob dinesydd yn cael cyfle i'w defnyddio. Mae gweithgareddau allweddol yn y maes hwn yn cynnwys:
- sicrhau buddsoddiad preifat mewn rhwydweithiau eang drwy gynnal cymhellion effeithiol i fuddsoddi drwy gystadleuaeth a pholisi cysylltiedig, gan adlewyrchu risg uwch bosibl buddsoddi mewn rhwydweithiau newydd pan fo'n briodol;
 - cefnogi darparu gwasanaethau symudol eang, gan gynnwys band eang symudol, ar draws y DU a'i gwledydd drwy osod y dyletswyddau trwydded ar gyfer gwasanaethau 4G a chefnogi ymyriadau sector cyhoeddus i fynd i'r afael â manau di-gyswllt symudol (Prosiect Seilwaith Symudol yr Adran dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Cyfryngau⁷ (MIP));
 - sicrhau y parheir i ddarparu ac esblygu gwasanaethau cyffredinol effeithiol ac effeithlon mewn telegyfathrebu;

⁷ http://www.culture.gov.uk/what_we_do/telecommunications_and_online/8757.aspx

- sicrhau darparu'r gwasanaeth post cyffredinol drwy waith ar gynaliadwyedd ariannol, effeithlonrwydd, monitro ac ymchwil parhaus a rheoleiddio economaidd;
- hybu dealltwriaeth yn weithredol o argaeledd, defnydd a pherfformiad rhwydwaith ymysg llunwyr polisïau yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon i ysgogi dadl a datblygiad polisi i gyflawni yn erbyn nodau argaeledd a chynhwysiant llywodraethau; a
- defnyddio ein harbenigedd i helpu llywodraeth i wneud penderfyniadau a pholisïau da ac effeithiol i gyflawni argaeledd a chynhwysiant eang, gan ganolbwyntio ar fand eang cyflym, DSO a newid radio digidol.

3.37 **Hybu, a phan fo'n briodol ymyrryd, i sicrhau cyfleoedd cyfartal ar gyfer defnyddwyr anabl a bregus** i gymryd rhan mewn defnyddio gwasanaethau cyfathrebu. Rydym yn gwneud hyn drwy hybu datblygu ac argaeledd offer a dyfeisiau cyfathrebu, y mae'n hawdd i'r ystod ehangaf bosibl o ddinasyddion a defnyddwyr eu defnyddio, gan gynnwys defnyddwyr anabl. Mae enghreifftiau o weithgareddau'n cynnwys:

- darparu gwasanaethau mynediad (gwasanaethau is-deitlau, gwasanaethau (ee EPGs) i bobl â nam ar eu synhwyrâu); a
- darparu mynediad cyfartal i wasanaethau cyfathrebu ar gyfer defnyddwyr anabl.

3.38 **Darparu gwybodaeth ac ymchwil o ansawdd uchel** i ddeall lefelau cyfranogiad mewn gwasanaethau cyfathrebu ar draws y DU a'i gwledydd, gan gefnogi dynodi cyfleoedd er mwyn cymryd rhan bellach. Rydym yn gwneud hyn drwy gydweithredu â rhanddeiliaid eraill mewn llywodraeth, cyrff anllywodraethol a'r diwydiant i hybu cyfranogiad a drwy gyhoeddi ystod o adroddiadau cyfnodol, gan gynnwys Adroddiad *Profiad y Defnyddiwr* ac ymchwil llythrennedd yn y cyfryngau.

Diben Strategol 4: Diogelu defnyddwyr rhag niwed

- 3.39 Mae dal angen diogelu defnyddwyr mewn marchnad sy'n fwy rhyddfrydig a chystadleuol gyda rhwystrau isel o ran ymuno a gadael. Ein dull gweithredu strategol ar gyfer diogelu defnyddwyr yw canolbwyntio ar raddfa'r niwed i ddefnyddwyr a'n gallu i fynd i'r afael â hynny.
- 3.40 Mae enghreifftiau o feysydd canolbwyntio i gyflawni ein strategaeth i leihau niwed i ddefnyddwyr yn cynnwys: galwadau mud; biliau annisgwyl o uchel; cam-werthu a slamio; trosglwyddo llinellau sefydlog mewn camgymeriadau; telerau contractau teg a rhifau heb fod yn rhai daearyddol. Byddwn yn defnyddio ein hamrywiaeth o bwerau fel sy'n briodol ac yn gymesur i atal niwed a rhwystro ymddygiad gwael.
- 3.41 Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r diwydiant a rheoleiddwyr eraill, pan fo'n briodol, i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu pan fydd eu data, gan gynnwys eu data personol, yn cael ei gasglu wrth iddynt ymwneud â gwasanaethau rhyngwyd.

Diben Strategol 5: Cynnal cynulleidfaoedd mewn cynnwys a ddarlledir

- 3.42 Mae dwy brif elfen yn perthyn i'n dull gweithredu strategol ar gyfer hyder y gynulleidfa mewn cynnwys a ddarlledir; a amlinellir isod. Ar ben hynny, ceir cysylltiadau rhwng y

diben strategol hwn a pharhau i ddarparu darlledu gwasanaeth cyhoeddus am ddim o ansawdd uchel. Rhoddir rhagor o sylw i hyn isod.

Targed trwyddedu a gorfodi i sicrhau amddiffyniad i gynulleidfaoedd

- 3.43 Darparu amddiffyniad parhaus i gynulleidfaoedd drwy gyflawni'r Cod Darlledu'n effeithiol ac adolygiad strategol o'r ffordd rydym yn trwyddedu ac yn rheoleiddio gwasanaethau darlledu, gyda ffocws penodol ar amddiffyn plant a chyfyngu ar gynnwys sy'n peri'r risg fwyaf o niwed i gynulleidfaoedd.

Darparu sicrwydd effeithiol mewn byd IP wedi'i globaleiddio

- 3.44 Mewn partneriaeth â chyd-reoleiddwyr, gorfodi trothwy sylfaenol ar gyfer sicrhau cynulleidfa ar draws pob gwasanaeth digidol a ddarperir yn y DU, gyda ffocws penodol ar VoD.
- 3.45 Canfod mecanweithiau i ddatrys sialensiau awdurdodaethol mewn byd IP wedi'i globaleiddio gan weithio gyda phartneriaid yn y DU, Ewrop (gan gynnwys drwy Lwyfan Awdurdodau Rheoleiddio Ewrop – EPRA) ac yn rhyngwladol, yn enwedig ar y sialensiau a berir drwy ddarparu cynnwys drwy ystod o ddyfeisiau wedi'u cysylltu, gan gynnwys teledu wedi'i gysylltu.

Diben Strategol 6: Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a'i roi ar waith

- 3.46 Yn ogystal â'r pum maes; cystadleuaeth a dewis, cyfle i gyfranogi, defnyddio sbectwm yn y ffordd orau, diogelu defnyddwyr a hyder y gynulleidfa, mae gan Ofcom swyddogaeth i gefnogi datblygu polisi cyhoeddus ehangach yng nghyswllt materion cyfathrebu. Gallwn chwarae ystod o swyddogaethau i gefnogi polisi cyhoeddus yn ehangach:
- Cynghori; cyfrannu at ddadl polisi. Mae enghreifftiau yn y gorffennol wedi cynnwys teledu lleol a mesuryddion deallus.
 - Gweithredu; creu a gorfodi deddfwriaeth newydd. Y brif enghraifft ddiweddar yw gweithredu darpariaethau Deddf yr Economi Ddigidol 2010 sy'n ymwneud â thorri hawlfraint ar-lein.
- 3.47 Ein dull gweithredu strategol i gyflawni'r amcan hwn drwy ddefnyddio ein dealltwriaeth o'r sector, ein perthynas â rhanddeiliaid a'n harbenigedd ym maes technoleg a pholisi.
- 3.48 Yn y maes hwn, mae gan Ofcom nifer o ddyletswyddau penodol, gan gynnwys y rhai sy'n berthnasol i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus a lluosogrwydd perchnogaeth o'r cyfryngau; byddwn yn parhau i gefnogi gweithgareddau datblygu polisi'r Llywodraeth yn y meysydd hyn.

Cynnal darlledu gwasanaeth cyhoeddus am ddim o ansawdd uchel

- 3.49 Cynnal sefydlogrwydd ac effeithiolrwydd y drefn darlledu gwasanaeth cyhoeddus fel rhan o ecosystem cynnwys a ddarlledir iach a chymysg.
- 3.50 Bod y sail i eglurder ac effeithiolrwydd ymyriadau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y degawd nesaf, drwy ganolbwyntio ar:

- **esblygu llywio, amlygrwydd a gofynion rhaid cludo** – gan sicrhau bod y fantais allweddol hon o statws darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal yn berthnasol i'r rheini sy'n dal trwyddedau mewn byd o ddsbarthu sy'n newid a gwasanaethau ar alwad, gan gynnwys ar lwyfannau newydd fel sy'n briodol;
- **gorfodi cwotâu effeithiol** – gan sicrhau bod cwotâu cynhyrchu ar gyfer rhaglenni a gynhyrchir y tu allan i Lundain yn gosod canrannau isafswm i'r pedwar prif Ddarlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus, sy'n gorfod darlledu rhaglenni a gynhyrchwyd yn y gwledydd ac yn rhanbarthau Lloegr, er mwyn cyfrannu at economi greadigol y DU; a
- **sicrhau argaeledd eang llwyfan darlledu am ddim credadwy (DTT)** – gan sicrhau bod dosbarthu eang yn cael ei gynnal fel un o fanteision statws darlledu gwasanaeth cyhoeddus i gynyddu'r manteision i ddinasyddion y DU.

3.51 Sicrhau llwyfan DTT effeithiol sydd wedi'i reoli'n dda er mwyn cefnogi nodau darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Cynnal lluosogrwydd yn y cyfryngau, gan gynnwys perchnogaeth o'r cyfryngau

3.52 Mae gan Ofcom swyddogaeth i gynnal lluosogrwydd digonol o ddarparwyr gwasanaethau teledu a radio gwahanol. Yn ein cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol⁸, daethom i'r casgliad bod lluosogrwydd yn cyfrannu at gymdeithas ddemocrataidd sy'n gweithredu'n dda a diffinio lluosogrwydd gan gyfeirio at y canlyniadau a geisir yn y farchnad:

- sicrhau bod amrywiaeth o safbwyntiau ar gael ac yn cael eu defnyddio mewn ac ar draws cwmnïau cyfryngau; ac
- atal un perchennog cyfryngau neu un llais rhag cael gormod o ddylanwad dros farn gyhoeddus a'r agenda wleidyddol.

3.53 Yn y bôn ceir dau ddull gweithredu i gyflawni'r ddyletswydd hon:

- mesurau sydd wedi'u hanelu at atal gweithredoedd a fyddai'n lleihau lluosogrwydd yn y cyfryngau. Mae'r rhain yn cynnwys y fframwaith rheoleiddio presennol sy'n llywodraethu uno cwmnïau cyfryngau (ar draws teledu, radio a phapurau newydd) a pherchnogaeth o'r cyfryngau a safonau darlledu ar gyfer teledu a radio; a
- mecanweithiau cadarnhaol i hybu lluosogrwydd yn y cyfryngau – megis y polisi darlledu gwasanaeth cyhoeddus presennol neu gyngor i'r llywodraeth. Mae'r rhain yn debyg o fod yn arbennig o bwysig mewn amgylchiadau lle nad yw'r lefel ddymunol o lluosogrwydd yn y cyfryngau'n gynaliadwy yn fasnachol, er enghraifft darparu newyddion gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

⁸ <http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/consultations/measuring-plurality/statement/statement.pdf>

Mae gan Ofcom strategaeth ehangach mewn perthynas â dinasyddion

- 3.54 Nid cefnogi polisi cyhoeddus yw'r unig ffordd rydym yn cyflawni ein dyletswyddau mewn perthynas â buddiannau dinasyddion. Mae gennym ddyletswyddau a phwerau clir yng nghyswllt dinasyddion sy'n rhoi'r mandad i ni weithredu'n annibynnol ar lywodraeth. Mae dyletswyddau Ofcom i ddinasyddion wedi cyfrannu at ein ffordd o feddwl ers y cychwyn cyntaf – boed hynny o ran ceisio dull gweithredu cytbwys ar gyfer dyrannu sbectrwm neu ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus. Maent yn dal i fod yn sail i lawer o'r hyn rydym yn ei wneud heddiw ac maent yn cyfrannu at ein proses cynllunio flynyddol a'r blaenoriaethau rydym yn eu gosod.
- 3.55 Marchnadoedd sy'n gweithio'n effeithiol yw'r llwybr cyntaf i gyflawni buddiannau defnyddwyr a dinasyddion. Fodd bynnag, nid yw hyn bob tro'n ddigon ac mae angen i ni ddefnyddio ein barn ar faterion sy'n ymwneud â dinasyddion; gall offer economaidd gyfrannu at y mater ond nid ydynt bob tro'n rhoi'r atebion. Mae ein swyddogaeth o ran datblygu buddiannau dinasyddion yn cynnwys hybu neu sicrhau canlyniadau'r tu hwnt i'r hyn y gall y farchnad breifat ei hun ddarparu. Rydym yn ceisio sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau a'r cynnwys sydd eu hangen arnynt i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas.
- 3.56 Mae asesu a oes angen ymyriadau rheoleiddio yn gofyn am ddull gweithredu gofalus. Gallai ymyriadau i ymestyn argaeledd gwasanaethau cyfathrebu lesteirio buddsoddiad ac arloesedd ond, gallai methu ag ymyrryd olygu bod rhai dinasyddion yn cael eu heithrio neu fod gwasanaethau o werth cyhoeddus yn cael eu colli.
- 3.57 Mae modd grwpio'r cyfiawnhad dros weithredu er budd y dinesydd i ddau gategori:
- **Ymyriadau i fynd i'r afael â methiannau yn y farchnad:** wedi'u hanelu at gywiro canlyniad sy'n economaidd aneffeithlon, er enghraifft, rhywbeth allanol, pŵer y farchnad, nwyddau cyhoeddus ac, o bosibl, nwyddau rhinwedd. Mae mynd i'r afael ag elfennau allanol sy'n deillio o'r ffaith ein bod yn defnyddio mwy o wasanaethau symudol a band eang wedi gwrthio ein gwaith ymlaen mewn crwydro brys yn ogystal â'n gwaith ar gynnwys dyletswyddau darpariaeth ar y drwydded 4G.
 - **Ymyriadau i ddarparu gwerth cymdeithasol ehangach:** wedi'i anelu at fynd ar drywydd nod polisi cyhoeddus pan fydd y rhesymwaith dros weithredu yn mynd ymhellach na chyfiawnhad hollol economaidd. Efallai fod y farchnad eisoes yn darparu canlyniad effeithlon, ond gall arwain at ddiffyg ymddangosiadol mewn darparu cynnyrch neu wasanaeth. Mewn achosion o'r fath, gall ymyriad wireddu gwerth cymdeithasol ehangach. Un enghraifft yw nod llywodraethau i gefnogi gwasanaethau cyffredinol, technolegau newydd ar gael yn eang a'r gwerth a geir drwy ddarparu gwasanaethau llywodraeth ar-lein.
- 3.58 Ar gyfer y materion hynny lle mae gennym swyddogaeth wedi'i diffinio'n glir fel nod polisi yn y Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a Deddf Gwasanaethau Post 2011, byddwn yn parhau i ddatblygu buddiannau dinasyddion yn rhagweithiol yng nghyswllt materion sy'n ymwneud â chyfathrebu lle ceir risg na fydd y marchnadoedd eu hunain yn darparu canlyniadau da (ee bod gwasanaethau ar gael yn eang).
- 3.59 Ar ben hynny, ar gyfer materion lle mae gennym swyddogaeth nad yw wedi cael ei diffinio gystal, byddwn yn parhau i gefnogi canlyniadau da i ddinasyddion lle gallwn

wneud gwahaniaeth, naill ai drwy gyngor i lywodraeth (ee ar bolisi darlledu gwasanaeth cyhoeddus a lluosogrwydd) neu drwy ymgysylltu â'r diwydiant.

- 3.60 Yn bwysig, bydd ymyriadau a gweithredoedd penodol er budd dinasyddion yn parhau i gael eu lleadaenu ar draws ein holl ddibenion strategol yn hytrach na dim ond disgyn o dan ein swyddogaeth o gyfrannu bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a'i roi ar waith.

Mae Ofcom hefyd wedi nodi nifer o themâu sy'n berthnasol i fwy nag un diben strategol

- 3.61 Rydym wedi nodi nifer o themâu 'trawsbynciol' a fydd yn dylanwadu ar ein dulliau gweithredu strategol, ac maent yn berthnasol i fwy nag un diben strategol ac mae ganddynt oblygiadau i fwy nag un hefyd. Bydd pob un o'r rhain yn galw am weithgarwch gan Ofcom ac efallai byddant yn peri sialensiau sylweddol o ran gweithredu ein strategaeth.

Cefnogi datblygiadau technolegol, gan gynnwys y gallu i ryngweithredu a safoni

- 3.62 Bydd Ofcom yn parhau i gefnogi defnyddio technolegau a dulliau newydd i ddarparu gwasanaethu, yn enwedig pan fydd perygl y gallai'r farchnad fethu. Gall enghreifftiau gynnwys sefyllfaoedd lle gallai rhwystrau fodoli i atal cysoni neu gydlynu.
- 3.63 Byddwn yn canolbwyntio ar feysydd lle mae technolegau a dulliau gweithredu newydd yn cyfrannu at un o'n dibenion strategol. Gall enghreifftiau gynnwys: dyfeisiau gofod gwyn a all ein helpu i sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau neu ddatblygiadau mewn dadfwn delu hyd tonnau i gefnogi cystadleuaeth effeithiol a dewisiadau ar sail gwybodaeth mewn band eang cyflym iawn.
- 3.64 Rydym yn meddwl y bydd marchnadoedd yn gweithio'n dda i ddefnyddwyr, yn aml, o ran eu bod yn gallu gwneud penderfyniadau ar ddefnyddio technolegau; ond nid ydym yn diystyru gwneud penderfyniadau os bydd angen

Parhad globaleiddio a sialens awdurdodaeth

- 3.65 Bydd parhau i ddefnyddio cyflenwi gwasanaeth IP ar gyfer gwasanaethau a globaleiddio gwasanaethau cyfathrebu yn peri mwy o sialens i bwerau rheoleiddwyr cenedlaethol.
- 3.66 O'r herwydd, bydd angen i ni ganolbwyntio mwy ar ymgysylltu, cyswllt a dylanwadu rhyngwladol i sicrhau canlyniadau da i ddinasyddion a defnyddwyr y DU. Bydd hyn yn effeithio ar nifer o faterion, gan gynnwys amddiffyn cynulleidfaoedd a defnyddwyr, camau i fynd i'r afael â thorri hawlfraint ar-lein, rheoli traffig, diogelu data, llywodraethu'r rhyngwyd, buddsoddi mewn cynnwys a phryderon newydd ynghylch cystadleuaeth.

Ein perthynas â'r Llywodraeth a nodau polisi ehangach

- 3.67 Yng nghyswllt materion polisi cyhoeddus, rydym yn disgwyl y bydd perthynas waith Ofcom â'r Llywodraeth yn parhau i fod yn llyfn, gan amrywio o gefnogi i weithredu polisiâu penodol a ddiffinnir gan y Senedd. Mater i'r Llywodraeth yw penderfynu i ba raddau y dylid ac y gellid defnyddio polisi rheoleiddio i gefnogi nodau twf ac

arloesedd ehangach y llywodraeth. Gall hyn effeithio ar bolisiau penodol mewn nifer o feysydd, gan gynnwys cystadleuaeth a sbectrwm, yn ogystal â materion penodol fel niwtraliaeth rhwydwaith a'r economi greadigol.

Rheoli'r broses o symud hen wasanaethau i lwyfannau a thechnolegau newydd

- 3.68 Wrth i farchnadoedd a gwasanaethau esblygu ac wrth i dechnolegau newydd olygu bod angen i gwsmeriaid symud i wasanaethau a dyfeisiau newydd, bydd rheoli'r symud ymysg defnyddwyr yn codi materion i Ofcom.
- 3.69 Mae'r sialensiau a achosir drwy symud i wasanaethau newydd yn amrywiol ac yn cynnwys:
- y perygl na fydd y gwasanaethau newydd yn gopi llawn o swyddogaethau'r hen wasanaethau neu na fyddent yn diwallu holl anghenion y defnyddwyr;
 - dyrannu unrhyw gost anfwriadol untro y bydd y cyflenwyr yn gofyn amdani a sut y gallai hon amrywio rhwng gwasanaethau;
 - sut dylid diffinio prisiau gwasanaethau newydd wedi'u rheoleiddio o'u cymharu â'r hen wasanaethau, yn enwedig i'r defnyddwyr hynny nad oeddent yn weithredol geisio symud i dechnoleg newydd; ac
 - amddiffyniad i ddefnyddwyr bregus hen wasanaethau lle gall gostyngiad mewn niferoedd arwain at godi prisiau i lefelau nad oes modd eu fforddio.

Polisi rhyngrwyd


- 3.70 Mae swyddogaeth gwasanaethau IP a rhyngrwyd yn dod yn bwysicach i wasanaethau cyfathrebu, ar gyfer defnyddwyr a chyflenwyr y gwasanaethau hyn.
- 3.71 Mae buddiannau perthnasol defnyddwyr a dinasyddion yn yr amgylcheddau hyn sy'n dod i'r fei yn cynnwys: ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o effaith gwasanaethau a modelau busnes newydd, gan gynnwys y goblygiadau i hawliau eiddo deallusol; dewis mewn gwasanaethau newydd drwy gystadleuaeth, arloesedd, buddsoddi mewn rhwydweithiau, argaeledd a gwytnwch; ymddiriedaeth defnyddwyr mewn gwasanaethau cyfathrebu newydd; ac amddiffyniad i ddefnyddwyr.
- 3.72 Gan edrych ymlaen, mae nifer o ddadleuon sy'n ymwneud â'r rhyngrwyd lle bydd gofyn i Ofcom ddeall materion sy'n ymwneud â'r materion perthnasol yn dda, fel: swyddogaeth cyfryngwyr o ran sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr; mesurau i leihau torri hawlfraint ar-lein y tu hwnt i'r rheini yn Neddf yr Economi Ddigidol 2010; diogelu data; y gallu i gludo cynnwys a gallu dyfeisiau i ryngweithredu; seilwaith a modelau llywodraethu'r rhyngrwyd sy'n esblygu; a swyddogaeth y rhyngrwyd o ran cefnogi arloesedd mewn marchnadoedd cyfathrebu a thwf economaidd ar draws y DU.

Adran 4

Blaenoriaethau ar gyfer 2013/14

Mae ein dibenion strategol a'n dulliau gweithredu yn tywys ein blaenoriaethau

- 4.1 Mae'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2013/14 yn gwahanu ein rhaglen waith i'r categorïau canlynol:
- **Blaenoriaethau**, sy'n cynrychioli meysydd gwaith hanfodol i Ofcom eu hyrwyddo yn y flwyddyn i ddod i sicrhau ein bod yn hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr.
 - **Canlyniadau** ar gyfer pob un o'n blaenoriaethau arfaethedig, i helpu i asesu ein llwyddiant yn eu cyflawni a sicrhau ein bod yn darparu buddion cadarnhaol i ddinasyddion a defnyddwyr.
 - **Meysydd gwaith eraill** - materion pwysig eraill lle bwriadwn wneud rhagor o waith yn ystod 2013/14 (Adran 5).
 - **Gwaith rhaglennu** a chyfrifoldebau rydym yn eu cyflawni'n barhaus, gan ddarparu gwasanaethau allweddol i randdeiliaid, dinasyddion a defnyddwyr (Adran 6).
- 4.2 Er mwyn ymateb i ddatblygiadau yn y farchnad sy'n berthnasol i'n dyletswyddau presennol, mae ein blaenoriaethau'n cydbwysu gwaith newydd ag ymrwymïadau parhaus pwysig. Maent yn cael eu tywys gan ein chwe diben strategol.



Diben Strategol 1: Hybu cystadleuaeth effeithiol a dewis gwybodus

- 4.3 Mae cystadleuaeth effeithiol a dewis ar sail gwybodaeth yn elfennau o farchnadoedd cyfathrebu sy'n gweithredu'n dda, ac maent yn fwy tebygol o arwain at brisiau effeithlon i ddefnyddwyr, cefnogi arloesedd ac arwain at gymhellion ar gyfer buddsoddiad effeithlon mewn rhwydweithiau a gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli a rhai newydd.
- 4.4 Mae nodweddion marchnadoedd cyfathrebu yn cynnwys effeithiau, graddfa, manteision a chymhlethdod rhwydwaith cryf. Rydym yn rhagweld swyddogaeth barhaus ar gyfer rheoleiddio *ex ante*, gan gynnwys i hybu cystadleuaeth rhwng cyflenwyr a chefnogi dewis i ddefnyddwyr.
- 4.5 Rydym wedi pennu tair blaenoriaeth benodol ar gyfer 2013/14, sy'n ymateb i ddatblygiadau yn y farchnad ac y bwriedir iddynt ddarparu manteision sylweddol i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr.

Hybu cystadleuaeth
effeithiol a dewis
gwybodus

- Sicrhau y ceir buddsoddiad a chystadleuaeth effeithiol mewn band eang cyfredol a band eang cyflym iawn
- Hyrwyddo dewis effeithiol ar gyfer defnyddwyr drwy sicrhau bod gwybodaeth glir a pherthnasol ar gael yn hwylus
- Datblygu a gweithredu polisiau a fydd yn gwella'r broses o symud yn hwylus rhwng darparwyr cyfathrebiadau

Sicrhau y ceir buddsoddiad a chystadleuaeth effeithiol mewn band eang cyfredol a band eang cyflym iawn

- 4.6 Mae defnyddio a mabwysiadu gwasanaethau band eang cyflym iawn yn parhau. Mae gwasanaethau o'r fath ar gael i dros 65% o eiddo, gyda dros un o bob deg cwsmer band eang yn prynu gwasanaeth cyflym. Mae gan y Llywodraeth targed i sicrhau y bydd gwasanaethau band eang cyflym iawn ar gael i dros 90% o eiddo erbyn 2015, ac mae'n darparu arian cyhoeddus i ategu'r buddsoddiad preifat i helpu i gyrraedd y targed hwn.
- 4.7 Yn 2010 roedd Ofcom wedi sefydlu fframwaith rheoleiddio clir ar gyfer buddsoddi mewn mynediad y genhedlaeth nesaf (NGA) a chystadleuaeth mewn band eang cyflym iawn. Mae'r fframwaith hwn yn mynnu bod BT yn cynnig rhith fynediad lleol wedi'i ddadfwndelu (VULA) at ei seilwaith ffibr cenedlaeth nesaf, er mwyn i ddarparwyr eraill allu cystadlu gyda BT i gyflenwi gwasanaethau band eang cyflym iawn i ddefnyddwyr; ystyrir bod hyn yn allweddol i gefnogi cystadleuaeth yn y farchnad mynediad lleol cyfanwerthu ar gyfer gwasanaethau band eang cyflym iawn. Mae'r fframwaith hwn hefyd yn mynnu bod BT yn darparu mynediad i'w seilwaith ffisegol, gan gynnwys pibelli a pholion, fel bo gan ddarparwyr eraill y dewis o fuddsoddi mewn NGA. Ystyrir bod hyn yn allweddol i hybu cystadleuaeth yn seiliedig ar seilwaith, gan alluogi buddsoddiad i gystadlu mewn meysydd newydd.
- 4.8 Yn ystod 2013/14 byddwn yn parhau i sicrhau bod BT yn ymateb i bob cais rhesymol i gael yr atebion mynediad hwn, a gwasanaethau eraill sydd wedi'u rheoleiddio (megis WLR a LLU), gan ganiatáu i ddarparwyr eraill eu defnyddio'n effeithiol.
- 4.9 Hefyd, yn unol â'r fframwaith Ewropeaidd ar gyfer cyfathrebu electronig, yn ddiweddar rydym wedi dechrau ail adolygu'r marchnadoedd ar gyfer cysylltiadau llais sefydlog a band eang a mynediad lleol. Bydd y gwaith hwn yn mynd rhagddo drwy gydol 2013 a bydd yn ystyried beth fydd y fframwaith rheoleiddio priodol gan roi sylw penodol i ddatblygiadau yn y farchnad. Caiff ein casgliadau terfynol eu cyhoeddi yn gynnar yn 2014. Bydd canlyniad y rhaglen hon o adolygiadau o'r farchnad yn rhan allweddol o sicrhau bod cystadleuaeth ym maes darparu gwasanaethau band eang, yn arbennig, yn parhau i fod yn effeithiol wrth i ddefnyddwyr symud at wasanaethau cyflymach.
- 4.10 Ystyriaeth bwysig yn ein hadolygiad o'r marchnadoedd band eang a llais sefydlog hefyd fydd sicrhau bod Openreach yn cael ei gymell (un ai drwy fecanweithiau sy'n seiliedig ar y farchnad neu reoleiddio) i gyflenwi gwasanaethau i'r ansawdd a ddisgwylir gan ei gwsmeriaid cyfanwerthu a'u defnyddwyr.

Hyrwyddo dewis effeithiol ar gyfer defnyddwyr drwy sicrhau bod gwybodaeth glir a pherthnasol ar gael yn hwylus

- 4.11 Er mwyn i'r farchnad cyfathrebu weithio'n dda, credwn fod yn rhaid i ddefnyddwyr allu gwneud penderfyniadau gwybodus. Mae'n bwysig bod gwybodaeth berthnasol, glir, gywir a dealladwy ar gael iddynt. Bydd hyn yn eu galluogi i wneud penderfyniadau a gweithredu arnynt; er enghraifft, drwy newid rhwng darparwyr i gael bargaen well.

4.12 Yn ystod 2013/14 bydd gwaith Ofcom ar wybodaeth i ddefnyddwyr yn rhoi sylw i feysydd lle credwn fod yr wybodaeth a ddarperir gan y farchnad yn annigonol. Bydd enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

- **Ymchwil i gyflymder band eang:** Byddwn yn parhau â'n gwaith i sicrhau bod defnyddwyr yn cael gwybodaeth ddigonol am y cyflymderau sefydlog a symudol go iawn sydd ar gael, i'w helpu i wneud dewisiadau gwybodus wrth ddewis eu darparwr band eang. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ymchwil bob chwe mis, gan alluogi defnyddwyr i weld sut mae cyflymder band eang yn amrywio rhwng darparwyr, technolegau, ardaloedd daearyddol a chyfnodau amser gwahanol.
- **Data am gwynion defnyddwyr:** Yn chwarterol rydym yn cyhoeddi'r cwynion a gaiff Ofcom yn ôl gwasanaeth a darparwr cyfathrebu. Credwn fod gwybodaeth o'r fath yn ddefnyddiol i ddefnyddwyr, yn enwedig y rheini sy'n ystyried darparwr neu wasanaeth newydd. Ar ben hynny, gall cyhoeddi data am gwynion ynghylch darparwr penodol fod yn gymhelliant i ddarparwyr wella eu perfformiad. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r cyhoeddiad hwn i sicrhau ei fod yn dal yn berthnasol ac yn ddefnyddiol i ddefnyddwyr.
- **Arferion rheoli traffig:** Rydym yn gwneud rhagor o waith i ystyried tryloywder gwybodaeth am reoli traffig, gan gynnwys adolygiad manylach o arferion rheoli traffig, i sicrhau bod defnyddwyr yn cael yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth. Newydd ddechrau y mae'r gwaith hwn, ond gall arwain at addasu codau presennol y diwydiant, neu integreiddio cynnwys newydd sydd â chodau presennol a noddir gan Ofcom megis hwnnw ar gyflymder band eang. Bydd unrhyw ganlyniadau'n seiliedig ar ddadansoddi i ba raddau mae cod presennol y diwydiant yn cyflawni'r nod o ddarparu digon o dryloywder i ddefnyddwyr er mwyn gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.

Datblygu a gweithredu polisiau a fydd yn gwella'r broses o symud yn hwylus rhwng darparwyr cyfathrebiadau

4.13 Mae symud ymlaen ymhellach i sicrhau effeithiolrwydd gweithdrefnau newid yn dal yn flaenoriaeth i Ofcom er mwyn cyflawni ar nodau cystadleuaeth effeithiol a dewisiadau ar sail gwybodaeth. I gyflawni hyn, rydym yn parhau ein hadolygiad o'r prosesau newid ar gyfer gwasanaethau cyfathrebu electronig. Rydym yn canolbwyntio ar gyflawni dau ganlyniad allweddol:

- Profiad hawdd a hwylus o newid i'r defnyddiwr, heddiw ac yn y dyfodol. Mae arnom eisiau sicrhau nad oes dim rhwystrau proses diangen i atal newid ar gyfer gwasanaethau sengl neu fwndeli.
- Sicrhau y bydd prosesau newid yn arwain at ganlyniadau cystadleuol effeithlon.

Adolygu'r prosesau newid

4.14 Cam cyntaf ein hadolygiad yw rhoi sylw i'r prosesau newid ar gyfer gwasanaethau ar sail copr drwy ddefnyddio rhwydwaith Openreach. Ym mis Chwefror 2012 roeddem wedi ymgynghori ar ddewisiadau i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr newid rhwng darparwyr llais sefydlog a band eang (a ddarperir dros rwydwaith mynediad copr Openreach).

4.15 Ar hyn o bryd rydym yn ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd gan y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Rydym hefyd wedi gwneud rhagor o waith a dadansoddi mewn rhai meysydd.

- 4.16 Rydym yn bwriadu cyhoeddi datganiad ynghylch y mater hwn yn ystod haf 2013. Yna byddwn yn ystyried yr angen am ddiwygio newid ar gyfer rhwydweithiau a sectorau eraill.

Ffioedd terfynu cynnar mewn contractau ar gyfer gwasanaethau cyfathrebu

- 4.17 Yn ystod 2012/13, roeddem wedi parhau â'n gwaith i orfodi'r Rheoliadau Telerau Annheg mewn Contractau Defnyddwyr yn y sector llais sefydlog a band eang dan y Rhaglen Gorfodi Ffioedd Ychwanegol. Roeddem wedi canolbwyntio'n benodol ar delerau sy'n ymwneud â ffioedd terfynu cynnar (ETCs).
- 4.18 Roeddem hefyd wedi cyhoeddi ein rhaglen monitro a gorfodi Amod Cyffredinol 9 ar 25 Ionawr 2012. Mae Amod Cyffredinol 9 yn rhoi'r gofyniad i gynnig contractau gydag isafswm tymor. Mae'r amod hwn yn cynnwys gofynion sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth, hyd contractau a'r amodau ar gyfer terfynu.
- 4.19 Rydym yn bwriadu parhau â'n gwaith yng nghyswllt Ffioedd Terfynu Cynnar mewn contractau defnyddwyr yn 2013/14. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â darparwyr perthnasol yn y sector llais sefydlog a band eang pan fo'n briodol. Ar y cyd, byddwn hefyd yn monitro cwynion defnyddwyr ynghylch ffioedd terfynu cynnar ym mhob sector cyfathrebu ac, yn ogystal ag ystyried materion a datblygiadau eraill yn y sectorau hyn, bydd yn ein helpu i nodi beth ddylai ein blaenoriaethau fod o dan y Rhaglen. Gall hyn gynnwys camau gorfodi yn erbyn darparwyr penodol, a bydd unrhyw benderfyniadau o'r fath yn cael eu cyhoeddi drwy'r Bwletin Gorfodaeth a Chystadleuaeth Defnyddwyr (CCEB).

Diben Strategol 2: Sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm

- 4.20 Mae Ofcom yn gyfrifol am sicrhau bod y sbectrwm electromagnetig yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau. Er nad yw'n ganlyniad i ddefnyddwyr ei hun, mae defnyddio sbectrwm yn y ffordd orau yn fewnbwn allweddol i ddarparu canlyniadau da i ddefnyddwyr ac i ddinasyddion o ran darparu gwasanaethau, cystadleuaeth, dewis ac argaeledd eang.
- 4.21 Ac ystyried gwerth posibl gwasanaethau sy'n cael eu galluogi gan adnoddau sbectrwm i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr, mae rheoli sbectrwm yn gryn gyfrifoldeb. Mae deall sut caiff sbectrwm ei ddefnyddio ac, os yw'n briodol, hwyluso newid defnydd i floc sbectrwm, yn bwysig i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr.

Sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm

- **Clirio sbectrwm yn amserol ym mandiau 800 MHz a 2.6 GHz er mwyn gallu rhoi dyfarniadau newydd, ar yr un pryd â lliniaru ar faterion cydfodolaeth**
- **Gweithredu'r strategaeth UHF er mwyn gallu rhyddhau 700 MHz o bosibl ar gyfer defnydd symudol wedi'i gysoni**
- **Cefnogi'r gwaith o ryddhau bandiau 2.3 GHz a 3.4GHz er mwyn bodloni'r galw am sbectrwm**

Clirio sbectrwm yn amserol ym mandiau 800 MHz a 2.6 GHz er mwyn gallu rhoi dyfarniadau newydd, ar yr un pryd â lliniaru ar faterion cydfodolaeth

- 4.22 Ar ôl yr arwerthiant ar y cyd ar gyfer 800 Mhz a 2.6 GHz, byddwn yn canolbwyntio ar gwblhau gweithgareddau clirio a lliniaru ymyrraeth. Bydd hyn yn golygu bod modd defnyddio'r sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz yn llawn.

- 4.23 Yng nghyswllt y band 2.6 GHz, byddwn yn parhau i gefnogi rhaglen adfer radar ar draws y Llywodraeth.
- 4.24 Yng nghyswllt y band 800 MHz:
- byddwn yn sicrhau cwblhau clirio sianel 61 a 62 er mwyn i DTT wagio'r band hwn yn gyfan gwbl. Pan fydd y gwaith peiriannu hwn yn cael ei wneud, bydd defnyddwyr yn cael gwybod ac yn cael cyfarwyddyd os oes angen ynghylch ail-diwnio eu setiau teledu neu flychau ar ben setiau teledu. Byddwn yn parhau i gysoni ac archwilio gwariant yn y rhaglen;
 - rhaid i'r rheini sy'n dal y trwyddedau 800 MHz o'r newydd atal neu liniaru ymyrraeth bosibl signalau 4G i DTT. Rydym yn gwneud hyn yn ddyletswydd yn y drwydded a byddwn yn monitro'r cydymffurfiad yn ofalus ac yn penderfynu ar unrhyw addasiadau i fesurau lliniaru yng ngoleuni profiad;
 - ar ôl gorffen clirio PMSE o sianel 69, byddwn yn cau'r cynllun grant, gan gynnwys cysoni, archwilio a chau contract y cynllun;
 - byddwn yn cefnogi defnyddwyr y gwasanaethau brys, sy'n gweithredu ar frig y band 800 MHz i gynnal asesiadau risg technegol o atebion posibl a fydd yn eu galluogi i reoli ymyrraeth bosibl i ddefnyddwyr dyfeisiau pellter agos (SRDs); a
 - byddwn yn parhau i ymgysylltu â gwneuthurwyr a grwpiau sy'n cynrychioli defnyddwyr SRDs, gan gynnwys larymau cymdeithasol, i'w galluogi i roi sylw i faterion ymyrraeth bosibl o ddarnau llaw LTE. Byddwn yn parhau i weithio gyda chyrrff safonau Ewrop i sicrhau bod safonau technegol wedi'u cysoni yn parhau i fod yn briodol.

Gweithredu'r strategaeth UHF er mwyn gallu rhyddhau 700 MHz o bosibl ar gyfer defnydd symudol wedi'i gysoni

- 4.25 Fel roeddem wedi'i amlinellu yn ein Datganiad Strategaeth UHF ym mis Tachwedd 2012, mae defnyddwyr yn dal i ofyn am fwy a mwy o gapasiti symudol, gyda thwf o 119% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Bydd polisi sbectrwm yn chwarae rhan bwysig o ran diwallu'r cynnydd hwn mewn galw ochr yn ochr â gwelliannau mewn technoleg a rhwydwaith fel symud i LTE, cynyddu nifer y celloedd a dadlwytho data di-wifr i rwydweithiau sefydlog. Ar yr un pryd, bydd sbectrwm UHF yn dal yn bwysig i DTT sy'n darparu mynediad rhad yn gyffredinol bron i gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus a dewis i ddefnyddwyr o ran gwasanaethau, offer derbyn a llwyfannau. Mae'r sbectrwm hwn hefyd yn bwysig i wasanaethau PMSE.
- 4.26 O'r herwydd, rydym wedi gosod ein strategaeth sbectrwm UHF i gefnogi'r broses ryngwladol a cheisio galluogi rhyddhau 700 MHz ar gyfer defnydd symudol wedi'i gysoni. Mae'r strategaeth hefyd yn ceisio sicrhau bod y llwyfan DTT, teledu lleol a gwasanaethau PMSE a gofod gwyn yn gallu defnyddio'r band sbectrwm 600 MHz gan dybio newid defnydd yn 700 MHz.
- 4.27 Er mwyn dechrau rhoi'r strategaeth hon ar waith byddwn yn cynnal ystod o weithgareddau i baratoi ar gyfer newid posibl yn y dyfodol o ran defnyddio'r band 700 MHz.
- ymgysylltu rhyngwladol ar gysoni gan gynnwys cynlluniau band i'r dyfodol ar gyfer 700 MHz a negodi cydlynu amledd sy'n sy'n ymwneud â dibenion DTT;

- archwilio sut a phryd gellir sicrhau newid defnydd mewn 700 MHz yn y dyfodol er mwyn gwasanaethu buddiannau defnyddwyr a dinasyddion orau;
- archwilio'r dewisiadau i leihau costau ac amhariad sy'n gysylltiedig ag unrhyw gynlluniau newydd yn y dyfodol ar gyfer sbectrwm UHF;
- gweithio gyda gweithredwyr aml-blecs i ystyried y newidiadau angenrheidiol o ran technoleg a rheoleiddio i ddiogelu manteision DTT;
- galluogi parhau i ddarparu PMSE a gwasanaethau teledu lleol nawr ac yn y dyfodol; a
- chefnogi gweithgareddau'r Llywodraeth sy'n ymwneud â phenderfyniadau yn y dyfodol ar ddyrannu sbectrwm ar gyfer y gwasanaethau brys.

4.28 Rydym yn bwriadu cyhoeddi Cais am Fewnbwn ar Weithredu Strategaeth UHF yn Ch1 2013/14.

Cefnogi'r gwaith o ryddhau bandiau 2.3 GHz a 3.4 GHz er mwyn bodloni'r galw am sbectrwm

4.29 Bydd cynlluniau'r Weinyddiaeth Amddiffyn i ryddhau oddeutu 200 MHz o sbectrwm yn y bandiau sbectrwm 2.3 GHz a 3.4 GHz yn gyfraniad sylweddol at argaeledd sbectrwm yn y dyfodol. O'r herwydd byddwn yn cynnal gweithredoedd penodol i gefnogi rhyddhau'r sbectrwm hwn, gan gynnwys:

- dadansoddiad technegol i ganfod sialensiau cydfodolaeth posibl gyda dibenion sifil presennol;
- datblygu dulliau gweithredu posibl i ddatrys materion cydfodolaeth;
- asesu'r effaith ar ddefnyddwyr sbectrwm y gallai fod angen eu clirio er mwyn hwyluso'r rhyddhau a chamau lliniaru posibl;
- diffinio amodau technegol ar gyfer rhyddhau sbectrwm a fyddai'n caniatáu ei ddefnyddio ar gyfer data symudol; a
- pharatoi'r rheoliadau angenrheidiol i ganiatáu rhyddhau'r bandiau hyn.

4.30 Cynigiodd y Weinyddiaeth Amddiffyn dri band amledd i ddechrau i'w rhyddhau o bosibl drwy rannu. Mae Ofcom yn rhoi cyngor technegol i'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar hyn o bryd ynghylch rhyddhau'r bandiau hyn. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i sefydlu pa sialensiau cydfodolaeth, os o gwbl, fyddai'n cael eu creu i ddefnyddwyr sifil y sbectrwm, a diffinio a fyddai modd lliniaru unrhyw faterion ymyrraeth, a sut. Bydd Ofcom yn ymgynghori â'r holl ddefnyddwyr perthnasol pan fo hynny'n briodol.

Diben Strategol 3: Hyrwyddo cyfleoedd i gyfranogi

4.31 Mae gwasanaethau cyfathrebu yn dal i dyfu, o ran eu hamlygrwydd a'u pwysigrwydd i ddefnyddwyr ac i ddinasyddion er mwyn galluogi defnyddwyr i gymryd rhan effeithiol mewn cymdeithas ehangach. Er mwyn cefnogi hyn mae gennym ffocws allweddol ar hyrwyddo cyfleoedd i gyfranogi – gan geisio sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn eang a cheisio lleihau'r rhwystrau sy'n atal defnyddwyr rhag eu mabwysiadu a'u defnyddio'n effeithiol.

Hyrwyddo cyfleoedd i gyfranogi

- Sicrhau bod y gwasanaeth post cyffredinol yn cael ei ddarparu
- Gweithio ar y cyd gyda'r Llywodraeth a'r diwydiant i hyrwyddo'r gwaith o ddarparu band eang cyflym iawn yn eang

Sicrhau bod y gwasanaeth post cyffredinol yn cael ei ddarparu

- 4.32 Yn ôl y ddyletswydd gwasanaeth cyffredinol mae'n rhaid i'r Post Brenhinol gasglu a dosbarthu llythyrau chwe diwrnod yr wythnos am bris fforddiadwy ac unffurf yn ddaearyddol i bob cyfeiriad yn y DU. Bellach, Ofcom sy'n rheoleiddio'r gwasanaethau post a'n prif ddyletswydd yw cyflawni ein swyddogaethau yng nghyswllt y post mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn sicrhau y darperir gwasanaeth post cyffredinol. Felly, mae sicrhau cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth post cyffredinol a'i ddarpariaeth effeithlon yn flaenoriaeth i Ofcom.
- 4.33 Heb newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio, mae perygl na fydd y Post Brenhinol yn gallu parhau i ddarparu gwasanaeth post cyffredinol i bob defnyddiwr ledled y DU. Rydym eisoes wedi cymryd nifer o gamau i gefnogi'r ddyletswydd hon. Rydym wedi rhoi mwy o ryddid prisio a gweithredol i'r Post Brenhinol ar y rhan fwyaf o'i gynnyrch, ond rydym wedi rhoi diogelwch rheoleiddio ar waith, fel cap diogelu ar stampiau Ail Ddosbarth a threfn monitro effeithiol. Rydym hefyd ar ganol adolygu anghenion defnyddwyr post. Roeddem wedi cyhoeddi'r adolygiad hwn o anghenion defnyddwyr⁹ ym mis Mawrth 2013.
- 4.34 Yn ystod 2013/14, byddwn yn bwrw ymlaen â'n dull gweithredu ar gyfer rheoleiddio'r post yn economaidd, drwy ymgymryd ag amrywiaeth o waith i sicrhau y parheir i ddarparu gwasanaeth post cyffredinol. Bydd hyn yn cynnwys:
- datblygu trefn ymhellach i fonitro perfformiad y Post Brenhinol yn ofalus, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddarparu gwasanaeth cyffredinol, cystadleuaeth o un pen i'r llall, effeithlonrwydd, proffidioldeb a phrisiau;
 - monitro ac ymchwil parhaus i fforddiadwyedd gwasanaethau post, yn enwedig yng nghyswllt defnyddwyr bregus yn prynu stampiau;
 - asesu ein dull gweithredu ar gyfer amddiffyn yn erbyn gwasgu elw o ran gwasanaethau mynediad;
 - asesu effaith unrhyw ddatblygiad ar ddarpariaeth y gwasanaeth cyffredinol o ran cystadleuaeth o un pen i'r llall; ac
 - asesu dulliau gweithredu posibl ar gyfer pennu lefelau effeithlonrwydd y Post Brenhinol.

Gweithio ar y cyd gyda'r Llywodraeth a'r diwydiant i hyrwyddo'r gwaith o ddarparu band eang cyflym iawn yn eang

- 4.35 Mae'r Llywodraeth wedi datgan ei nod o sicrhau y bydd gan y DU y rhwydweithiau band eang gorau yn Ewrop erbyn diwedd 2015, gyda 90% o eiddo â mynediad i fand eang cyflym a chyflymder o 2Mbit yr eiliad ar gael i bob cartref ledled y DU.
- 4.36 Mae'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi gosod targedau tebyg. Mae cyllid ychwanegol wedi cael ei sicrhau gan

⁹ <http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/review-of-user-needs/statement/>

Llywodraeth yr Alban ac awdurdodau lleol yn yr Alban i helpu i gyflwyno hyn. Yng Ngogledd Iwerddon, mae prosiect buddsoddi gwerth £52m, dan arweiniad yr Adran Menter, Masnach a Buddsoddi, wedi'i gwblhau eisoes, sydd wedi darparu band eang cyflym iawn ffibr i dros 95% o gartrefi. Yn yr un modd, nod Prosiect Band Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru yw darparu gwasanaethau 30Mb yr eiliad o leiaf i gartrefi a busnesau ledled Cymru.

- 4.37 Broadband Delivery UK (BDUK) sy'n gyfrifol yn yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon am ddyrannu'r £530m o arian cyhoeddus y mae'r Llywodraeth wedi'i ddarparu i gefnogi cyflawni ei nodau ar gyfer band eang cyflym iawn. Mae BDUK hefyd yn gyfrifol am sefydlu fframwaith caffael a fydd yn galluogi awdurdodau lleoli i redeg caffaeliadau band eang cyflym iawn yn effeithlon er mwyn rhoi sylw i anghenion lleol penodol.
- 4.38 Mae Ofcom wedi chwarae rhan weithredol drwy gynghori llywodraeth yn y meysydd hyn. Byddwn yn parhau i ddarparu ein harbenigedd a'n cyngor i helpu'r Llywodraeth a'r Gweinyddiaethau Datganoledig i gyflawni'u hamcanion. Byddwn hefyd yn parhau i gasglu a chyhoeddi data i helpu'r Llywodraeth i feincnodi seilwaith band eang y DU yn erbyn gweddill Ewrop drwy 'Gerdyn Sgorio y Gorau yn Ewrop'. Cyhoeddwyd y fersiwn gyntaf o'r cerdyn sgorio hwn ym mis Mawrth 2013¹⁰.

Diben Strategol 4: Diogelu defnyddwyr rhag niwed

- 4.39 Wrth i'r dirwedd cyfathrebu barhau i esblygu, mae mathau newydd o niwed posibl i ddefnyddwyr yn dal i ddod i'r fei. Ein dull gweithredu cyffredinol i ddiogelu defnyddwyr yw canolbwyntio ar y materion hynny sy'n achosi llawer o niwed i ddefnyddwyr a lle gallwn fynd i'r afael â'r mater. Mae llawer o'r gwaith hwn yn parhau ac yn disgyn i brif feysydd gwaith Ofcom fel yr amlinellir yn yr adran nesaf. Fodd bynnag, rydym wedi nodi dwy flaenoriaeth ar gyfer 2013/14.

Diogelu defnyddwyr rhag niwed

- Diwygio'r broses yn ymwneud â rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol i sicrhau tryloywder prisiau
- Diogelu defnyddwyr mewn nifer o feysydd blaenoriaeth, gan gynnwys galwadau mud a chodiadau mewn prisiau ar ganol contract

Diwygio'r broses yn ymwneud â rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol i sicrhau tryloywder prisiau

- 4.40 Ar gyfer 2013/14 ein blaenoriaeth fydd gweithredu unrhyw ddiwygiadau a wneir yn gynnar yn 2013 sy'n effeithio ar sut mae defnyddwyr yn prynu galwadau i rifau heb fod yn rhai daearyddol.
- 4.41 Rydym yn diffinio galwadau nad ydynt yn rhai daearyddol fel galwadau i rifau 03, 05, 070/076, 080, 0845, 0870, 083/4, 0871, 09, 116 ac 118. Bydd defnyddwyr yn defnyddio'r rhifau hyn i ffonio busnesau ac asiantaethau llywodraeth er mwyn cael gwybodaeth, talu am wasanaethau a phleidleisio ar raglenni radio a theledu. Yn 2010/11 roeddem wedi cynnig defnyddio dull gweithredu symlach ar gyfer darparu a rheoleiddio galwadau nad ydynt yn rhai daearyddol, gan gynnwys edrych ar ystodau rhifau symlach a ffioedd mwy safonol.
- 4.42 Roeddem wedi cyhoeddi cynnig manwl ar gyfer rheoleiddio ym mis Ebrill 2012 lle'r oeddem yn cynnig gwneud rhifau heb fod yn rhai daearyddol a'u prisiau yn fwy greddfodol, gyda rhaniadau sy'n fwy clir rhwng ystodau rhifau a symleiddio'r ffordd caiff

¹⁰ <http://stakeholders.ofcom.org.uk/market-data-research/other/telecoms-research/bbresearch/scorecard>

galwadau i rifau sy'n rhannu refeniw eu prisio, gan gynnwys 'dadfwndelu' costau. Roeddem hefyd wedi cynnig y dylid gallu ffonio rhifau Rhadffôn (080 a 116) am ddim o bob ffôn, yn ffonau sefydlog a symudol.

- 4.43 Byddwn yn parhau i weithio ar alwadau heb fod yn rhai daearyddol yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, gan gynnwys cyhoeddi datganiad terfynol a gweithredu unrhyw newidiadau rheoleiddio byddwn yn penderfynu eu gwneud.

Diogelu defnyddwyr mewn nifer o feysydd blaenoriaeth, gan gynnwys galwadau mud a chodiadau mewn prisiau ar ganol contract

- 4.44 Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar feysydd allweddol o niwed i ddefnyddwyr rydym wedi'u canfod drwy ein rhaglenni monitro a gorfodi a drwy'r data sy'n cyrraedd ein canolfan gyswllt, gan weithredu mewn ffordd effeithiol a chymesur, gan gynnwys ymchwiliadau pan fo angen. Mae'r meysydd gwaith ar gyfer 2013/14 fel a ganlyn, er byddwn hefyd yn gwneud gwaith heb ei gynllunio wrth i faterion newydd annisgwyl ddod i'r fei:

- galwadau mud – rhaglen waith, gan gynnwys gorfodi lle bo hynny'n briodol, i leihau'r niwed a achosir gan hyn a mesurau eraill i wella cydymffurfiad, yn seiliedig ac yn cael ei ategu gan ystod ehangach o gamau gweithredu i helpu i fynd i'r afael â galwadau a negeseuon niwsans yn gyffredinol. Fel y nodir yn ein cynllun gweithredu pum pwynt ar gyfer mynd i'r afael â galwadau niwsans, mae'r gwaith allweddol rydym yn ei wneud yn cynnwys rhagor o ymchwil i ddeall y prif bethau sy'n arwain at alwadau mud, gweithredu ar y cyd rhwng rheoleiddwyr (er enghraifft gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, y Weinyddiaeth Cyfiawnder, a'r Swyddfa Masnachu Teg) a gweithio gyda'r diwydiant i nodi ffyrdd o ganfod y cwmnïau sy'n gyfrifol am alwadau niwsans pan fyddant yn ceisio cuddio pwy ydynt;
- telerau contract safonol – edrych ar delerau 'hawl i amrywio'r contract', gan ganolbwyntio ar delerau amrywio pris yn benodol;
- ffioedd ychwanegol – sicrhau bod telerau contract yn deg, gan ganolbwyntio ar ffioedd terfynu cynnar ond gan ystyried telerau eraill y nodir eu bod yn annheg hefyd, fel sy'n briodol;
- biliau annisgwyl o uchel – parhau i fonitro biliau annisgwyl o uchel ac ymgysylltu â darparwyr fel bo angen, gan gynnwys ynghylch cydymffurfiad â'r Rheoliadau Crwydro;
- cam-werthu a slamio – rhaglen waith i fynd i'r afael â cham-werthu a slamio, gan gynnwys ymchwiliadau fel sy'n briodol a datrys yr hyn sy'n achosi trosglwyddo llinellau sefydlog mewn camgymeriad; a
- delio â chwynion – sicrhau cydymffurfiad â rheoliadau delio â chwynion.

Diben Strategol 5: Cynnal hyder cynulleidfaedd mewn cynnwys a ddarllidir

- 4.45 Wrth ystyried disgwyliadau defnyddwyr o sicrwydd ar safonau cynnwys a ddarllidir, byddwn yn parhau i ddatblygu a darparu ffyrdd effeithlon ac effeithlon a pharod ar gyfer y dyfodol o sicrhau hyder y gynulleidfa mewn cynnwys a ddarllidir.

Cynnal hyder cynulleidfaoedd mewn cynnwys a ddarllidir

- Targeddu trwyddedu a gorfodi i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael eu diogelu'n effeithiol
- Aildrwyddedu Sianeli 3, 4 a 5
- Datblygu dulliau gweithredu ar gyfer rheoleiddio cynnwys yn y dyfodol

Targeddu trwyddedu a gorfodi i sicrhau cynulleidfaoedd yn cael eu diogelu'n effeithiol

4.46 Er gwaethaf natur esblygol darlledu a gwasanaethau cynnwys, bydd angen parhau i sicrhau cynulleidfaoedd am safonau cynnwys ar wasanaethau traddodiadol. Er mwyn darparu'r sicrwydd parhaus hyn mewn ffordd effeithlon ac effeithiol, byddwn yn gweithio yn y flwyddyn nesaf i ddylunio a mabwysiadu dulliau newydd o dargeddu gweithgarwch gorfodi.

Aildrwyddedu Sianeli 3, 4 a 5

Sianeli 3 a 5

4.47 Byddwn yn sicrhau iechyd parhaus y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus drwy aildrwyddedu'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol (Sianeli 3 a 5) a Sianel 4.

4.48 Mae ITV plc, STV ac UTV yn dal y trwyddedau presennol ar gyfer gwasanaethau Sianel 3, a daw trwydded Sianel 5 i ben ddiwedd 2014. Yn unol â chyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol, bydd Ofcom yn ymgynghori ar newidiadau posibl i delerau'r trwyddedau, yn penderfynu ar y dyletswyddau ariannol ac yn rheoli'r broses adnewyddu. Byddwn hefyd yn rhoi sylw i'r materion y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn eu codi ag Ofcom, fel darparu newyddion yn y rhanbarth Border a phosiblwydd creu trwydded i Gymru. Y dyddiad cau i'r rhai sy'n dal trwydded i gyflwyno cais i adnewyddu oedd 15 Mawrth 2013 a chaiff y trwyddedau eu hadnewyddu yn yr haf.

Sianel 4

4.49 Mae'r drwydded gyfredol ar gyfer prif wasanaeth Sianel 4 yn rhedeg o 2004 hyd at ddiwedd 2014. Roedd Deddf yr Economi Ddigidol (2010) wedi addasu fframwaith rheoleiddio a chylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus Corfforaeth Channel 4.

4.50 Byddwn yn ystyried adnewyddu trwydded Sianel 4 a sut gellid ei diweddarau neu ei haddasu i sicrhau bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus priodol yn dal i gael ei ddarparu.

Datblygu dulliau gweithredu ar gyfer rheoleiddio cynnwys yn y dyfodol

4.51 Wrth i gynnwys gael ei ddsbarthu i nifer gynyddol o ddyfeisiau drwy nifer gynyddol o wasanaethau o nifer gynyddol o ffynonellau, gwelir newid yn y gofynion rheoleiddio ar gyfer sicrhau ecosystem cynnwys iach a chymysg.

4.52 Byddwn yn parhau i adolygu ein dull rheoleiddio ehangach yng nghyswllt rheoleiddio cynnwys i sicrhau ei fod yn dal yn addas i'r diben a'i fod yn dal i wasanaethu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr a'i fod yn glir i randdeiliaid.

4.53 Rydym yn gweld nifer o sialensiau yn y maes hwn. Bydd newidiadau mewn technoleg, gan gynnwys gwasanaethau IPTV i'r farchnad dorfol yn y DU, yn herio'r strwythurau rheoleiddio presennol, a gafodd eu cynllunio gan fwyaf ar gyfer byd

darlledu llinol. Byddwn yn ystyried sut y gallai dulliau rheoleiddio ar gyfer rheoleiddio cynnwys esblygu ymhellach i aros yn addas i'r diben ac yn gymesur.

Diben Strategol 6: Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a'i roi ar waith

- 4.54 Yn ogystal â'r pum diben strategol uchod, mae Ofcom yn dal i chwarae rhan drwy arwain neu gyfrannu at nifer o faterion polisi cyhoeddus ar gais y Senedd neu'r Llywodraeth. Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn parhau yn y dyfodol, pan fydd y Senedd yn dod o hyd i swyddogaeth wedi'i diffinio'n glir ar gyfer Ofcom.
- 4.55 Mae'r Llywodraeth wedi rhoi gwybod i ni ei bod yn bwriadu gofyn i'r Senedd, yn ystod y flwyddyn gyfredol, i'n rhyddhau ni o'n dyletswydd statudol i adolygu darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac adrodd ar hyn o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Rydym yn cadw'r bwriad hwn mewn cof wrth gwrs, a hefyd yn ystyried y byddai'n amhriodol i ni anwybyddu'r ddyletswydd a hithau yn dal i fod mewn grym. Mae gan Ofcom nifer o ddyletswyddau sy'n berthnasol i ddarlledu, ac rydym yn rhagweld y byddwn yn ymgymryd â rhaglen waith sy'n angenrheidiol i fodloni'r rhain yn ystod 2013/14, gan gynnwys cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus a chyfrannu at Adolygiad Cyfathrebu'r Llywodraeth. Bydd y rhaglen waith hon yn parhau yn unol â'r bwriad

Ein swyddogaeth mewn lluosogrwydd yn y cyfryngau

- 4.56 Yn ogystal â'r dyletswyddau sydd gennym yn barod yng nghyswllt lluosogrwydd yn y cyfryngau, caiff Ofcom ei grybwyll yn adroddiad Tachwedd 2012 y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Ustus Leveson *An Inquiry into the Culture, Practices and Ethics of the Press*. Bydd unrhyw weithgarwch yn y maes hwn yn cael ei arwain gan benderfyniadau'r Senedd.

I helpu i fesur yn erbyn y blaenoriaethau hyn, rydym wedi pennu canlyniadau interim a therfynol

- 4.57 Byddwn yn barnu llwyddiant ein gwaith i gyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer 2013/14 yn erbyn y canlyniadau cadarnhaol yr ydym yn ceisio'u sicrhau i ddinasyddion a defnyddwyr.
- 4.58 Rydym wedi gosod canlyniadau ar gyfer pob un o'n blaenoriaethau, fel y dangosir yn Ffigur 3 isod. Byddwn yn asesu ein cynnydd tuag at gyflawni'r rhain ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, yn Adroddiad Blynyddol Ofcom.
- 4.59 Rydym wedi rhannu ein canlyniadau yn ganlyniadau interim a therfynol:
- **Canlyniadau interim** – digwyddiadau yn y farchnad sy'n deillio o benderfyniad a gymerir gan Ofcom; er enghraifft galluogi trydydd partïon i gael mynediad at rwydwaith neu wasanaeth penodol. Mae'r rhain yn cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau terfynol.
 - **Canlyniadau terfynol** - mae'r rhain yn disgrifio'r buddion ehangach i ddinasyddion a defnyddwyr; er enghraifft, defnyddiwr yn gallu dewis rhwng amrywiaeth o gynigion adwerthu cystadleuol ac arloesol. Rydym yn bwriadu gwneud yr hyn y gellir ei wneud yn rhesymol i farnu ein llwyddiant o ran sicrhau canlyniadau terfynol, ar yr un pryd â chydabod y bydd datblygiadau yn y farchnad ehangach hefyd yn dylanwadu ar y canlyniadau hyn.

Ffigur 4: Canlyniadau a blaenoriaethau Cynllun Blynyddol 2013/14

	BLAENORIAETHAU STRATEGOL	CANLYNIADAU INTERIM	CANLYNIADAU TERFYNOL
Hybu cystadleuaeth effeithiol a dewis gwybodus	Sicrhau cystadleuaeth effeithiol a buddsoddiad effeithiol mewn band eang cyfredol a band eang cyflym iawn	Cwblhau set o adolygiadau marchnad ar gyfer llais sefydlog a band eang a mynediad lleol a, lle bo angen, cyflwyno atebion, gan gynnwys rheolaethau codi tâl newydd, yn y marchnadoedd hyn.	Cynnal arloesedd a chystadleuaeth wrth gyflenwi'r genhedlaeth gyfredol o fand eang a llais i ddefnyddwyr a chreu amodau a fydd yn fodd i'r farchnad gadw'r amodau cyflenwi ffafriol hyn wrth symud i fand eang cyflym iawn.
	Hyrwyddo dewis effeithiol ar gyfer defnyddwyr drwy sicrhau bod gwybodaeth glir a pherthnasol ar gael yn hwylus	Deall y meysydd lle nad yw'r wybodaeth a ddarperir yn fasnachol mewn marchnadoedd yn ddigon da o ran beth y mae angen i ddefnyddwyr ei wybod er mwyn bod yn rhan o'r farchnad ac, yn benodol, er mwyn gallu gwneud dewisiadau effeithiol	Mae defnyddwyr yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau yn y farchnad ar sail gwybodaeth glir a chyflawn. Mae'r wybodaeth hon ar gael yn hwylus, mae'n ddealladwy, yn wybodaeth y gellir ei diylsu a'i chymharu
	Datblygu a gweithredu polisiau a fydd yn gwella'r broses o symud yn hwylus rhwng darparwyr cyfathrebiadau	Sicrhau nad yw'r prosesau newid ar gyfer gwasanaethau ar rwydwaith mynediad copr Openreach yn arwain at rwystrau i newid ar gyfer defnyddwyr a niwed i'r broses gystadleuol	Gall defnyddwyr newid yn hawdd rhwng darparwyr yn ddidrafferth ac nid yw rwystrau i newid yn arwain at niweidio'r broses gystadleuol
Sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm	Clirio sbectrwm yn amserol er mwyn gallu rhoi dyfarniadau newydd, ar yr un pryd â lliniaru ar faterion cydfodolaeth	Sbectrwm a gafodd ei ryddhau drwy arwerthu wedi'i glirio a'r heriau ar gyfer cydfodoli wedi'u goresgyn	Sbectrwm ar gael ar gyfer cyflwyno gwasanaethau 4G
	Gweithredu'r strategaeth UHF er mwyn gallu rhyddhau band 700 MHz o bosibl ar gyfer defnydd symudol wedi'i gysoni	Rhoi gwybod i ddiwydiant y DU am y tebygolrwydd y bydd newid yn y dyfodol i'r defnydd o'r band 700 MHz i ddefnydd symudol	Sbectrwm wedi'i gysoni'n rhyngwladol yn cael ei ddarparu ar gyfer gwasanaethau band eang symudol ar 700MHz; gwasanaethau DTT yn parhau i fod ar gael yn eang i ddefnyddwyr
	Cefnogi'r gwaith o ryddhau bandiau 2.3GHz a 3.4GHz er mwyn bodloni'r galw am sbectrwm	Materion cydfodoli â defnyddwyr sifil wedi'u deall a'u datrys lle mae hynny'n bosibl. Amodau technegol wedi'u datblygu ar gyfer y sbectrwm sydd i'w ryddhau sy'n addas i'w ddefnydd ar gyfer gwasanaethau data symudol	Cynnydd yn y sbectrwm cyfan sydd ar gael a'i ddefnyddio i ateb y twf yn y galw am wasanaethau di-wifr
Hyrwyddo cyfleoedd i gyfranogi	Sicrhau bod y gwasanaeth post cyffredinol yn cael ei ddarparu	Ar sail tystiolaeth gadarn diffinio'r gwasanaeth post cyffredinol fel ei fod yn bodloni anghenion rhesymol defnyddwyr heddiw ac yn y dyfodol.	Gwasanaeth post cyffredinol sy'n gynaliadwy'n ariannol sy'n bodloni anghenion cwsmeriaid preswyl a busnes
	Gweithio ar y cyd gyda'r Llywodraeth a'r diwydiant i hyrwyddo'r gwaith o ddarparu band eang cyflym iawn yn eang	Parhau i ddatblygu cynlluniau sector preifat a sector cyhoeddus ar gyfer defnyddio band eang cyflym iawn	Defnyddwyr yn y 'Traean Terfynol' yn gallu manteisio ar fand eang cyflym iawn

	BLAENORIAETHAU STRATEGOL	CANLYNIADAU INTERIM	CANLYNIADAU TERFYNOL
Diogelu defnyddwyr rhag niwed	Diwygio'r broses yn ymwneud â rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol i sicrhau tryloywder prisiau	Yn amodol ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, rhoi'r argymhellion ynghylch gwella tryloywder prisiau a geir yn ein datganiad terfynol ar waith	Gwelliannau mesuradwy i ddealltwriaeth defnyddwyr o brisiau galwadau nad ydynt yn rhai daearyddol a gostyngiad yn y nifer sy'n cael sioc o weid biliau mwy na'r disgwyl
	Diogelu defnyddwyr mewn nifer o feysydd blaenoriaeth, gan gynnwys galwadau mud a chodiadau mewn prisiau ar ganol contract	Llunio strategaeth orfodi ar gyfer pob mater	Gwelliannau mesuradwy yn lefelau niwed i ddefnyddwyr a achosir gan bob mater, a all gynnwys mesurau megis niferoedd cwynion, barn y cyhoedd a'r cyfryngau, ac ymchwil bwrpasol arall.
Cynnal hyder cynulleidfaoedd yn y cynnwys a ddarlledir	Targedu trwyddedu a gorfodaeth i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn dal i gael eu diogelu	Trwyddedau'n parhau i gael eu rhoi i bobl addas; cydymffurfio'n parhau i gael ei fonitro'n effeithiol; ymyriadau'n cael eu teilwra a'u seilio ar y risg bosibl o niwed a achosir gan sectorau, gwasanaethau neu gynnwys penodol; a chynulleidfaoedd yn cael eu diogelu'n briodol	Fframwaith sicrwydd a diogelwch sy'n arwain at lefelau uchel o hyder ymysg defnyddwyr ac sy'n darparu lefelau uchel o ddiogelwch rhag niwed, gyda ffocws arbennig ar ddiogelu plant ac ar gynnwys sy'n achosi'r risg fwyaf o niwed i gynulleidfaoedd
	Aidrwyddedu Sianeli 3, 4 a 5	Trwyddedau newydd ar gyfer Sianeli 3, 4 a 5 a fydd yn eu galluogi i dddarparu a chyflwyno'r dibenion DGC (PSB) yn llawn	Darpariaeth DGC o safon uchel gan ddarlledwyr masnachol i'r 2020au a Chorfforaeth Channel 4 gyda dyletswyddau ar gyfer bodloni anghenion cynulleidfa amrywiol yn y DU gydol cyfnod trwyddedu newydd
	Datblygu dulliau ar gyfer rheoleiddio cynnwys clyweledol (AV) yn y dyfodol	Datblygu opsiynau ar gyfer fframwaith newydd a fydd yn ymgorffori lefelau sylfaenol priodol o ddiogelwch a sicrwydd i gynulleidfaoedd ar draws darllediadau teledu llinol a Fideo ar Alwad (VoD)	Fframwaith effeithiol ar gyfer rheoleiddio AV o fewn cwrmpas y ddeddfwriaeth bresennol a chyfrannu at ddatllywodraeth/ Ewrop fel y bo'n briodol ar ddeddfu yn y dyfodol ar gynnwys clyweledol.
Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddi-finnir gan y Senedd, a'i roi ar waith	<i>Dim prosiectau blaenoriaeth</i>		


Adran 5

Meysydd gwaith eraill ar gyfer 2013/14


5.1 Yn ogystal â'n blaenoriaethau, rydym yn bwriadu gweithio ar nifer o feysydd pwysig eraill yn ystod 2013/14.

Ffigur 5: Meysydd gwaith Ofcom ar gyfer 2013/14

Meysydd Gwaith Cynllun Blynyddol 2013/14



Diben Strategol 1: Hybu cystadleuaeth effeithiol a dewis gwybodus



Sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau teledu drwy dalu

- 5.2 Ym mis Mawrth 2010 roeddem wedi cyhoeddi datganiad yn nodi ein penderfyniad y dylid cynnig Sky Sports 1 a 2 (safonol a manylder uwch) i adwerthwyr ar lwyfannau ar wahân i Sky, am brisiau a bennir gan Ofcom ar gyfer y gwasanaeth manylder safonol. Apeliodd Sky a phartïon eraill yn erbyn y penderfyniad hwn i'r Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth. Ym mis Awst 2012, cytunodd y Tribiwnlys fod gennym ni'r pŵer i roi datrysiad o'r fath, gan ddod i gasgliad gwahanol ynghylch ymddygiad hanesyddol Sky ar y sail bod Sky yn gweithredu fel cyfanwerthwr bodlon.
- 5.3 Roeddem hefyd wedi gwneud cyfeiriad ymchwiliad marchnad i'r Comisiwn Cystadleuaeth ym mis Awst 2010 dan Ddeddf Menter 2002 ynghylch ffilmiau teledu drwy dalu, yn enwedig tanysgriadiad gwasanaethau fideo ar alwad. Ym mis Awst 2012, cwblhaodd y Comisiwn Cystadleuaeth ei ymchwiliad, gan ganfod fod gan Sky bŵer marchnad mewn marchnad adwerthu teledu drwy dalu ehangach a bod diffyg cystadleuaeth effeithiol yn y farchnad honno, er iddo ddod i'r casgliad nad oedd effaith niweidiol ar gystadleuaeth yng nghyswllt ffilmiau teledu drwy dalu yn benodol.
- 5.4 Mae gennym ddyletswydd i sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y sector hwn ac rydym yn nodi, yn wahanol i'r Tribiwnlys, fod y Comisiwn Cystadleuaeth wedi dod i'r casgliad bod cystadleuaeth mewn teledu drwy dalu yn aneffeithiol. Yn ystod 2013/14, byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau yn y farchnad, yng ngoleuni negodiadau masnachol ar gyfer cynnwys a dyfodiad llwyfannau a gwasanaethau newydd, i sefydlu a fydd angen cymryd camau pellach i hybu cystadleuaeth ar gyfer defnyddwyr. Byddwn yn cefnogi'r Llywodraeth i ddatblygu unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol yn y maes hwn.

Adolygu'r fframwaith ar gyfer adrodd ariannol rheoleiddiol mewn telegyfathrebu

- 5.5 Rydym yn adolygu'r trefniadau ar gyfer adrodd ariannol rheoleiddiol. Ar hyn o bryd mae BT a KCOM yn cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad ariannol gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio. Maent hefyd yn darparu gwybodaeth i Ofcom yn breifat. Rydym yn adolygu'r gofynion ar ddarparwyr telegyfathrebu i ddarparu'r wybodaeth hon, ac roeddem wedi cyhoeddi ein hymgyngoriad cyntaf ym mis Medi 2012.
- 5.6 Rydym yn bwriadu ymgynghori ymhellach yn 2013. Byddwn yn gwneud cynigion ar gyfer gwybodaeth ariannol rheoleiddiol berthnasol a dibynadwy sy'n gwasanaethu anghenion rhanddeiliaid. Ar ôl hyn, byddwn yn gweithredu ein fframwaith newydd, a allai ofyn am newidiadau i'r systemau a'r prosesau adrodd ariannol rheoleiddiol cyfredol o Ch4 2013/14 ymlaen.

Cyfrannu at gysondeb rheoleiddio cyfathrebu yn Ewrop drwy BEREC ac ERGP

- 5.7 Mae'r Corff ar gyfer Rheoleiddwyr Cyfathrebu Electronig Ewrop (BEREC) yn fwrdd sy'n cynnwys penaethiaid y 27 awdurdod rheoleiddio cenedlaethol, gan gynnwys Ofcom. Ei brif swyddogaethau yw cyfrannu at hybu cystadleuaeth mewn marchnadoedd cyfathrebu Ewropeaidd a sicrhau bod fframwaith rheoleiddio'r UE yn cael ei weithredu'n gyson. Mae BEREC hefyd yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu cynigion polisi Ewropeaidd. Rhaid i'r Comisiwn Ewropeaidd ofyn am fewnbwn BEREC ar Argymhellion a Phenderfyniadau drafft, a gall Senedd Ewrop a Chyngor y Gweinidogion ofyn am gyngor BEREC.

- 5.8 Mae Ofcom yn aelod gweithredol o BEREC, ac mae'n cymryd rhan yn ei holl weithgorau. Drwy weithio'n agos gyda'n cymheiriaid Ewropeaidd, rydym yn ceisio gwneud cyfraniad sylweddol at raglen waith ac allbwn y corff. Yn ystod 2013/14 byddwn yn parhau i wneud hyn, gan ganolbwyntio'n benodol ar y materion canlynol:
- darparu barn ar yr Argymhelliad sydd gan y Comisiwn ar y gweill ar fethodoleg costio a pheidio â gwahaniaethu;
 - cyfrannu at weithredu Rheoliadau Crwydro yn llwyddiannus, drwy ddatblygu cyfarwyddyd a monitro datblygiadau yn y farchnad;
 - defnyddio atebion rheoleiddio'n gyson drwy ein cyfraniad at y broses adolygu'r farchnad Erthygl 7 a drwy ddatblygu rhaglen monitro, ar ôl yr adolygiad a'r diweddariad yn 2012 o safle cyffredin BEREC i ystyried datblygiadau technolegol; a
 - dadansoddiad pellach o'r materion sy'n ymwneud a rheoli traffig a'r Rhyngwrwyd agored, a fydd yn cynnwys darparu barn ar yr Argymhelliad sydd gan y Comisiwn ar y gweill ar niwtraliaeth net.
- 5.9 Yn yr un modd, mae Ofcom yn aelod gweithredol o'r Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Post (ERGP), a'i brif nod yw cynghori'r Comisiwn ar yr arfer gorau mewn perthynas â rheoleiddio gwasanaethau post. Mae Ofcom yn ymwneud â'r pum gweithgor ac yn 2013 bydd hefyd yn cadeirio ffrwd gwaith newydd gan yr ERGP i asesu datblygu cystadleuaeth o un pen i'r llall ar gyfer llythyrau a pheccynau.
- Mae pum is-grŵp yr ERGP yn cynnwys: dyrannu cost; costau net USO (gan gynnwys eithriad TAW); boddhad defnyddwyr a monitro'r farchnad; cystadleuaeth o un pen i'r llall; a rheoleiddio mynediad a chynnyrch a gwasanaethau ar draws ffiniau.
 - Mae'r prif bethau i'w cyflawni yn 2013 yn cynnwys cyhoeddi safle cyffredin ar reolau dyrannu cost a dadansoddi: gweithgareddau lle mae costau cyffredin yn sylweddol; dilysu traffig post; a chost cyfalaf. Bydd yr ERGP hefyd yn cyhoeddi cyfres o adroddiadau, gan gynnwys ar ansawdd dangosyddion gwasanaeth, yr arfer gorau mewn meysydd defnyddwyr allweddol a chystadleuaeth o un pen i'r llall.

Cynnal Asesiad o'r Effaith ar y Farchnad i gefnogi Profion Gwerth Cyhoeddus gan Ymddiriedolaeth y BBC

- 5.10 Pan fydd ar y BBC eisiau newid Darlledu Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU a gweithgareddau nad ydynt yn rhan o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, rhaid i Ymddiriedolaeth y BBC graffu ar y cynigion mewn sefyllfaoedd lle mae'n credu bod y newidiadau hynny'n sylweddol. Mae'n gwneud hyn drwy ddefnyddio Prawf Gwerth Cyhoeddus, gan ymgorffori Asesiad Gwerth Cyhoeddus ac Asesiad o'r Effaith ar y Farchnad.
- 5.11 Mae Ofcom yn gyfrifol am ddarparu cyngor i Ymddiriedolaeth y BBC yn ei hasesiad o'r arwyddocâd, a chynnal yr Asesiadau o'r Effaith ar y Farchnad. Rydym yn gweithio'n agos gydag Ymddiriedolaeth y BBC er mwyn deall goblygiadau penderfyniadau Ymddiriedolaeth y BBC i gystadleuaeth, ac yn sgil hynny'r budd i gwsmeriaid o ran dewis ac arloesedd.

- 5.12 Byddwn yn parhau i gyflawni'r swyddogaeth hon, gyda gweithgarwch penodol yn dibynnu ar newidiadau i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn y DU a gweithgareddau heb fod yn ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Monitro dulliau gwaelodol o reoli traffig

- 5.13 Yn y cyhoeddiad *Ofcom's Approach to Net Neutrality* ym mis Tachwedd 2011, roeddem wedi gosod ein sefyllfa o ran niwtraliaeth net a rheoli traffig.
- 5.14 Yn benodol, roeddem wedi rhoi ein safbwyntiau ar lefel yr wybodaeth i ddefnyddwyr mae arnom eisiau gweld y farchnad yn ei darparu, a'r amgylchiadau posibl a allai gyfiawnhau datblygu ansawdd gwasanaeth sylfaenol. Fel y nodir yn ein blaenoriaethau, rydym wedi ymrwymo i gynnal rhagor o ymchwil ar wybodaeth i ddefnyddwyr. Drwy wneud hyn rydym yn ymwybodol o'r cydbwysedd rhwng y manteision i ddefnyddwyr o gael y math iawn o wybodaeth ar ffurf sydd wedi'i thargedu ac yn glir, a'r risgiau o orlwytho defnyddwyr â gormod o wybodaeth, gan arwain at ddryswch i ddefnyddwyr. Byddwn hefyd yn cynnal ymchwil ar ddarparu mynediad rhyngwyd 'ymdrechion gorau'¹¹.
- 5.15 I gefnogi ein gwaith ehangach ar reoli traffig, byddwn yn parhau i fonitro dulliau rheoli traffig go iawn fel rhan o'n dyletswydd i adrodd ar seilwaith. Roeddem wedi diweddarau ein sefyllfa yn ein datganiad Adroddiad Seilwaith a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2012. Yn y ddogfen hon, roeddem wedi ystyried a ydy arferion rheoli traffig yn cyd-fynd â'r egwyddorion rydym wedi'u gosod allan yn ein datganiad Niwtraliaeth Net. Dyma ein barn ni o'r sefyllfa ar hyn o bryd:
- Ar hyn o bryd nid oes dim pryderon sylweddol yng nghyswllt yr arferion rheoli traffig sy'n cael eu defnyddio gan ddarparwyr gwasanaeth rhyngwyd.
 - Mae rhai gweithredwyr symudol yn rhwystro rhai gwasanaethau, fel gwasanaeth VoIP Skype. Mae hyn yn peri pryder, ond ar hyn o bryd rydym o'r farn y dylai cystadleuaeth rhwng gweithredwyr fod yn ffordd effeithiol o fynd i'r afael â'r broblem, ar yr amod bod defnyddwyr yn cael gwybod am yr arferion hyn. Nid ydym wedi canfod unrhyw arferion rheoli traffig sy'n cael eu defnyddio gan weithredwyr symudol ac nad ydynt yn cael eu hadrodd yn gyhoeddus.
- 5.16 Caiff ein diweddariad adroddiad seilwaith nesaf ei gyhoeddi ddiwedd 2013.

Diben Strategol 2: Sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm

Sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm

- Datblygu rhaglen waith sbectrwm sy'n edrych tua'r dyfodol
- Symud ymlaen i ryddhau sbectrwm
- Galluogi defnyddio dyfeisiau gofod gwyn yn y DU
- Cynnal adolygiad strategol o ddefnyddio sbectrwm gan y sector Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig (PMSE)
- Rheoli sbectrwm ac ymyrraeth ar gyfer Gemau'r Gymanwlad Glasgow 2014
- Ymgynghori ar a gweithredu polisiau prisiau sbectrwm, gan gynnwys ffioedd trwydded blynyddol ar gyfer 900 a 1800 MHz ac AIP mewn darlledu

¹¹ Mae ymdrechion gorau'n disgrifio'r gwasanaethau rhyngwyd nad ydynt yn cael eu llesteirio na'u rhwystro ond mae modd eu rheoli yn ystod cyfnodau o dagfeydd

Datblygu rhaglen waith sbectrwm sy'n edrych tua'r dyfodol

- 5.17 Rydym wedi cwblhau nifer o'r tasgau mawr sydd wedi'u nodi yn yr Adolygiad Fframwaith Sbectrwm: Cynllun Gweithredu, gan gynnwys yr arwerthiant 4G a rhyddhau sbectrwm symudol. O'r herwydd, rydym yn credu ei bod yn amser iawn i adnewyddu ein strategaeth rheoli sbectrwm a chynllunio rhaglen waith newydd sy'n edrych i'r dyfodol i'n helpu ni i weithredu'r strategaeth hon sydd wedi'i hadnewyddu. Rydym yn bwriadu ymgynghori ar hyn yn Ch2 2013/14.
- 5.18 Bydd y strategaeth yn edrych ar:
- ein dull gweithredu strategol cyffredinol ar gyfer rheoli sbectrwm;
 - y farchnad yn y dyfodol, technoleg a newidiadau rheoleiddio a allai effeithio ar ddefnyddio sbectrwm dros y pump i ddeng mlynedd nesaf;
 - y sialensiau penodol y gallem ni, fel rheoleiddiwr, eu hwynebu yn y dyfodol; a'r
 - gweithgareddau blaenoriaeth y bydd yn rhaid i ni eu gwneud i ddiwallu'r sialensiau hyn.
- 5.19 Roedd yr *Adolygiad Fframwaith Sbectrwm* o 2005 yn rhoi pwyslais canolog ar swyddogaeth mecanweithiau'r farchnad i wthio newid o ran defnyddio sbectrwm. Er ein bod yn dal i ffafrio i newidiadau mewn defnyddio sbectrwm gael eu gyrru gan y farchnad, pan fo'n bosibl, mae gennym ddealltwriaeth well o'r amgylchiadau lle mae camau rheoleiddio'n chwarae rhan sylweddol sy'n ychwanegu gwerth at y broses hon, ar sail saith mlynedd o brofiad o wneud hyn ers cyhoeddi'r Adolygiad Fframwaith Sbectrwm. Bydd y gwersi rydym wedi'u dysgu er 2005 yn cael eu hymgorffori yn ein dull gweithredu strategol ar gyfer rheoli sbectrwm.
- 5.20 Ar ôl adnewyddu'r strategaeth hon rydym yn disgwyl adnabod yr angen am strategaethau rheoli sbectrwm penodol ar gyfer rhai sectorau allweddol. Yn benodol, rydym yn disgwyl nodi'r angen am strategaeth data symudol i arwain y cymysgedd iawn o sbectrwm yn y dyfodol.
- 5.21 Fel rhan o'r strategaeth data symudol hon, ac yn ogystal â'n gwaith i baratoi ar gyfer newid posibl mewn defnydd o'r band 700 MHz ar gyfer symudol, byddwn yn adolygu goblygiadau'r twf parhaus yn y galw am ddata symudol ar gyfer bandiau sbectrwm eraill. Rydym yn disgwyl ymgynghori ar hyn yn Ch3 2013/14.
- 5.22 Ein hamcan fydd gosod map tymor hwy ar gyfer darparu sbectrwm i ddata symudol er mwyn diwallu'r cynnydd mewn galw gan ddefnyddwyr am wasanaethau di-wifr. Yn benodol byddwn yn ystyried swyddogaeth:
- sbectrwm wedi'i drwyddedu ar gyfer y rhwydweithiau symudol craidd yn ogystal â'r gofynion sbectrwm cysylltiedig a'r rhaglenni i gefnogi symudol am-yn-ôl a rhwydweithiau wedi'u rhwydo; a
 - defnydd wedi'i eithrio o drwydded.
- 5.23 Yn ogystal â'r gwaith hwn, ac yn dilyn ein *Hadolygiad Sbectrwm*¹², rydym yn adolygu'r dull gweithredu trwyddedu ysgafn presennol wedi'i gydlynu eu hunain ar

¹² Roedd ein Hadolygiad Sbectrwm yn ystyried rheoli'r sbectrwm sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gan ddolenni pwynt i bwynt sefydlog yn y DU

gyfer y bandiau 71-76 GHz a 81-86 GHz fel rhan o'n strategaeth i gefnogi data symudol. Mae'r prosiect hwn ar y gweill nawr ac mae'n flaenoriaeth allweddol yr ydym yn gwneud llawer o ymdrech ar ei gyfer.

- 5.24 Ar hyn o bryd, rydym yn defnyddio dull gweithredu trwyddedu wedi'i gydlynu eu hunain ar gyfer y bandiau hyn. Mae'r brys i fynd i'r afael â hyn yn deillio o'r disgwyliad y bydd rhwydweithiau 4G yn cael eu defnyddio mewn sbectrwm newydd ar 800 MHz a 2.6 GHz dros y flwyddyn nesaf ac arwydd cryf gan randdeiliaid bod gan y bandiau 71-76 GHz a 81-86 GHz ran allweddol i'w chwarae i ddarparu'r gydran am-yn-ôl ar gyfer y rhwydweithiau hyn.
- 5.25 Er bod ein dull gweithredu presennol yn galluogi defnyddio'r sbectrwm hwn ar gyfer dolenni pwynt i bwynt gan gynnwys symudol am-yn-ôl, ceir canfyddiad ymysg rhai rhanddeiliaid nad yw'r dull wedi'i gydlynu eu hunain ar 71-76 GHz a 81-86 GHz yn cynnig y sicrwydd sydd ei angen ar gyfer y rhaglenni a ddefnyddir i gefnogi rhwydweithiau 4G.
- 5.26 Ffocws ein gwaith, felly, yw datblygu a gweithredu dull rheoleiddio i roi'r hyder iawn i randdeiliaid er mwyn eu galluogi i fuddsoddi mewn atebion symudol am-yn-ôl yn y bandiau 71-76 GHz a 81-86 GHz. Wrth adolygu'r sbectrwm hwn, mae ystyriaethau pwysig yn cynnwys cydnabod yr ystod o ddefnydd sy'n bodoli ar gyfer y sbectrwm hwn, er enghraifft y rheini y mae'r dull gweithredu wedi'i gydlynu eu hunain eisoes yn diwallu'r anghenion. Rydym yn bwriadu ymgynghori ar ein dull gweithredu yn y dyfodol ar gyfer band E yn Ch1 2013/14.

Symud ymlaen i ryddhau sbectrwm

Sbectrwm 600 MHz

- 5.27 Yng ngoleuni casgliadau ein gwaith strategaeth UHF byddwn yn blaenoriaethu rhyddhau'r band 600 MHz ar gyfer ei ddefnyddio yn yr interim gan aml-blecsau DTT ychwanegol, gwasanaethau a rhaglenni PMSE ar sail technoleg dyfeisiau gofod gwyn. Er mwyn galluogi hyn byddwn yn symud ymlaen i ddyfarnu un aml-blecs DTT neu fwy (drwy ddefnyddio safonau DVB-T2 a MPEG-4) yn y band 600 MHz.
- 5.28 O gofio y gallai fod angen y sbectrwm hwn i hwyluso rhyddhau 700 MHz mor gynnar â 2018, ac felly efallai fod y ffenestr ar gyfer defnydd interim yn weddol gyfyngedig, byddwn yn edrych ar ddyfarnu'r sbectrwm cyn gynted ag sy'n ymarferol. Rydym hefyd yn bwriadu gwneud rhagor o waith ar yr union drefniadau ar gyfer cydfodolaeth offer PMSE a dyfeisiau gofod gwyn yn y band 600 MHz.
- 5.29 Rydym yn bwriadu dyfarnu'r band 600 MHz, yn yr interim, yn addas ar gyfer teledu HD. Roeddem wedi cyhoeddi ymgynghoriad ym mis Chwefror 2013, ac wedi gofyn i randdeiliaid roi gwybod i ni beth oedd eu bwriad o ran gwneud cais am y drwydded. Yna rydym yn disgwyl bod mewn sefyllfa i ryddhau'r sbectrwm erbyn Ch1-3 2013/4 yn dibynnu ar yr ymatebion a dderbyniwn.

Sbectrwm 872-876 MHz / 917-921 MHz

- 5.30 Roedd Ofcom wedi cyhoeddi'r diweddariad diwethaf ar y sbectrwm 872-876 MHz / 917-921 MHz ym mis Chwefror 2010. Yng ngoleuni gwaith CEPT ar ddefnyddio'r band hwn ar ôl ein diweddariad 2010, roeddem wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori arall yn Ch4 2012/2013 a fydd yn cyfrannu at gwmpas ac amseru ein gwaith ar y band hwn yn 2013/14 gyda datganiad yn Ch1.

- 5.31 Yn benodol, bydd yn cynnwys ystyried a ddylai'r DU geisio rhyddhau'r band hwn yn unol â'r CEPT; er enghraifft er mwyn galluogi defnyddio dyfeisiau pellter agos, pŵer isel sydd wedi'u heithrio o drwydded. Bydd hefyd yn ystyried posibilrwydd rhyddhau 870-872 / 915-917 MHz ynghyd â 872-876 MHz / 917-921 MHz os a phan gaiff rheoli hyn ei drosglwyddo i Ofcom gan y llywodraeth. Felly, byddwn yn diweddarau ein cynllun gwaith i adlewyrchu'r cynigion a nodir yn y ddogfen honno.

Galluogi defnyddio dyfeisiau gofod gwyn yn y DU

- 5.32 Mae'r term 'sbectrwm gofod gwyn' yn cyfeirio at amleddau *nad* ydynt yn cael eu defnyddio gan y rheini sydd eisoes yn dal trwyddedau drwy'r amser neu ym mhob lleoliad. Gall dyfais gofod gwyn ddefnyddio'r amleddau hynny ar yr amod bod modd rheoli'r risg o ymyrraeth niweidiol i'r defnyddwyr trwyddedig o'r sbectrwm yn briodol.
- 5.33 Mae dyfeisiau di-wifr sy'n ymwybodol o leoliad, gyda chymorth cronfeydd data sy'n darparu gwybodaeth am argaeledd gofod gwyn gan ystyried y defnydd trwyddedig sydd eisoes yn bodoli, yn cynnig mynediad manteisgar i fandiau amleddau *nad* ydynt yn cael eu defnyddio o amgylch y DU ar gyfer gwasanaethau arloesol a defnyddiol. Rydym yn credu bod gweithrediad o'r fath gyda chymorth cronfa ddata hefyd yn allwedd sy'n galluogi technoleg ar gyfer rhannu sbectrwm yn effeithlon ac yn ddeinamig mewn amrywiaeth o fandiau amledd.
- 5.34 Rydym wedi bod yn ymchwilio i ragolygon mynediad i ofod gwyn yn y band teledu UHF¹³ (a elwir hefyd yn ofod gwyn teledu) er 2007. Ein cam diweddaraf at alluogi defnyddio gofod gwyn teledu oedd ein hymgyngoriad ar ofynion dyfeisiau gofod gwyn ym mis Tachwedd 2012¹⁴. Bydd ein gwaith ym maes gofod gwyn teledu yn parhau yn y meysydd canlynol:
- **Gofynion dyfeisiau ac eithriadau trwyddedau** - yn dilyn ein hadolygiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, rydym yn disgwyl cyflwyno datganiad ynghylch manylion dyfeisiau.
 - **Cydfodolaeth â gwasanaethau sydd eisoes mewn lle** - rydym wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid i drafod y paramedrau technegol ar gyfer cydfodolaeth rhwng dyfeisiau gofod gwyn a'r defnyddwyr sydd eisoes mewn lle. Rydym yn bwriadu cyhoeddi dogfen ymgynghori i grynhoi ein cynigion ynghylch cydfodolaeth dyfeisiau gofod gwyn gyda gwasanaethau sydd eisoes mewn lle sy'n gweithredu yn y band teledu UHF (ac yn union wrth ei ymyl). Yn yr ymgynghoriad hwnnw byddwn hefyd yn cynnwys swyddogaeth arfaethedig Ofcom o ran mesur argaeledd gofod gwyn teledu ar draws y DU yn amodol ar y meini prawf cydfodolaeth a fydd wedi cael eu diffinio.
 - **Gofynion a manyleb cronfa ddata gofod gwyn** – ar hyn o bryd rydym yn dal i ddatblygu trefniadau contract i'w cynnig ar gyfer cronfeydd data gofod gwyn. Ar ôl i'r gwaith fynd rhagddo ddigon, byddwn yn cyhoeddi'r trefniadau arfaethedig ac yn trafod y rhain â rhanddeiliaid. Bydd hyn yn rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer y peilot.
 - **Peilot** - rydyn yn disgwyl cynnal peilot o weithrediad dyfeisiau mewn gofod gwyn teledu eleni. Bydd y peilot yn gweithredu'r fframwaith a gyflwynwyd yn ein hymgyngoriad ym mis Tachwedd 2012, ond bydd rhai agweddau o'r fframwaith hwn yn cael eu haddasu er mwyn cyflymu'r broses o sefydlu'r peilot. Amcan y

¹³ Mae'r band teledu UHF yn ymestyn o 470 MHz i 790 MHz

¹⁴ <http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/whitespaces/>

peilot yw hwyluso'r defnydd a phrofi gallu o un pen i'r llall, dyfeisiau, cronfeydd data gofod gwyn a gwasanaethau Ofcom i ryngweithredu. Bydd y peilot ar agor i gyfranogwyr diwydiant, yn benodol darparwyr cronfeydd data gofod gwyn posibl a sefydliadau sy'n fodlon defnyddio dyfeisiau. Rydym yn disgwyl cyhoeddi ein cynlluniau yn y maes hwn yn ystod y misoedd nesaf. Yn ystod C1 2013/14, byddwn yn cynnal digwyddiad i drafod ein agwedd tuag at y peilot i brofi gweithrediad dyfeisiadau mewn gofod gwyn a'n map ar gyfer gweithrediad llawn dyfeisiadau mewn gofod gwyn gyda rhanddeiliaid.

- **Modd uwch** - mae ein gwaith ar ofod gwyn teledu hyd yn hyn wedi bod ar alluogi'r fframwaith *gwaelodlin* ar gyfer gweithredu dyfeisiau gofod gwyn. Mae'r fframwaith *gwaelodlin* yn cynnwys adrodd paramedrau dyfais yn awtomatig o ddyfeisiau gofod gwyn i gronfeydd data gofod gwyn. Fodd bynnag, mae ein trafodaethau â rhanddeiliaid wedi nodi y gallai dyfeisiau gofod gwyn sefydlog elwa o argaeledd teledu gofod gwyn *uwch*, os bydd defnyddwyr y ddyfais yn rhoi gwybod am baramedrau penodol sy'n ymwneud â'r dyfeisiau hyn a bod cyfrif am hynny gan y cronfeydd data gofod gwyn. Rydym yn bwriadu dychwelyd at y *modd uwch* ar ôl terfynu manylion y *modd gwaelodlin*.

5.35 Ar sail ein harsylwadau presennol ar weithgarwch y diwydiant a safoni, ar hyn o bryd rydym yn amcangyfrif y gallai dyfeisiau gofod gwyn fod mewn sefyllfa i gael eu defnyddio o 2014 ymlaen.

Cynnal adolygiad strategol o ddefnyddio sbectrwm yn y dyfodol gan y sector Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig (PMSE)

5.36 Rydym yn bwriadu dechrau adolygiad o ofynion sbectrwm ac argaeledd ar gyfer y sector PMSE. Mae hyn yn cydnabod y cynnydd parhaus mewn defnydd PMSE wedi'i drwyddedu, ynghyd ag effaith gostyngiadau mewn mynediad sydd ar gael i sbectrwm ar gyfer y sector. Byddwn hefyd yn ystyried y ffordd o reoli sbectrwm PMSE, gan nodi bod cynigion ar gyfer rheoli band PMSE wedi cael eu gohirio yn 2010 yng ngoleuni ein hangen i roi sylw ac adnoddau i'r gwaith paratoi ar gyfer y Gemau Olympaidd. Rydym yn bwriadu cyhoeddi Cais am Fewnbwn yn Ch3 2013/4.

Rheoli sbectrwm ac ymyrraeth ar gyfer Gemau'r Gymanwlad Glasgow 2014

5.37 Cynhelir Glasgow 2014 rhwng 23 Gorffennaf a 3 Awst 2014. Bydd yn digwydd mewn nifer o leoliadau ar draws yr Alban, ond gan fwyaf byddant yn Glasgow a'r ardal gyfagos. Mae Ofcom yn gyfrifol am drefnu cynllun sbectrwm llawn ar gyfer Glasgow 2014, gan drefnu'r holl drwyddedau mewn da bryd i gefnogi'r cynllun a sicrhau bod gwasanaethau di-wifr yn rhydd rhag ymyrraeth niweidiol.

5.38 Mae'r cyfrifoldebau hyn yn deillio o ddwy warant a roddwyd gan Lywodraeth y DU, sydd wedi'u sicrhau'n ariannol gan Lywodraeth yr Alban, i Ffederasiwn Gemau'r Gymanwlad i gefnogi cynnig Glasgow i gynnal Gemau'r Gymanwlad. Mae'r rhain yn gwarantu y bydd y sbectrwm a fydd yn ofynnol ar gyfer Glasgow 2014 yn cael ei ddyrannu a hepgor y ffioedd y byddai'n rhaid eu talu fel arall am y sbectrwm hwnnw gan ddefnyddwyr penodol.

5.39 Ym mis Gorffennaf 2012 cyhoeddodd Ofcom ymgynghoriad ar gynllunio sbectrwm radio sy'n rhoi ein cynigion ar gyfer darparu sbectrwm ar gyfer cyfathrebu di-wifr yng Ngemau'r Gymanwlad. Yn yr un modd â gyda Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 Llundain, ein cyfraniad ni at lwyddiant y digwyddiad fydd sicrhau bod y sbectrwm hwnnw'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol, gyda chyn lleied â phosibl o darfu'n digwydd i ddefnyddwyr.

- 5.40 Yn 2013/14 byddwn yn ymgynghori ar gynllun sbectrwm drafft a sut rydym yn cynnig sicrhau'r sbectrwm sydd ei angen er mwyn cynnal y Gemau'n llwyddiannus.

Ymgynghori ar a gweithredu polisïau prisio sbectrwm, gan gynnwys ffioedd trwydded blynyddol ar gyfer 900 a 1800 MHz ac AIP mewn darlledu

Diwygio'r ffioedd trwydded blynyddol (ALF) ar gyfer y sbectrwm 900 MHz a 1800 MHz

- 5.41 Ym mis Rhagfyr 2010 rhoddodd y Llywodraeth Gyfarwyddyd i Ofcom, diben penodol hynny oedd sicrhau rhyddhau sbectrwm ychwanegol i'w ddefnyddio gan ddarparwyr gwasanaethau band eang symudol y genhedlaeth nesaf.
- 5.42 Fel rhan o'r Cyfarwyddyd hwn cawsom ein cyfarwyddo hefyd i ddiwygio'r ffioedd trwydded blynyddol sy'n daladwy ar gyfer sbectrwm 900 MHz a 1800 MHz i adlewyrchu gwerth llawn y farchnad gan roi sylw penodol i'r symiau sy'n cael eu cynnig am drwyddedau yn yr arwerthiant 800 MHz a 2.6 GHz.
- 5.43 Yn ein hymgyngoriadau ar y dyfarniad cyfun roeddem wedi ymgynghori ynghylch y fethodoleg i osod y ffioedd hyn. Byddwn yn ymgynghori ynghylch y ffioedd diwygiedig ar gyfer y sbectrwm hwn ar ôl cwblhau'r dyfarniad cyfun. Ar hyn o bryd rydym yn disgwyl cyhoeddi'r ymgynghoriad hwnnw yn Ch2 2013/14.

Prisio anogaeth weinyddol mewn darlledu

- 5.44 Roeddem wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar bolisi a dewisiadau gweithredu ar gyfer prisio anogaeth weinyddol¹⁵ mewn darlledu ym mis Mawrth 2013, a byddwn yn cyhoeddi datganiad yn Ch2 2013/14.

Adolygu rhai ffioedd trwydded sbectrwm ar sail cyfraniad at gostau

- 5.45 Rydym yn bwriadu ymgynghori ar rai newidiadau i ffioedd trwydded sbectrwm, sy'n cael eu gosod drwy gyfeirio at ein costau, yn Ch1/2 2013/14. Bydd datganiad a strwythur ffioedd diwygiedig yn dilyn yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Diben Strategol 3: Hyrwyddo cyfleoedd i gyfranogi

Hyrwyddo cyfleoedd i gyfranogi

- Sicrhau bod digon o wasanaethau'n cael eu darparu i ddefnyddwyr â nam ar eu clyw
- Parhau i hyrwyddo buddsoddiad a fyddai'n mynd i'r afael â manau di-gyswllt ffonau symudol
- Cynnal rhagor o waith ymchwil i effaith argaeledd seilwaith cyfathrebu ar ardaloedd daearyddol

Sicrhau bod digon o wasanaethau'n cael eu darparu i ddefnyddwyr â nam ar eu clyw

- 5.46 Mae'r Gyfarwydddeb Gwasanaeth Cyffredinol Ewropeaidd yn galluogi Awdurdodau Rheoleiddio Cenedlaethol i bennu gofynion sydd i'w diwallu gan ddarparwyr i sicrhau bod defnyddwyr anabl yn gallu defnyddio gwasanaethau cyfathrebu electronig sy'n cyfateb i'r rheini sy'n cael eu mwynhau gan y rhan fwyaf o ddefnyddwyr.
- 5.47 Dan y Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, mae'n rhaid i Ofcom ystyried anghenion pobl hŷn ac anabl, ac mae'r Gorchymyn Gwasanaeth Cyffredinol (a bennir gan y

¹⁵ <http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/aip13/>

Llywodraeth) yn mynnu ein bod yn sicrhau y darperir un gwasanaeth cyfnewid testun neu fwy. Mae Amod Cyffredinol 15.3 yn mynnu bod darparwyr cyfathrebu yn rhoi mynediad i'w cwsmeriaid at wasanaeth cyfnewid sydd wedi'i gymeradwyo gan Ofcom. Ar hyn o bryd, yr unig wasanaeth cyfnewid sydd wedi cael ei gymeradwyo gan Ofcom yw'r gwasanaeth cyfnewid testun a ddarperir gan BT.

- 5.48 Mae gwasanaethau cyfnewid yn galluogi pobl sydd â nam ar eu clyw a/neu leferydd i gyfathrebu â phobl eraill drwy ddefnyddio offer ffôn neu ffôn testun. Dan y system bresennol, mae cynorthwydd cyfnewid yn gweithredu fel cyfryngwr i drosti lleferydd i destun ac fel arall i'r ddau barti.
- 5.49 Rydym wedi cynnal adolygiad o wasanaethau cyfnewid i ystyried yr achos rheoleiddio dros gyflwyno gwasanaethau cyfnewid newydd neu well, yng ngoleuni newidiadau mewn gofynion defnyddwyr a datblygiadau technolegol ers cyflwyno'r gwasanaeth dros 30 mlynedd yn ôl. Ym mis Hydref 2012 roeddem wedi cyhoeddi ein datganiad, yn dilyn ein hymgyngoriadau ym mis Mai 2012 a mis Gorffennaf 2011 i wella gwasanaethau cyfathrebu i bobl sydd â nam ar eu clyw a/neu leferydd.
- 5.50 Mae ein penderfyniad yn golygu ei bod yn rhaid i holl ddarparwyr llinellau sefydlog a symudol yn y DU roi mynediad i'w cwsmeriaid at wasanaeth 'cyfnewid testun' cenhedlaeth nesaf, sydd wedi cael ei gymeradwyo gan Ofcom erbyn 18 Ebrill 2014. Bydd y gwasanaeth newydd yn cynnig gwelliannau sylweddol, gan gynnwys:
- lleferydd dwyffordd cyfochrog, sy'n defnyddio cysylltiad rhyngwyrdd i ganiatáu i ddefnyddwyr gamu i mewn, yn hytrach na gorfod aros tan ddiwedd neges. Mae sgwrsiau'n llifo'n gynt o lawer ac yn fwy naturiol o'r herwydd; ac
 - ystod ehangach o offer ar gyfer defnyddio'r gwasanaeth, gan gynnwys cyfnewid testun sy'n haws ei ddefnyddio ar ffonau symudol.
- 5.51 Yn ogystal â gorfodi'r gwelliannau hyn mewn cyfnewid testun, bydd Ofcom yn gweithio gyda'r diwydiant a chynrychiolwyr anabledd i edrych ar effaith technoleg adnabod llais ac ar gywirdeb a chyflymder gwasanaethau cyfnewid ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.
- 5.52 Ar ben hynny, rydym yn cydnabod arwyddocâd posibl gwasanaeth cyfnewid fideo ar gyfer defnyddwyr iaith Arwyddion Prydain, yn enwedig y rheini sy'n ei chael hi'n anodd defnyddio iaith ysgrifenedig. Mae Ofcom yn gweithio gyda'r Llywodraeth, diwydiant a grwpiau anabledd i hybu darparwyr cyfathrebu, sefydliadau a busnesau i ddarparu gwasanaethau cyfnewid fideo yn wirfoddol. Rydym hefyd yn parhau i adolygu a yw gofynion eraill yn Amod Cyffredinol 15 yn sicrhau mynediad cyfatebol i wasanaethau mewn ffordd briodol.

Parhau i hyrwyddo buddsoddiad a fyddai'n mynd i'r afael â manau di-gyswllt ffonau symudol

- 5.53 Mae gan Ofcom raglen waith hir sy'n edrych ar ddarpariaeth symudol yn y DU. Yn ogystal â'n gwaith i gefnogi'r Llywodraeth i gyflawni'r Prosiect Seilwaith Symudol (MIP) sy'n ceisio gwella darpariaeth symudol, rydym wedi cynyddu'r dyletswyddau darpariaeth ar weithredwyr 3G a byddwn yn mynnu bod un o'r rheini sy'n dal trwydded 4G 800 MHz yn darparu o leiaf 98% o ddarpariaeth dan do ar draws y DU (o leiaf 95% ym mhob gwlad) erbyn diwedd 2017.
- 5.54 Rydym hefyd yn monitro datblygiadau'r farchnad yn ofalus fel ymrwymadau i wella darpariaeth. Mae'n bosibl i'r rhain leihau graddfa manau di-gyswllt symudol. Yn

ddiweddar, roeddem wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein rhaglen waith ehangach yn Adroddiad Profiad y Defnyddiwr 2012¹⁶.

- 5.55 Fodd bynnag, mae'r datblygiadau hyn yn dal i esblygu ac mae'n rhy gynnar dweud pa mor effeithiol fyddant. Felly mae ein gwaith parhaus yn canolbwyntio ar ddeall eu heffaith ar ddefnyddwyr. Er enghraifft, ar hyn o bryd rydym yn gwneud rhagor o ymchwil i ganfyddiadau defnyddwyr a busnesau bach o dderbyniad symudol a byddwn yn parhau i wneud hynny, yn barhaus.
- 5.56 Nid ydym wedi diystyru camau pellach yn y dyfodol os bydd problem fawr yn bodoli, ond rydym yn credu y dylem ond gwneud hynny ar ôl i ni ddeall yn well effaith yr holl ddatblygiadau presennol.

Cynnal rhagor o waith ymchwil i effaith argaeledd seilwaith cyfathrebu ar ardaloedd daearyddol

- 5.57 Yn 2013/14, byddwn yn cynnal rhagor o waith ymchwil i effaith argaeledd seilwaith cyfathrebu ar ardaloedd daearyddol. Bydd yr ymchwil hwn yn cael ei ddefnyddio gyda chasgliadau ein gwaith ar argaeledd gwasanaethau cyfathrebu yn y gwledydd (Daearyddiaeth Economaidd) y byddwn yn eu cyhoeddi cyn hir. Roedd yr ymchwil presennol hwn yn canolbwyntio ar ardaloedd gwledig a dwysedd is; bydd ein gwaith dilynol yn ategu hyn drwy ganolbwyntio ar ardaloedd dwysedd uwch, gan gynnwys dinasoedd a threfi.
- 5.58 Bydd gwaith ymchwil yn y maes hwn yn helpu Ofcom i ddeall anghenion cyfathrebu ardaloedd daearyddol yn well. Bydd yn ein helpu i ddeall newidiadau mewn ardaloedd yn y DU: eu cynnydd mewn amrywiaeth cymdeithasol a'r newidiadau mewn gofynion sydd nawr yn cael eu rhoi ar y seilwaith cyfathrebu ar gyfer darparu gwasanaethau. Bydd hyn yn ein helpu i ddatblygu a gweithredu polisïau yn y dyfodol.

Diben Strategol 4: Diogelu defnyddwyr rhag niwed

**Diogelu defnyddwyr
rhag niwed**

- Chwarae rhan weithredol yn UKCCIS a chyfrannu at ddadleuon Ewropeaidd mewn perthynas ag amddiffyn pobl ifanc dan ddeunaw
- Cefnogi cynlluniau'r diwydiant a Llywodraeth i wella lefelau ymddiriedaeth defnyddwyr mewn gwasanaethau rhyngwryd

Chwarae rhan weithredol yn UKCCIS a chyfrannu at ddadleuon Ewropeaidd mewn perthynas ag amddiffyn pobl ifanc dan ddeunaw

- 5.59 Byddwn yn parhau i chwarae rhan weithredol i gefnogi Cyngor Diogelwch Rhyngwryd Plant Llywodraeth y DU (UKCCIS). Rydym hefyd yn gallu cyfrannu at waith UKCCIS drwy ein hymchwil marchnad i ymwybyddiaeth o gyfryngau ar-lein a'u defnyddio, yn enwedig drwy ein hadroddiadau llythrennedd yn y cyfryngau. Ar ben hynny, byddwn yn cefnogi'r llywodraeth a'r diwydiant yn eu hymdrechion i sicrhau trefn hunan-reoleiddio effeithiol mewn perthynas â diogelwch plant ar-lein. Yn olaf, byddwn yn parhau i gyfrannu at ddadleuon Ewropeaidd ynghylch amddiffyn pobl ifanc dan ddeunaw oed fel sy'n briodol.

¹⁶ <http://stakeholders.ofcom.org.uk/market-data-research/market-data/consumer-experience-reports/consumer-experience/>

Cefnogi cynlluniau'r diwydiant a Llywodraeth i wella lefelau ymddiriedaeth defnyddwyr mewn gwasanaethau rhyngwryd

- 5.60 Yn draddodiadol mae Ofcom wedi cefnogi mesurau'r diwydiant i wella ymddiriedaeth defnyddwyr wrth ymgysylltu â'r rhyngwryd, gan ymyrryd yn uniongyrchol pan roedd hi'n amlwg bod rhwystrau sylweddol yn atal atebion wedi'u harwain gan y diwydiant. Mae enghreifftiau'n cynnwys ein gwaith ar gyflymder band eang a'n cefnogaeth ar gyfer ystod o weithgareddau'r Swyddfa Hysbysebion Rhyngwryd i wella dealltwriaeth defnyddwyr pan fydd eu data'n cael ei ddefnyddio i gefnogi hysbysebu ar-lein wedi'i dargedu.
- 5.61 Mae'r twf parhaus mewn marchnadoedd hysbysebu a chynnwys ar-lein yn dibynnu'n rhannol ar gynnal a chadw amgylchedd diogel ac yr ymddiriedir ynddo ar gyfer data defnyddwyr. Byddwn yn monitro datblygiad marchnadoedd data ar-lein a'u swyddogaeth i gefnogi buddsoddi mewn cynnwys. Wrth wneud hyn, byddwn yn ystyried buddiannau defnyddwyr a rhanddeiliaid craidd wedi'u rheoleiddio yn natblygiad teg a thryloyw marchnadoedd o'r fath.
- 5.62 Bydd Ofcom yn parhau i weithio'n agos gyda rheoleiddwyr partner, megis Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a PhonePay Plus, i sicrhau bod defnyddwyr yn parhau i fwynhau'r manteision sydd ar gael drwy'r rhyngwryd.
- 5.63 Yn benodol, byddwn yn parhau i fod yn weithgar o ran sicrhau'r cydbwysedd iawn rhwng ariannu gwasanaethau newydd rhag ecsbloetio gwybodaeth defnyddwyr a sicrhau lefelau effeithiol o ddiogelu defnyddwyr.
- 5.64 Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid er mwyn deall y cyfleoedd posibl gwell a gyflwynir gan Estyniadau Diogelwch DNS ar gyfer gwella lefelau diogelwch i ddefnyddwyr sy'n ymwneud ag e-fasnach. I'r perwyl hwn byddwn yn edrych ar weithio'n agos gyda Nominet a darparu cymorth ar gyfer mentrau i gyflwyno'r gwasanaeth yn ehangach. Yn yr un modd, byddwn yn parhau i gefnogi cynlluniau'r diwydiant i fynd i'r afael â drwgwedd a risgiau eraill i hyder defnyddwyr yn y maes hwn.

Diben Strategol 5: Cynnal hyder cynulleidfaedd mewn cynnwys a ddarlledir

Cynnal hyder
cynulleidfaedd mewn
cynnwys a ddarlledir

- Trwyddedu gwasanaethau teledu a radio yn y DU gan gynnwys rownd arall o drwyddedu radio cymunedol a ffocws parhaus ar orfodi effeithiol
- Trwyddedu gwasanaethau teledu lleol newydd

Trwyddedu gwasanaethau teledu a radio yn y DU, gan gynnwys rownd arall o drwyddedu radio cymunedol a ffocws parhaus ar orfodi effeithiol

- 5.65 Bydd Ofcom yn parhau i drwyddedu gwasanaethau teledu a radio a ddaw dan awdurdodaeth y DU, i ddarparu ystod eang o wasanaethau darlledu i ddefnyddwyr. Yn ystod 2013/14 bydd hyn yn cynnwys trydedd rownd barhaus trwyddedu radio cymunedol; byddwn yn asesu ceisiadau o Ogledd Iwerddon (a ninnau eisoes wedi cwblhau'r broses ar gyfer Cymru a'r Alban yn gynnar yn 2012/13), gogledd ddwyrain Lloegr, gogledd orllewin Lloegr, Swydd Efrog, Canolbarth Lloegr a dwyrain Lloegr a de ddwyrain Lloegr. Rhoddir trwyddedau am bum mlynedd a gofynnir i wasanaethau ddarparu budd cymdeithasol i'r cymunedau perthnasol.

- 5.66 Ddiwedd mis Tachwedd 2012, roedd dros 200 o orsafoedd radio cymunedol ar yr awyr, yn darparu budd cymunedol i oddeutu 12.5 miliwn o bobl ledled y DU. Drwy gydol 2013/14 mae Ofcom yn bwriadu parhau i drwyddedu gwasanaethau radio cymunedol pan fydd amledd addas ar gael a phan fydd ceisiadau'n diwallu'r gofynion a nodir mewn deddfwriaeth.
- 5.67 Byddwn hefyd yn parhau i weithredu dull cadarn a thrwyadl yng nghyswllt materion cydymffurfio, gan flaenoriaethu achosion lle mae'r risg o niwed i gynulleidfaoedd a dinasyddion yn uwch.

Trwyddedu gwasanaethau teledu lleol newydd

- 5.68 Ar ôl rhoi pwerau a dyletswyddau newydd a roddwyd i Ofcom yn 2012 i drwyddedu teledu lleol, rydym wedi dechrau dyfarnu'r trwyddedu teledu lleol newydd cyntaf (L-DTPS).
- 5.69 Rydym bellach wedi cwblhau'r cam cyntaf hwn o drwyddedu teledu lleol - mae hyn yn cynnwys 21 trwydded gwasanaeth lleol ac un drwydded aml-blecs ar gyfer rhwydwaith trawsyrru. Yn 2013/14 byddwn yn dyfarnu'r trwyddedau hyn ac yn gweithio gyda'r rheini sy'n dal y trwyddedau i ddarparu eu gwasanaethau. Byddwn hefyd yn ystyried hysbysebu rhagor o drwyddedau gwasanaeth lleol.

Diben Strategol 6: Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a'i roi ar waith

Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a'i roi ar waith

- Cyfrannu at Adolygiad Cyfathrebu'r Llywodraeth
- Cefnogi rhaglen radio digidol y Llywodraeth
- Cynnal adolygiad o gynlluniau dadreoleiddio a symleiddio

Cyfrannu at Adolygiad Cyfathrebu'r Llywodraeth

- 5.70 Ym mis Mai 2011 cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon lythyr agored yn gofyn ystod eang o gwestiynau am y sector cyfathrebu. Roedd yr ymatebion i hyn, a gwaith arall sydd wedi cael ei wneud ers hynny, wedi arwain at gyfres o seminarau yn lle cyhoeddi papur gwyrdd. Bydd allbwn y seminarau hyn yn gyfraniad mawr at bapur gwyn.
- 5.71 Er nad yw'n sicr pryd y cyhoeddir papur gwyn o'r fath, byddwn yn parhau i ymateb fel sy'n briodol i geisiadau'r Llywodraeth am gyngor yn ystod 2013/14 wrth iddi ddatblygu polisi yn y maes hwn. Byddwn yn cyfrannu at y ddatl hon, gan ddefnyddio ein profiad o reoleiddio'r sector cyfathrebu ar yr un pryd â cheisio hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr.

Cefnogi rhaglen radio digidol y Llywodraeth

- 5.72 Bydd Ofcom hefyd yn parhau i gefnogi Cynllun Gweithredu Radio Digidol y Llywodraeth gan weithio gyda'r llywodraeth, darlledwyr, Digital Radio UK ac Arqiva. Fel y nodir yn y cynllun, byddwn yn parhau i arwain y gwaith cynllunio sbectrwm a darpariaeth yn ystod 2013/14, gan gynnwys ystyried posibilidadau ar gyfer defnyddio'r sbectrwm MW yn y dyfodol ac unrhyw sbectrwm FM gwag.

Cynnal adolygiad o gynlluniau dadreoleiddio a symleiddio

- 5.73 Mae'n bwysig ein bod bob amser yn ceisio lleihau a symleiddio rheoleiddio ble bynnag y bo hynny'n briodol. Mae hyn yn rhywbeth rydym yn ei gymryd o ddifrif ac, yng ngoleuni ymatebion defnyddiol gan randdeiliaid i'n Cynllun Blynyddol Drafft ynghylch rhai achosion penodol, bydd Ofcom yn adolygu meysydd allweddol rheoleiddio cyfredol yn 2013/14 er mwyn asesu potensial mesurau dadreoleiddio a symleiddio lle mae'n pwerau yn caniatáu i ni wneud gwelliannau.
- 5.74 Hefyd, bydd Ofcom yn parhau i gyfrannu at unrhyw ddadleuon polisi cyhoeddus ehangach sy'n cael eu harwain gan y Llywodraeth ynghylch dadreoleiddio a symleiddio yn y sector cyfathrebu. Mae hyn yn hynod bwysig oherwydd mae llawer iawn o'r rheoleiddio'n deillio'n uniongyrchol o ddyletswyddau statudol penodol.


Adran 6

Gwaith rhaglenni a gwasanaethau i randdeiliaid

Mae Ofcom yn darparu nifer o wasanaethau hanfodol ar gyfer defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill

6.1 Mae gennym ystod eang o gyfrifoldebau rydym yn eu cyflawni drwy gynnal prosiectau mewn meysydd penodol. Mae ein gwaith rhaglenni yn bwysig ar gyfer cyflawni ein blaenoriaethau, meysydd gwaith eraill a gwasanaethau i ddinasyddion, defnyddwyr a rhanddeiliaid.

Ffigur 6: Gwaith rhaglenni parhaus Ofcom



Ymgysylltu â'r gwledydd

6.2 Mae ein dyletswyddau'n adlewyrchu ein cyfrifoldebau tuag at ddefnyddwyr a dinasyddion ar draws y DU. Yn benodol, rhaid inni ystyried buddiannau pobl yn ardaloedd gwahanol y DU, cymunedau ethnig gwahanol y DU a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.

6.3 Byddwn yn parhau i hybu buddiannau pedair gwlad y DU mewn nifer o ffyrdd yn ystod 2013/14:

- drwy ein gwaith yn y meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn Adran 4, yn benodol:
 - cwblhau'r trefniadau i hwyluso defnyddio'r sbectrwm sydd newydd gael ei werthu mewn arwerthiant ar 800 MHz a 2.6 GHz ar gyfer cyflwyno rhwydweithiau 4G;
 - sicrhau bod y gwasanaeth post cyffredinol yn cael ei ddarparu; a
 - gweithio ar y cyd â'r Llywodraeth a'r diwydiant i hybu bod band eang cyflym iawn ar gael yn eang.
- drwy ein gwaith yn y meysydd eraill a nodwyd yn Adran 5, yn benodol:
 - trwyddedu gwasanaethau teledu lleol newydd a chynnal rownd arall o drwyddedu radio cymunedol;
 - datblygu ein gwaith ymchwil Daearyddiaeth Economaidd drwy gynnal gwaith ymchwil ategol mewn ardaloedd dwysedd uwch, gan gynnwys dinasoedd a threfi; a
 - thrwy ein hymgysylltiad â sefydliadau datganoledig a rhanddeiliaid eraill.

6.4 Yng Ngogledd Iwerddon, byddwn yn:

- darparu cyngor rheoleiddio priodol i Weithrediaeth Gogledd Iwerddon, y Cynulliad a Llywodraeth leol i helpu i gefnogi darparu band eang symudol a gwasanaethau cyfathrebu eraill ar draws Gogledd Iwerddon;
- asesu darpariaeth gwasanaethau darlledu Gwyddeleg a Gaeleg Ulster;
- parhau i asesu effaith gwasanaethau cyfathrebu ar draws y ffin ar ddefnyddwyr a defnyddwyr busnes; a
- rhedeg y Fforwm Rhanddeiliaid Telegyfathrebu, er mwyn caniatáu i ddarparwyr telegyfathrebu fynd i'r afael â materion sydd o fudd i bawb.

6.5 Yn yr Alban, byddwn yn:

- cysylltu â Llywodraeth yr Alban a rhanddeiliaid eraill ynghylch y paratodau ar gyfer Gemau'r Gymanwlad Glasgow 2014;
- parhau i fesur faint sy'n defnyddio band eang yn Glasgow a'r ardal gyfagos;
- ceisio cyfrannu at drafodaethau parhaus am ddarlledu a materion sy'n ymwneud â chysylltedd gan gynnwys Cynllun *Scotland's Digital Future* Llywodraeth yr Alban; a
- chyfrannu fel y bo'n briodol at drafodaethau mwy cyffredinol am y sector cyfathrebu a rheoleiddio'r sector hwnnw.

6.6 Yng Nghymru, byddwn yn:

- ystyried yn benodol materion sy'n ymwneud â lluosogrwydd mewn darlledu ac yn y cyfryngau argraffu yng Nghymru fel sy'n briodol drwy ein dyletswydd lluosogrwydd yn y cyfryngau, drwy broffion budd cyhoeddus perthnasol neu drwy unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol rydym yn eu cael;
- darparu cyngor rheoleiddio a thechnegol i Lywodraeth Cymru i gefnogi ei hymrwymiaadau polisi Cymru Ddigidol, yn enwedig y Cynllun Cefnogi Band Eang a Phrosiect Band Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru;
- sicrhau bod anghenion Cymru yn cael eu hystyried mewn unrhyw waith rydym yn ei wneud ar fudo a thechnoleg radio DAB; a
- hybu gwerthuso dulliau arloesi newydd a'u potensial i ddarparu atebion amgen i faterion cysylltedd mynediad y genhedlaeth nesaf ac LTE hysbys yng Nghymru a hwyluso cynnal profion a threialon yng Nghymru pan fo'n bosibl.

6.7 Yn ogystal â'r gwaith rhaglenni a ddangosir uchod, rydym hefyd yn darparu nifer o wasanaethau hanfodol i randdeiliaid a defnyddwyr er mwyn cyflawni ein dyletswyddau yn rhinwedd ein swyddogaeth fel rheoleiddiwr y sector cyfathrebu.

Mynd i'r afael ag anghenion defnyddwyr busnes

- 6.8 Yn yr un modd â'n hymgysylltiad â'r gwledydd, mae anghenion defnyddwyr busnes yn rhan gyson o'n gwaith. Rydym yn gwerthfawrogi bod yr anghenion hyn yn gallu bod yn wahanol i anghenion defnyddwyr preswyl a'u bod yn debygol o ofyn am ddull rheoleiddio gwahanol.
- 6.9 Mewn marchnad cyfathrebu sy'n newid yn gyflym, mae arnom eisiau sicrhau bod gwasanaethau ar gael i gefnogi anghenion busnesau, yn fach ac yn fawr. Mae arnom hefyd eisiau sicrhau bod gan ddarparwyr cyfathrebu'r hyn sydd ei angen arnynt er mwyn darparu gwasanaethau i'r busnesau hynny.
- 6.10 Ym mis Mehefin 2012 fel rhan o'n hadolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes roeddem wedi cyhoeddi cynigion ymgynghori yn datgan sut rydym yn bwriadu rheoleiddio'r farchnad ar gyfer llinellau ar les. Caiff llinellau ar les eu defnyddio i ddarparu cysylltedd data i fentrau a sefydliadau sector cyhoeddus yn ogystal â darparwyr band eang sefydlog a symudol. Byddwn yn dod â'r adolygiad hwn i ben erbyn diwedd mis Ebrill 2013.
- 6.11 Mae ein cynigion wedi cael eu dylunio i hybu cystadleuaeth mewn darparu llinellau ar les a'r gwasanaethau sy'n dibynnu arnynt (e.e. cysylltedd band eang, symudol) a byddant yn effeithio ar argaeledd, dewis, pris, ansawdd a gwerth am arian y gwasanaethau hyn ledled y DU.
- 6.12 Ar hyn o bryd, rydym yn cynnal gwaith ymchwil wedi'i dargedu er mwyn deall yn well beth yw gofynion cysylltedd TGCh ehangach ystod o gwsmeriaid busnes, gan gynnwys busnesau bach a chanolig. Mae hwn yn brosiect ar wahân i'r Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes. Yng ngoleuni casgliadau'r gwaith hwn, efallai y byddwn yn comisiynu rhagor o waith ymchwil ynghylch profiad defnyddwyr busnes yn y maes hwn yn nes ymlaen yn y flwyddyn os oes meysydd i'w harchwilio ymhellach.
- 6.13 Yn ystod 2013/14 byddwn yn dal i ymateb i anghenion ehangach defnyddwyr busnes ac yn sicrhau bod darparwyr yn gallu cystadlu er mwyn cynnig gwasanaethau effeithiol i ddefnyddwyr busnes.

Delio ag ymholiadau a chwynion gan y cyhoedd

- 6.14 Mae ein tîm gweithrediadau canolog yn delio ag ymholiadau a chwynion gan ddefnyddwyr am wasanaethau telegyfathrebu, gwasanaethau teledu a radio a defnyddio'r sbectrwm radio. Ein nod yw helpu defnyddwyr i ddatrys eu hymholiadau a'u cwynion drwy eu cyfeirio at gyngor defnyddiol a thrwy gysylltu â darparwyr gwasanaeth.
- 6.15 Ar ben hynny, bydd pobl yn aml yn cwyno'n uniongyrchol wrthym am raglenni teledu a radio. Rydym yn ystyried cwynion am nifer o feysydd megis amddiffyn pobl dan 18 oed, niwed a thramgwydd, tegwch a phreifatrwydd a bod yn ddiuedd ac yn gywir wrth gyflwyno newyddion. Ond, nid ydym yn ystyried materion sy'n ymwneud â bod yn ddiuedd ac yn gywir yng nghyswllt rhaglenni'r BBC, gan mai cyfrifoldeb Ymddiriedolaeth y BBC yw hynny. Rydym hefyd yn rheoli cwynion am noddwyr rhaglenni a dylanwad masnachol honedig.
- 6.16 Mae Tîm Cyswllt Defnyddwyr Ofcom yn rhoi rhybudd cynnar ynghylch pryderon defnyddwyr. Mae meysydd newydd sy'n achosi pryder yn codi drwy'r amser ac yn cynyddu nifer y cwynion a gawn.

Cadw'r sbectrwm radio yn rhydd rhag ymyrraeth

- 6.17 Rydym yn monitro'r sbectrwm radio ac yn cymryd camau priodol i atal ymyrraeth niweidiol ar y sbectrwm. Mae'r galw cynyddol am sbectrwm a defnyddio mwy arno yn arwain at fwy o risg o ymyrraeth. Bydd Ofcom yn parhau i weithredu i atal hyn rhag digwydd a'i liniaru pan fydd yn digwydd.
- 6.18 Mae ein Tîm Peirianeg a Gorfodi Sbectrwm yn delio ag oddeutu 5,000 o achosion y flwyddyn, gan weithredu i:
- amddiffyn cyfathrebu diogelu bywyd, gan gynnwys y gwasanaethau brys a'r gwasanaeth rheoli traffig awyr;
 - atal y sbectrwm radio rhag cael ei ddefnyddio'n anghyfreithlon;
 - caniatáu defnydd cyfreithlon ar y sbectrwm drwy, er enghraifft, ddarparu cyngor a chymorth i ddefnyddwyr sbectrwm; a
 - sicrhau na chaiff offer nad yw'n cydymffurfio ei roi ar y farchnad.

Trwyddedu mynediad at y sbectrwm radio

- 6.19 Mae Ofcom yn rheoli mynediad at y sbectrwm radio drwy gyhoeddi, adnewyddu a diddymu trwyddedau. Pan fydd angen, byddwn yn neilltuo amledd, yn clirio safleoedd ac yn cydlynu defnyddio sbectrwm yn rhyngwladol. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cyhoeddi oddeutu 23,000 o drwyddedau sbectrwm (heb gynnwys adnewyddu) sy'n berthnasol i ddefnyddwyr lloeren, dolenni sefydlog, radio busnesau preifat, amatur, morol a defnyddwyr eraill.
- 6.20 Byddwn yn darparu'r gwasanaethau hyn yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon bosibl, gan wella ein prosesau a'n gwasanaeth i gwsmeriaid er mwyn lleihau nifer yr achosion o ddiddymu trwyddedau a mynd i'r afael â defnyddio sbectrwm heb drwydded.

Darparu gwasanaethau gwybodaeth

- 6.21 Rydym yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am ddefnyddio'r sbectrwm radio. Mae hyn yn gyfraniad pwysig at gydlynu'r defnydd o sbectrwm yn effeithlon. Rydym hefyd yn hwyluso rhanddeiliaid i brynu a gwerthu trwyddedau sbectrwm.

Cyfrifoldeb corfforaethol

- 6.22 Nid yn unig y mae Ofcom wedi ymrwymo i fod yn gyflogwr cyfrifol ond mae hefyd wedi ymrwymo i reoli ei effaith ar y gymuned ehangach. Dyma ein hamcanion o ran cyfrifoldeb corfforaethol:
- Trin pob cydweithiwr ag urddas a pharch mewn amgylchedd gwaith cynhwysol a theg, gan hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb.
 - Lleihau ein hól troed carbon, darparu gwerth am arian a sicrhau bod arferion Ofcom yn gynaliadwy yn amgylcheddol.
 - Ymgysylltu, ysbrydoli a datblygu cydweithwyr wrth fynd ati'n rhagweithiol i geisio cefnogi ein cymuned leol.
- 6.23 Yn 2011 roeddem wedi cyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl sy'n dod ag ymrwymiad Ofcom yng nghyswllt amrywiaeth a chydraddoldeb ynghyd ac yn ei gryfhau. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl yn nodi'n glir y gwaith rydym wedi'i wneud hyd yn hyn a'r hyn rydym yn gobeithio ei gyflawni yn y dyfodol. Fel rhan o hyn roeddem wedi gosod amcanion cydraddoldeb i ni'n hunain i'w cyflawni erbyn mis Hydref 2014. Rydym yn adrodd yn flynyddol ar y cynnydd rydym wedi'i wneud o ran ein hamcanion cydraddoldeb.
- 6.24 Yn 2012/13 roeddem wedi symud ymlaen yn dda at gyflawni ein holl amcanion cydraddoldeb, fel y nodir yn ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl. Mae datblygiadau allweddol yn cynnwys cynyddu nifer y prosiectau sy'n cael eu hasesu am effeithiau anghymesur ar y rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig, cyhoeddi ein hadroddiad cyntaf ar broffil amrywiaeth cydweithwyr a chynnal ein harchwiliad tâl cyfartal cyntaf, a oedd yn dangos nad oedd dim gwahaniaethau tâl sylweddol rhwng dynion a menywod.
- 6.25 Roedd Cynllun Cydraddoldeb Sengl 2011 yn diwallu gofynion newydd Deddf Cydraddoldeb 2010 ac yn cynnwys y nodweddion gwarchoddedig oed, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, priodas a phartneriaeth sifil a chyfeiriadedd rhywiol.
- 6.26 Yn dilyn hyn, yn 2012 roeddem wedi cyhoeddi ein hadroddiad cyntaf ar broffil amrywiaeth cydweithwyr er mwyn cyflawni rhan o'n dyletswydd sector cyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Rydym wedi defnyddio canfyddiadau'r adroddiad hwn i gyfrannu at ein gwaith ar amrywiaeth a chydraddoldeb a byddwn yn darparu adroddiadau diweddar bob blwyddyn. Yn yr un modd, rydym yn cynnal gwaith meincnodi i sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â'r arferion gorau ym maes amrywiaeth a chydraddoldeb; cawsom ein henwi'n ddiweddar yn y rhestr o'r deg cyflogwr gorau yn y sector cyhoeddus gan Fusnes yn y Gymuned yng nghyswllt hil a rhyw.
- 6.27 Rydym yn parhau i gefnogi ysgol gynradd leol, lle mae cydweithwyr Ofcom yn rhedeg cynllun darllen poblogaidd. Rydym hefyd newydd ddechrau gwirfoddoli tîm, sydd wedi bod yn ffordd effeithiol o wella datblygiad tîm.

Adran 7

Darpar feysydd gwaith a blaenoriaethau tymor hwy

- 7.1 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu cynlluniau Ofcom ar gyfer y flwyddyn nesaf i ddarparu manteision i ddefnyddwyr a dinasyddion. Fodd bynnag, rydym yn parhau i ddisgwyl y bydd y sector cyfathrebu'n datblygu ac yn newid dros amser, gan arwain at nifer o faterion polisi posibl a fydd yn edrych tua'r dyfodol. Diben yr adran hon yw cydnabod y datblygiadau hyn a'r materion tymor hwy posibl gallwn eu hwynebu.
- 7.2 Nid yw cynnwys y materion hyn yn awgrymu y bydd Ofcom yn cynnal gwaith yn y meysydd hyn fel blaenoriaeth yn y Cynllun Blynyddol yn ystod y blynyddoedd ariannol nesaf neu ddilynol. Yn wir, nid yw'n glir a fydd y farchnad yn datblygu mewn ffordd a allai olygu ei bod yn ofynnol cael barn yn ei gylich yn y dyfodol.
- 7.3 Efallai daw rhai o'r materion hyn yn flaenoriaethau gweithredol yn 2013/14 ar ôl cyhoeddi'r datganiad hwn oherwydd digwyddiadau allanol heb eu cynllunio neu os bydd capasiti sbâr ar gael yn fewnol. Tan hynny, fodd bynnag, bydd Ofcom yn parhau i gadw golwg neu gynnal gwaith mewnol ar raddfa fach i baratoi ar gyfer y dyfodol wrth barhau i fonitro a mesur eu datblygiadau.
- 7.4 Mae'n bwysig nodi hefyd nad yw hon yn rhestr gaeedig – bydd materion a blaenoriaethau newydd yn dod i'r amlwg, ond dyma'r rhai rydym eisoes wedi'u cydnabod.

Materion sy'n datblygu a all gyfrannu at Gynlluniau Blynyddol y dyfodol

Adolygiad o'r farchnad telegyfathrebu busnes ehangach

- 7.5 Gan adeiladu ar yr *Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes* diweddar, efallai mai un flaenoriaeth yn y dyfodol fydd cynnal adolygiad manylach o'r newidiadau yn anghenion pob busnes y mae angen cysylltedd data arno ac i ba raddau y mae darparwyr yn ymateb i'r newidiadau hyn.

Gwaith ymchwil pellach a darparu gwybodaeth am ansawdd gwasanaeth

- 7.6 Parhau i gynnal gwaith ymchwil am ansawdd y gwasanaeth a gaiff defnyddwyr; er enghraifft, ar gyflymder band eang symudol.

Cyngor parhaus i'r Llywodraeth ar ragor o ymyriadau sector cyhoeddus i ddarparu'r 'traean olaf' o ddarpariaeth band eang a'r 10% olaf o fand eang cyflym.

- 7.7 Gall maes gwaith posibl arall gynnwys parhau i gynghori neu i ddarparu ein harbenigedd i'r Llywodraeth er mwyn iddi gyrraedd ei thargedau ar gyfer darpariaeth band eang a band eang cyflym iawn yn y DU.

Cefnogi rhyddhau rhagor o sbectrwm sector cyhoeddus

- 7.8 Wrth i ffynonellau newydd o gyflenwad ar gyfer sbectrwm at ddibenion masnachol ddod yn bwysicach, gallai blaenoriaeth i'r dyfodol gynnwys cefnogi rhyddhau rhagor o sbectrwm sector cyhoeddus y tu hwnt i 2.3 a 3.4 GHz.

Cynllunio sbectrwm gwasanaethau brys

- 7.9 Rydym yn ymwybodol bod y gwasanaethau brys yn y DU yn ystyried eu gofynion ar gyfer y dyfodol o ran rhwydweithiau symudol, fel y mae eraill yn ei wneud ym mhedwar ban y byd. Rydym yn disgwyl y gofynnir am ein cyngor ar agweddau ar y dewisiadau sbectrwm a fydd ar gael iddynt.

Cynnal adolygiad strategol o fandiau UHF1 ac UHF2 radio busnes

- 7.10 Gyda mwy a mwy o alw am wasanaethau ar sail rhaglenni ar gyfer radio symudol preifat (PMR) yn enwedig yn y bandiau mwyaf poblogaidd, cyn bo hir bydd angen i Ofcom ystyried sut bydd modd diwallu'r gofynion heriol hyn.
- 7.11 Felly mae'n debyg y bydd angen cynnal adolygiad strategol o UHF1 ac UHF2 yng nghyd-destun datblygiadau byd-eang mewn Radio Symudol Preifat.

Y cynnydd o ran faint o ddata a gwybodaeth defnyddwyr a ddefnyddir

- 7.12 O ganlyniad i'r cyfleoedd sy'n codi o ganlyniad i wasanaethau IP a'r rhyngwrwyd, bydd chwaraewyr ar draws cadwyn gwerth y sector cyfathrebu yn casglu ac yn defnyddio mwy a mwy o wybodaeth am eu cwsmeriaid. Mae hyn yn codi nifer o faterion posibl, gan gynnwys darpar gystadleuaeth, diogelu defnyddwyr a phryderon ynghylch preifatrwydd. Er nad yw hwn yn fater i Ofcom yn unig, mae'n faes sensitif sy'n datblygu lle bydd angen i ni weithio gyda rheoleiddwyr eraill fel sy'n briodol, er mwyn diogelu buddiannau defnyddwyr a dinasyddion.

Swyddogaeth ehangach i NRAs o ran diogelu seilwaith cenedlaethol critigol gwydn

- 7.13 Cafodd Erthygl 13a o'r Gyfarwyddeb Fframwaith ei thrawsgrifio'r llynedd i'r Ddeddf Cyfathrebiadau. Mae hyn yn rhoi pwerau newydd i Ofcom yng nghyswllt sicrhau bod rhwydweithiau a gwasanaethau cyhoeddus yn wydn ac yn ddiogel. Hyd yn hyn mae ein gweithgarwch wedi canolbwyntio ar sicrhau bod y darparwyr cyfathrebu mwyaf yn gallu dangos eu bod yn dilyn arferion gorau'r diwydiant. Fodd bynnag, wrth i wasanaethau cyfathrebu ddod yn bwysicach i ddefnyddwyr, i ddinasyddion ac i'r economi, efallai bydd mwy a mwy o alwadau i Ofcom fabwysiadu swyddogaeth sy'n fwy rhagweithiol, y tu hwnt i'n hadroddiadau seilwaith rheolaidd, ar gyfer sicrhau seilwaith cenedlaethol critigol gwydn.

Deall swyddogaeth atebolrwydd cyfryngwr wrth lunio polisiau yn y dyfodol

- 7.14 Yn y dyfodol, efallai bydd cyfryngwyr rhyngwrwyd fel darparwyr gwasanaeth rhyngwrwyd yn chwarae rhannau sy'n fwy neu'n llai ffurfiol wrth sicrhau nodau polisi mor amrywiol â diogelu hawlfraint ac amddiffyn pobl ifanc dan 18 oed. Os bydd angen, byddwn yn sicrhau ein bod yn deall deddfwriaeth berthnasol y DU ac Ewrop, y posibilrwydd ar gyfer dyletswyddau rheoleiddio, a datblygu mentrau gwirfoddol perthnasol gan gyfryngwyr o'r fath wrth i'r dadleuon ar y mater hwn barhau.

Y risgiau i ddefnyddwyr oherwydd maleiswedd

- 7.15 Drwy gasglu data preifat heb i'r defnyddiwr wybod hynny a drwy ymosod ar systemau cyfrifiadurol, gallai maleiswedd beri risg go iawn i ddefnyddwyr ar-lein. Gan gofio hyn gall fod yn bwysig ein bod yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau er mwyn galluogi amgylchedd ar-lein y mae dinasyddion a defnyddwyr y DU yn ymddiried ynddo a deall materion diogelu defnyddwyr posibl yn y dyfodol sy'n ymwneud â gwasanaethau ar-lein.

Diogelu defnyddwyr yng nghyswllt meicrodaliadau

- 7.16 Mae defnyddio meicrodaliadau, a'r diddordeb ynddynt, yn cynyddu yn ein sectorau fel ffordd o gael elw ar gynnwys a gwasanaethau ar-lein neu ddigidol. Gyda dyfodiad model busnes cynnwys digidol daw'r risg na fydd cyfraith defnyddwyr generig na'r farchnad ei hun yn sicrhau bod defnyddwyr wedi'u hamddiffyn yn llawn rhag niwed posibl. Ar yr un pryd, nid yw o anghenraid yn glir pa gyrrff rheoleiddio neu orfodi fydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros unrhyw ddiogelu defnyddwyr. Mae gan Ofcom swyddogaeth gyfyngedig yn barod mewn maes cysylltiedig drwy reoleiddio gwasanaethau cyfradd premiwm ac efallai y bydd gofyn i ni gynghori wrth ystyried y risgiau posibl o ran niwed i ddefnyddwyr yn y dyfodol a dewisiadau ar gyfer diogelu defnyddwyr. Mae hwn yn faes sy'n datblygu ac efallai bydd angen i ni gadw golwg arno a chyfrannu ato.

Tagfeydd a phyrth cystadleuaeth newydd

- 7.17 Wrth i'r sector cyfathrebu esblygu, mae'n bosibl y bydd newid i'w weld yn ystod a nifer y chwaraewyr, y rhwydweithiau neu'r gwasanaethau a allai fod yn byrth neu'n dagfeydd yn y dyfodol. Mae Ofcom yn canolbwyntio ar gefnogi cystadleuaeth effeithiol a dewisiadau ar sail gwybodaeth, felly bydd gennym swyddogaeth barhaus i fonitro'r risg o bryderon posibl ynghylch cystadleuwyr newydd, a all godi wrth i gadwyn gwerth y sector cyfathrebu esblygu. Efallai y bydd yn rhaid i ni ddeall cwmplas y risgiau posibl hefyd, a chanfod atebion rheoleiddiol a marchnad ar gyfer pryderon posibl a allai godi ynghylch polisi cyhoeddus a chystadleuaeth.

Adran 8

Cyflawni ein dyletswyddau a gwerth am arian

Mae Ofcom yn darparu gwerth am arian o fewn ei gyllideb

- 8.1 2013/14 yw trydedd flwyddyn Adolygiad o Wariant y Trysorlys pedair blynedd bresennol Ofcom. Yn y cyfnod hwn mae Ofcom wedi ymateb i'r sialensiau ehangach sy'n wynebu gwariant cyhoeddus drwy adolygu sut mae'n rheoleiddio'n effeithiol mewn ffordd wedi'i thargedu er budd dinasyddion a defnyddwyr, gan sicrhau gwerth am arian i'w randdeiliaid ar yr un pryd.
- 8.2 Mae Cynllun Blynyddol 2013/14 yn adeiladu ar ein llwyddiannau hyd yn hyn yng nghyd-destun yr arbedion effeithlonrwydd a nodwyd yng Nghynlluniau Blynyddol 2011/12 a 2012/13 yn dilyn ein Prosiect Adolygiad o Wariant mewnol.
- 8.3 Ar ben y sialens economaidd, rydym hefyd yn ymroi i ymateb i newidiadau yn neddfwriaeth y DU a deddfwriaeth Ewropeaidd, gan gynnwys cynghori a helpu'r Llywodraeth yn ôl y galw.

Cyflawni ein Prosiect Adolygiad o Wariant mewnol

- 8.4 Bwriad ein Prosiect Adolygiad o Wariant oedd galluogi'r sefydliad i gyflawni ei ddyletswyddau a'i rwymedigaethau er gwaethaf gostyngiadau o ran cyllid, gan hefyd sicrhau mwy o ffocws strategol ac effeithiolrwydd trefniadol dros gyfnod o bedair blynedd.
- 8.5 Arweiniodd yr adolygiad cynhwysfawr hwn o'n holl ofynion ariannol at lunio set glir o fesurau i'n galluogi i gyflawni ein holl ymrwymadau o fewn gostyngiad targed termau real o 28.2% (dros bedair blynedd). Mae Ofcom wedi gwneud cynnydd sylweddol ar gyflawni'r arbedion effeithlonrwydd a osodwyd allan yn ein Prosiect Adolygiad o Wariant ac yn parhau ar drywydd i gyflawni'r targed. Wrth osod y gyllideb o £117.0m ar gyfer 2013/14 bydd Ofcom wedi cyflawni gostyngiad cyllidebol mewn termau real o 26.7% o'i gymharu â 2010/11. Bydd cyllideb gyffredinol 2013/14 Ofcom yn adlewyrchu gostyngiad sylweddol ar ôl llwyddo i gyflawni ein dyletswyddau mewn perthynas â Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012. Bydd ein ffocws nawr arganolbwytio ar gynnal gwerth gwaddol y gwaith hwn. Trwy gydol 2013/14, bydd Ofcom yn adeiladu ar ei waith paratoadol ar gyfer Gemau'r Gymanwlad 2014 yn Glasgow a byddwn yn sicrhau bod y gwerth gwaddol o'r Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 yn cael ei weithredu'n llawn.

Rheoli ein hadnoddau'n effeithiol

- 8.6 Mae Ofcom yn cydnabod bod ein hadnoddau mewnol yn hollbwysig ar gyfer llwyddiant cyffredinol y sefydliad. I'r perwyl hwn, rydym yn parhau i ddatblygu'r sefydliad yn fewnol ac yn ystod 2013/14 byddwn yn dechrau rhaglen datblygu rheoli a fydd yn mynd law yn llaw â'n rhaglen arwain a'n cynllun i dderbyn gradddedigion.
- 8.7 Mae meddu ar yr offer a'r prosesau priodol yn hollbwysig er mwyn galluogi Ofcom i gyflawni ei ddyletswyddau yn y ffordd fwyaf effeithiol. Er mwyn hwyluso hyn yn 2013/14 byddwn yn parhau i adolygu'r ffordd rydym yn gweithio a, phan fo'n briodol,

byddwn yn diwygio ein prosesau a'n dull gweithredu i gyflawni rhagor o arbedion effeithlonrwydd.

- 8.8 Bydd Ofcom yn parhau i adolygu ein gofynion eiddo, gan waredu neu is-osod lle sy'n cael ei adnabod yn ychwanegol at ein hanghenion parhaus.
- 8.9 Er mwyn i Ofcom allu defnyddio'r adnoddau ariannol sydd ar gael yn y ffordd orau, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ein swyddogaeth fasnachol er mwyn hyrwyddo'r canlynol yn well:
- sicrhau gwerth am arian ac ansawdd gwasanaethau, gan leihau risgiau masnachol a chyfreithiol i'r eithaf ar yr un pryd.
 - caffael proffesiynol, effeithiol a chynaliadwy, yn unol â holl gyfreithiau perthnasol y DU a'r UE; a
- 8.10 Yn sail i hyn y mae prosesau caffael a chontractio clir a chadarn sy'n deg, yn dryloyw ac yn anwahaniaethol, gan roi ystyriaeth lawn i arferion gorau. Mae Ofcom yn sicrhau bod yr holl ddarpar gyflenwyr yn cael yr un cyfle i gystadlu am fusnes Ofcom.
- 8.11 Yn 2013/14, byddwn yn parhau i weithio gyda rheoleiddwyr eraill i rannu arfer gorau gyda golwg ar leihau cyfanswm y costau.

Hwyluso canlyniadau priodol i ddefnyddwyr a dinasyddion

- 8.12 Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, mae Cynllun Blynyddol 2013/14 yn datgan ein blaenoriaethau strategol yn glir a'r canlyniadau o'n gwaith rydym yn dymuno eu sicrhau ar ran dinasyddion a defnyddwyr.
- 8.13 Y canlyniadau fydd yr effaith neu'r newid mewn ymddygiad sydd wedi cael ei ysgogi drwy gamau gweithredu Ofcom. Y canlyniadau fydd yr effaith neu'r newid mewn ymddygiad sydd wedi cael ei ysgogi drwy gamau gweithredu Ofcom. Canlyniadau interim yw'r effeithiau neu'r newidiadau hynny mewn ymddygiad yn amgylchedd rhanddeiliaid y diwydiant, a'r canlyniadau terfynol yw'r rheini a gaiff defnyddwyr a dinasyddion.
- 8.14 Caiff casglu ac adrodd ar ganlyniadau o'r fath ei ymgorffori yn ein fframwaith ar gyfer cyflawni'r prosiect. Ar gyfer pob gweithgarwch rydym yn ei wneud mae hyn yn cynnwys datgan yn glir beth yw'r canlyniad a geisir a'r camau gweithredu mewnol cysylltiedig mae angen eu cymryd. Mae'r canlyniadau hyn yn pennu'r buddion cadarnhaol yr ydym yn ceisio'u darparu i ddinasyddion a defnyddwyr o ganlyniad i'n gwaith. Mae ein Hadroddiad Blynyddol yn cynnwys y cynnydd o ran cyflawni ein canlyniadau.
- 8.15 Rydym eto wedi gosod canlyniadau interim a therfynol yng Nghynllun Blynyddol eleni i asesu ein llwyddiant o ran cyflawni ein blaenoriaethau. Byddwn yn darparu adroddiad am ba mor llwyddiannus y buom yn cyflawni yn erbyn y canlyniadau hyn, a llwyddiant ein gwaith, yn ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2013/14.

Adran 9

Agwedd Ofcom at reoleiddio a mentrau symleiddio diweddar

Rydym yn ceisio ysgafnhau'r baich rheoleiddiol ar randdeiliaid, yn unol â dyletswyddau Ofcom

9.1 Wrth gyflawni ein dyletswyddau a diwallu ein dibenion strategol, rydym yn dilyn set bendant o egwyddorion rheoleiddiol. Bydd yr egwyddorion hyn yn sicrhau bod ein gwaith yn mynd i'r afael â phroblemau penodol yn effeithiol, yn amserol, yn gadarn ac yn gynhwysfawr. Maent hefyd yn ein helpu i egluro ein hagwedd reoleiddiol a symleiddio a lleihau rheoleiddio, ar yr un pryd â chynyddu gwerth am arian pan fydd hynny'n bosibl.

9.2 Dyma ein hegwyddorion rheoleiddio, sy'n berthnasol i'n dyletswyddau statudol:

Pryd byddwn yn rheoleiddio

9.3 Bydd Ofcom yn gweithredu gyda gogwydd yn erbyn ymyrryd, ond â pharodrwydd i ymyrryd yn ddiymdroi ac yn effeithiol pan fydd angen.

9.4 Bydd Ofcom yn ymyrryd pan mae dyletswydd statudol benodol i weithio at nod na all y marchnadoedd ei gyflawni ar eu pen eu hunain.

Sut rydym yn rheoleiddio

9.5 Bydd Ofcom bob amser yn ceisio defnyddio'r dulliau rheoleiddio lleiaf ymwthiol er mwyn cyflawni ei amcanion.

9.6 Bydd Ofcom yn ceisio sicrhau bod ymyriadau ar sail tystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw o ran ystyriaeth ac o ran canlyniadau.

9.7 Bydd Ofcom yn rheoleiddio gyda Chynllun Blynyddol clir ac a adolygir yn gyhoeddus, gydag amcanion sydd wedi cael eu datgan.

Sut byddwn yn cefnogi rheoleiddio

9.8 Bydd Ofcom yn ymchwilio i'r farchnad cyfathrebu ac yn ceisio aros ar y blaen i ddealltwriaeth dechnolegol.

9.9 Bydd Ofcom yn ymgynghori'n eang â'r holl randdeiliaid perthnasol ac yn asesu effaith camau rheoleiddio cyn rheoleiddio marchnad.

9.10 Mae ein gogwydd tuag at beidio ag ymyrryd yn ceisio sicrhau nad ydym ond yn rheoleiddio lle mae hynny'n gwbl angenrheidiol. Gallai ymyrryd diangen o'r fath ystumio neu lesteirio datblygiad marchnadoedd cystadleuol sy'n newid yn gyflym. Ond, lle mae angen ymyrryd, byddwn yn gwneud hynny'n gyflym ac yn gadarn.

9.11 Mae Adran 6 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn rhoi dyletswydd ar Ofcom i beidio â rhoi beichiau diangen na chynnal beichiau sydd wedi dod yn ddiangen. Mae Adran 6 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn cyhoeddi datganiad bob 12 mis yn dangos sut mae

wedi cyflawni'r ddyletswydd hon. Rydym yn cyflawni'r gofyniad hwn drwy ddisgrifiad o gynlluniau symleiddio diweddar, sy'n cael ei gyflwyno yng nghyd-destun ein Cynllun Blynyddol.

Mae ein hagwedd at reoleiddio wedi'i dylunio i leihau beichiau

- 9.12 Mae ein proses Cynllunio Blynyddol yn ceisio gosod ein rhaglen waith ar gyfer y dyfodol gan gofio ein hagwedd at reoleiddio.
- 9.13 Ar ben ein hegwyddorion rheoleiddio, bydd nifer o themâu sy'n aros yn bwysig i'n gwaith drwy gydol 2013/14. Sef:
- Ystyried sut mae ein gwaith a'i ganlyniadau'n berthnasol i bob gwlad yn y DU. Caiff ein gwaith ei ddylanwadu fwyfwy gan oblygiadau datganoli a'r gwahaniaethau rhwng y gwledydd.
 - Mae glynu wrth becyn cymorth buddiannau defnyddwyr Ofcom yn ffordd o sicrhau ein bod yn canfod ac yn rhoi sylw i fuddiannau defnyddwyr ar draws ein gwaith. Mae'r pecyn hwn yn cynnwys cyfres o gwestiynau y dylai pob tîm prosiect mewnol eu gofyn i sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i ddefnyddwyr.
- 9.14 Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn datgan yn glir y dylem gyflawni ein dyletswyddau mewn ffordd sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Gwell Rheoleiddio. Mae hyn yn golygu ei bod yn rhaid i ymyriadau rheoleiddio fod ar sail tystiolaeth, yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at achosion y mae angen gweithredu yn eu cylch.
- 9.15 Mae asesiadau o'r effaith yn rhan allweddol o'n camau gweithredu rheoleiddio. Maent yn rhoi ffordd o adnabod y problemau y mae angen rhoi sylw iddynt, ystyried dewisiadau gwahanol ar gyfer rheoleiddio (gan gynnwys peidio â rheoleiddio) ac wedyn dewis yr opsiwn sy'n rhoi'r mwyaf o fanteision posibl ac sy'n lleihau costau ymyrryd.
- 9.16 Mae adran 7 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn dweud ei bod yn rhaid i Ofcom gyflawni a chyhoeddi asesiad o'r effaith pan ymddengys fod ein cynnig yn bwysig. Fodd bynnag, oherwydd bod asesiadau o'r effaith yn rhan o arfer rheoleiddio da, rydym yn eu cynnal yng nghyswllt y rhan fwyaf o'n penderfyniadau.
- 9.17 Mae rheoleiddio cymesur ac wedi'i dargedu wedi chwarae rhan allweddol o ran sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr y DU. Er bod treth beichiau ar gwmnïau wedi'u rheoleiddio yn rhan annatod o reoleiddio, rydym yn credu bod cyfiawnhad dros yr ymyriadau pan mae'r manteision cyffredinol a fydd yn deillio ohonynt yn drech na'r beichiau hyn.
- 9.18 Wrth ddadansoddi costau a manteision rheoleiddio, mae angen defnyddio egwyddor bod yn gymesur, sy'n golygu y bydd yn aml yn briodol i ni ganolbwyntio ar y costau a'r manteision pwysicaf a pheidio â threulio gormod o amser yn ystyried y rheini sy'n eithaf dibwys. Ar ben hynny, rhaid i faint o wybodaeth rydym yn gofyn amdani gan randdeiliaid er mwyn ein galluogi i gyflawni ein dadansoddiad fod yn gymesur.
- 9.19 Wrth asesu ein dewisiadau ar gyfer ymyrryd, rydym yn ystyried ystod o atebion eraill. Mae'r rhain yn amrywio o ddim rheoleiddio o gwbl i hunan-reoleiddio gan y diwydiant ei hun (pan fydd y diwydiant yn rhoi ateb heb drosolwg na phwerau rheoleiddio ôl-stop), cyd-reoleiddio (lle mae gan y llywodraeth neu'r rheoleiddiwr bwerau ôl-stop a rhywfaint o drosolwg), hyd at ymyriad statudol llawn.

- 9.20 Rydym wedi parhau i ddatblygu a defnyddio cyfarwyddyd rheoli prosiect i sicrhau bod pob rheolwr prosiect yn deall ac yn ystyried asesiadau o'r effaith, asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, risg, a chyd-reoleiddio a hunan-reoleiddio, yn ogystal â gallu diffinio mesuriadau llwyddiant yn glir.

Rydym yn adolygu rheoleiddio'n rheolaidd er mwyn archwilio a yw'n dal yn addas i'r diben ac yn tynnu beichiau pan nad oes cyfiawnhad drostynt mwyach

- 9.21 Pan fydd y rheoleiddio ar waith, rydym yn ei adolygu o bryd i'w gilydd er mwyn ystyried newidiadau yn amodau'r farchnad, anghenion rhanddeiliaid a gofynion statudol i gynnal adolygiadau ffurfiol ar adegau penodol. Caiff ymyriadau pwysig eu gwerthuso hefyd yng nghyswllt y canlyniadau yr oeddent i fod i'w cyflawni'n wreiddiol. Mae adolygiadau a gwerthusiadau'n bwysig iawn er mwyn pennu a oes cyfiawnhad dros y rheoliadau presennol a'r beichiau sydd ynghlwm wrthynt ac a ydynt yn angenrheidiol.
- 9.22 Ers ei greu mae Ofcom wedi bod ag agwedd strategol at reoleiddio, gan gyhoeddi adolygiadau sectoraidd amrywiol. Er bod y rhain yn gallu arwain at feichiau gweinyddol ar randdeiliaid drwy geisiadau am wybodaeth a'r broses ymgynghori, maent yn angenrheidiol er mwyn i ni gasglu sylfaen dystiolaeth i'w dadansoddi. Ar y llaw arall, mae agwedd strategol at reoleiddio'n lleihau'r tebygolrwydd y rhoddir sawl haen o reoleiddio heb eu cydlynu dros gyfnod, sy'n arwain at roi beichiau diangen arnom ni ac ar randdeiliaid.

Mentrau symleiddio parhaus o 2012/13 ymlaen

Byddwn yn parhau i weithredu ein cynllun e-wasanaethau newydd

- 9.23 Byddwn yn parhau i ddatblygu ein cynllun e-wasanaethau er mwyn rhoi porth newydd i ddefnyddwyr gael cyngor, cyfarwyddyd a gallu cofnodi cwynion am wasanaethau cyfathrebu. Caiff hyn ei anelu at annog defnyddwyr at strategaeth 'gwe yn gyntaf' drwy borth gwe Ofcom.
- 9.24 Bydd y porth yn caniatáu i ddefnyddwyr fewngofnodi i'r wefan 24/7, yn darparu profiad gwell i gwsmeriaid, a bydd yn berthnasol i gyngor, ymholiadau a chwynion telegyfathrebu. Bydd hefyd yn galluogi Ofcom i gasglu data gwerthfawr ar faterion allweddol, patrymau sy'n dod i'r fei a pherfformiad darparwyr gwasanaeth, er mwyn cyfrannu at ddatblygu a gorfodi polisïau.
- 9.25 Rydym yn gobeithio y bydd y porth defnyddwyr yn lleihau nifer y galwadau a gawn i'n Canolfan Cyswllt Defnyddwyr, gan ganiatáu i'n staff ddelio â'r galwadau mwy cymhleth nad oes modd eu datrys dros y we, a darparu cymorth i ddefnyddwyr agored i niwed a'r rheini nad ydynt ar-lein eto.

Byddwn yn parhau â'n prosiect adolygiad o wariant

- 9.26 Drwy gydol 2012/13 y Tîm Perfformiad a Chynllunio sy'n bennaf gyfrifol am fframwaith rheoli perfformiad Ofcom a bydd hynny'n parhau. Prif ffocws i'r fframwaith hwn fu symleiddio ein prosesau adrodd mewnol, a fydd yn golygu bod modd darparu gwybodaeth sy'n fwy amserol i reolwyr yn fwy rheolaidd er mwyn helpu i wneud penderfyniadau'n fwy effeithiol. Nod tymor hir y fframwaith yw sicrhau y bydd monitro ac adrodd am gynnydd yn fwy effeithiol yn arwain at fanteision i ddefnyddwyr yn sgil defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon. Bydd y gwaith hwn yn parhau i 2013/14.

Rydym wedi caniatáu i'r Post Brenhinol gyflwyno cynllun 'danfon i gymydog'

- 9.27 Rydym wedi cymeradwyo'r Post Brenhinol i gyflwyno cynllun 'danfon i gymydog', lle bydd y Post Brenhinol yn gallu danfon post does dim modd ei anfon, i gymdogion y sawl sydd i fod i'w dderbyn.
- 9.28 Cafodd y cynllun, sy'n ddewisol i gwsmeriaid post, ei dreialu'n gyntaf mewn nifer cyfyngedig o ardaloedd yn 2011. Ar ôl cwblhau'r treial yn llwyddiannus, gwnaeth y Post Brenhinol gais ffurfiol i gyflwyno'r cynllun yn genedlaethol.
- 9.29 Ar ôl ystyried ein dyletswydd dan adran 29 Deddf Gwasanaethau Post 2011; i gyflawni ein swyddogaethau mewn ffordd rydym yn credu y bydd yn diogelu darparu gwasanaeth post cyffredinol, gan gynnwys yr angen i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw mewn ffordd ariannol gynaliadwy ac effeithlon, roeddem wedi caniatáu i'r Post Brenhinol ddanfon eitemau i gymdogion i wella hwylustod y gwasanaeth i ddefnyddwyr post, a galluogi system ddanfon sy'n fwy effeithlon i'r Post Brenhinol.
- 9.30 Wrth ddatblygu'r cynnig hwn, roeddem wedi nodi bod gwasanaethau danfon pecynnau eraill a oedd yn cystadlu â'r Post Brenhinol eisoes yn cael gadael eitemau heb eu danfon gyda chymdogion.

Rydym wedi lleihau'r rheoliadau ar y Post Brenhinol i roi mwy o hyblygrwydd masnachol iddo

- 9.31 O ganlyniad i'n hymgyngoriadau yn 2011 a'n penderfyniad terfynol ym mis Mawrth 2012, o 1 Ebrill 2012 ymlaen, mae'r Post Brenhinol wedi cael y rhyddid i osod ei brisiau ei hun ar gyfer y than fwyaf o'i gynnyrch adwerthu a chyfanwerthu. Ar yr adeg hon rydym hefyd wedi:
- cwtogi'r cyfnod o rybudd y mae'n rhaid i'r Post Brenhinol ei roi i gwsmeriaid wrth newid prisiau neu delerau ar gyfer cynnyrch gwasanaeth cyffredinol o dri mis i fis;
 - diddymu'r holl ddyletswyddau hysbysiad ymlaen llaw a chyhoeddi ar gyfer newidiadau i delerau ynghylch prisiau a phethau heb fod yn brisiau ar gyfer gwasanaethau adwerthu heb fod yn gyffredinol y Post Brenhinol;
 - diddymu'r broses gymeradwyo ymlaen llaw ar gyfer newidiadau i delerau heb fod yn brisiau gwasanaethau cyffredinol yn amodol ar ofyniad ei bod yn rhaid i'r telerau ar gyfer y gwasanaethau hyn fod yn deg ac yn rhesymol; a
 - diddymu'r dyletswyddau i'r Post Brenhinol gyhoeddi gwybodaeth ansawdd gwasanaeth ar wasanaethau heb fod yn gyffredinol.
- 9.32 Roeddem yn credu y byddai'r newidiadau hyn helpu i roi rhagor o hyblygrwydd masnachol i'r Post Brenhinol er mwyn iddo arloesi ac ymateb i'w amgylchedd marchnad heriol.

Rydym wedi symleiddio'r broses masnachu sbectrwm, gan ymestyn masnachu i ddsbarthiadau trwydded newydd a chyflwyno lesio

- 9.33 Rydym wedi ei gwneud hi'n haws i fusnesau fasnachu sbectrwm ac wedi ymestyn y gallu hwn i'r sectorau morol a gorsafodd daear lloeren. Roeddem wedi diddymu'r angen i Ofcom gytuno i drosglwyddo hawliau i ddefnyddio sbectrwm, yn y rhan fwyaf o achosion. Mae ymestyn y gallu i drosglwyddo trwydded i ddsbarth trwydded newydd yn caniatáu i'r rheini sy'n dal trwyddedau drosglwyddo elfennau nad ydynt

wedi cael eu defnyddio neu nad ydynt wedi cael eu defnyddio ddigon o'u daliadau sbectrwm i drydydd parti a all eu defnyddio.

- 9.34 Roeddem hefyd wedi cyflwyno'r gallu i rai dosbarthiadau trwydded lesio eu sbectrwm, e.e. mynediad sbectrwm a radio busnes (a ddiffinnir yn ôl ardal). Mae hyn yn galluogi'r rheini sy'n dal trwyddedau i lesio eu sbectrwm am gyfnod penodol dan gontract heb gael trwydded bellach gan Ofcom. Mae'r ffordd symlach hon o fasnachu yn haws ac yn gynt, gan alluogi'r rheini sydd â thrwyddedau i ddarparu mynediad i sbectrwm heb orfod ildio eu hawliau dros y sbectrwm.
- 9.35 Eleni rydym hefyd wedi cyfnerthu'r rhan fwyaf o'r is-ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â masnachu. Rydym yn credu y bydd hyn yn ei gwneud yn haws i randdeiliaid ddeall yr amgylchedd rheoleiddio a lleihau'r baich gweinyddol. Mae cyfnerthu'r ddeddfwriaeth yn lleihau nifer yr Offerynnau Statudol yn y maes hwn o 20 i ddau.

Rydym wedi ymestyn y cyfnod i dalu ffi am drwydded awyren o flwyddyn i dair

- 9.36 Yn flaenorol, roedd yn rhaid i'r rheini a oedd yn dal trwyddedau sbectrwm awyrennau adnewyddu eu trwydded bob blwyddyn, ond rydym bellach wedi symud i gylch o dair blynedd yn lle. Gobeithiwn y bydd hyn yn ysgafnhau'r baich gweinyddol a gaiff ei rhoi ar y rheini sy'n dal y trwyddedau.

Cynlluniau symleiddio a dadreoleiddio newydd 2013/14

Byddwn yn cynnal adolygiad o gynlluniau dadreoleiddio a symleiddio

- 9.37 Mae'n bwysig ein bod bob amser yn ceisio lleihau a symleiddio rheoleiddio ble bynnag y bo hynny'n briodol. Mae hyn yn rhywbeth rydym yn ei gymryd o ddifrif ac, yng ngoleuni ymatebion defnyddiol gan randdeiliaid i'n Cynllun Blynyddol Drafft ynghylch rhai achosion penodol, bydd Ofcom yn adolygu meysydd allweddol rheoleiddio cyfredol yn 2013/14 er mwyn asesu potensial mesurau dadreoleiddio a symleiddio lle mae'n pwerau yn caniatáu i ni wneud gwelliannau.
- 9.38 Hefyd, bydd Ofcom yn parhau i gyfrannu at unrhyw ddadleuon polisi cyhoeddus ehangach sy'n cael eu harwain gan y Llywodraeth ynghylch dadreoleiddio a symleiddio yn y sector cyfathrebu. Mae hyn yn hynod bwysig oherwydd mae llawer iawn o'r rheoleiddio'n deillio'n uniongyrchol o ddyletswyddau statudol penodol

Byddwn yn sefydlu cynlluniau arfer gorau i gefnogi ein gwaith yn y cyfnod sy'n arwain at Gemau'r Gymanwlad Glasgow 2014

- 9.39 Fel rhan o ymrwymadau Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban i Gemau'r Gymanwlad Glasgow 2014, mae Ofcom yn llunio paratodau manwl i sicrhau Gemau diogel a llwyddiannus.
- 9.40 Swyddogaeth Ofcom yw creu cynllun sbectrwm arbennig ar gyfer y Gemau. Rydym yn gweithio i gyflawni hyn mewn ffordd sy'n darparu cryn werth am arian.
- 9.41 Mae profiad llwyddiannus Gemau 2012 Llundain wedi rhoi model i ni ar gyfer tasgau allweddol Ofcom i gefnogi Gemau'r Gymanwlad: cynllunio sbectrwm; trwyddedu; defnyddio dyfeisiau a phrosesau monitro; a defnyddio gweithlu o beirianwyr maes i reoli ymyrraeth. Bydd yr hyn rydym wedi'i ddysgu o Gemau 2012 Llundain yn goleuo ac yn arwain gweithgareddau Ofcom i gefnogi Gemau Glasgow 2014 a digwyddiadau mawr ar ôl hynny.

Byddwn yn dadreoleiddio ac yn symleiddio rheoliadau yn unol â deddfwriaeth yn y dyfodol

9.42 Deddfwriaeth sy'n pennu nifer o gamau gweithredu Ofcom. Mewn rhai meysydd mae gennym ddisgresiwn eang o ran i ba raddau rydym yn rheoleiddio, ac mae'r ddeddfwriaeth yn fwy pendant mewn meysydd eraill. Pan fydd gennym ddisgresiwn, rydym yn ceisio ysgafnhau'r baich ar yr un pryd â dilyn ein hegwyddorion rheoleiddio. Mewn manau eraill rydym yn dilyn y dull sydd wedi'i nodi gan y Senedd yn gaeth.

9.43 Mae'r Llywodraeth wedi codi'r posibilrwydd o newid rhywfaint o'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i ddyletswyddau a phwerau Ofcom, yn bennaf drwy Orchymyn dan y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus¹⁷ Mae hefyd wedi nodi y bydd y Mesur Cyfathrebu newydd yn cael ei gyflwyno erbyn diwedd y Senedd hon i sicrhau bod gan wledydd y DU sector cyfathrebu sydd gyda'r gorau yn y byd, sy'n darparu cynnwys arloesol o ansawdd uchel a gwasanaethau diogel ac effeithlon. O'r herwydd ceir rhai camau gweithredu rydym yn gyfrifol amdanynt a allai newid dros y blynyddoedd nesaf.

9.44 Mae rhywfaint o ansicrwydd bob amser ynghlwm wrth y broses ddeddfwriaethol, felly nid yw'n bosibl i Ofcom ddatgan yn bendant a fydd y dyletswyddau a'r pwerau hyn yn cael eu symleiddio neu eu diddymu yn y pen draw, gan ysgafnhau'r baich ar ein rhanddeiliaid. Fodd bynnag byddwn yn gweithredu i roi gwybodaeth a chyngor i'r Llywodraeth yn y broses pryd bynnag y bydd hynny'n briodol. Yn y pen draw, ni fydd yn gyfrifol am weithredu unrhyw ddeddfwriaeth a fydd yn deillio o hyn.

¹⁷ http://www.culture.gov.uk/news/media_releases/7485.aspx.

Atodiad 1

Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Cyflwyniad

- A1.1 Cawsom 31 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad gan randdeiliaid, gan gynnwys unigolion preifat, grwpiau eiriolaeth, sefydliadau budd defnyddwyr, cwmnïau a chyrff masnach. Cawsom hefyd sylwadau drwy ddiwyddiadau a gynhaliwyd ledled y DU i rannu ein rhaglen waith arfaethedig.
- A1.2 At ei gilydd, cawsom gefnogaeth gyffredinol ar gyfer ein blaenoriaethau a'n rhaglen waith, ond roedd rhai rhanddeiliaid wedi codi materion ynghylch agweddau penodol ar ein Cynllun Blynyddol Drafft 2013/14. Rydym wedi crynhoi'r pwyntiau allweddol a godwyd ac wedi nodi ein hymatebion isod. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael yn llawn ar ein gwefan¹⁸ os yw'r ymatebydd wedi caniatáu hynny, gan gadw cyfrinachedd os gofynnwyd am hynny.
- A1.3 Mae'r crynodeb yn grwpio'r ymatebion i'r ymgynghoriad dan ein chwe diben strategol ac yn trafod y blaenoriaethau a'r meysydd gwaith mawr roeddem wedi'u cyflwyno yn y Cynllun Blynyddol Drafft.

Sylwadau cyffredinol ar y Cynllun Blynyddol Drafft

- A1.1 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at raglen waith Ofcom drwy'r Cynllun Blynyddol Drafft. Roedd yr ymatebwyr hefyd yn gwerthfawrogi rhai o nodweddion newydd y Drafft eleni:
- Strwythur cyffredinol - trefniant rhesymegol y cynllun, gyda chamau manwl yn dilyn dibenion ac agweddau strategol, a'r drafodaeth am themâu strategol ehangach;
 - Strategaeth Ofcom - amlinelliad syml o agwedd Ofcom, yn arbennig yr ymrwymiad i sut byddwn yn gweithredu i gyflawni ein dyletswyddau; a'r
 - blaenoriaethau tymor hwy - helpu i ddarparu safbwynt ar bynciau nad ydynt fel arfer yn cael eu cynnwys ac mae'r rhanddeiliad wedi gofyn amdanynt yn y gorffennol.
- A1.2 Soniodd nifer o randdeiliaid am yr angen i reoleiddio yn effeithiol ac yn gymesur, gan ganolbwyntio ar sgôp ar gyfer dadreoleiddio, tryloywder o ran dyddiadau ar gyfer cyflawni gwaith yn y Cynllun Blynyddol ac, yn fwy cyffredinol, rhoi gwybod am oedi mewn prosiectau a rhoi gwybodaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Yn benodol, mae nifer o ymatebwyr wedi gofyn i ni fod yn brydlon ac yn gymesur gyda'n ceisiadau i randdeiliaid. Mae'r Fforwm Defnyddwyr ar gyfer Cyfathrebu (CFC) wedi gofyn i ni gynnal adolygiad o arfer yr ymgynghoriad a bod rhanddeiliaid yn cael gwybod yn gyhoeddus sut cafodd yr adborth ei dderbyn, ac yn cael rhesymau am oedi gyda phrosiectau.
- A1.3 *Mae ein strategaeth gyffredinol, a nodir yn Adran 2, yn tynnu sylw at bwysigrwydd 'sut' mae Ofcom yn rheoleiddio yn effeithiol, yn dryloyw, ac yn gymesur. Byddwn yn*

¹⁸ <http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/draft-annual-plan-2013-14/?lang=cy>

parhau i ganolbwyntio ar hyn dros y flwyddyn sydd i ddod, gan nodi meysydd i'w gwella i sicrhau ein bod yn cyflawni ein strategaeth yn gyffredinol.

- A1.4 *Ar gyfer Cynllun Blynyddol y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu gwahodd rhanddeiliaid i nodi meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt yn y flwyddyn cyn i ni ddechrau paratoi'r ddogfen Drafft, fel y mae rhai ymgynghoriadau yn galw am fewnbwn. Gobeithio y bydd hyn yn galluogi rhanddeiliaid i gyfrannu'n gynharach ac yn caniatáu i ni fod yn glir ynghylch amserlenni'r dyfodol yn y Cynllun Blynyddol Drafft.*
- A1.5 *Mae adolygiad o broses ymgynghori Ofcom wedi'i drefnu; rydym yn aros am arweiniad gan Swyddfa'r Cabinet ar hyn o bryd ynghylch goblygiadau datganiad y Prif Weinidog y llynedd i Ofcom o ran adolygu rheolau a phrosesau ymgynghori'r sector cyhoeddus.*
- A1.6 *Byddwn hefyd yn adolygu cynlluniau ar gyfer dadreoleiddio a symleiddio yn 2013/14.*
- A1.7 *Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Fwrdd Ofcom gynnwys un aelod penodol i gynrychioli safbwyntiau dinasyddion Cymru.*
- A1.8 *Mae prosesau llywodraethu Ofcom wedi'u cynllunio i adnabod ac ymgorffori buddiannau defnyddwyr a dinasyddion o bob cwr o'r DU a'r Gwledydd. Yn benodol, mae gennym bwyllgorau cynghori cenedlaethol sy'n cynghori ar faterion polisi o safbwynt y Gwledydd. Hefyd, ym mis Hydref 2010, fe wnaethom sefydlu Pwyllgor Gwledydd canolog - pwyllgor y prif Fwrdd Ofcom gyda chyfrifoldeb cynghori. Mae'r Pwyllgor Gwledydd yn cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r Gwledydd.*

Hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol a dewisiadau gwybodus.

Sicrhau y ceir buddsoddiad a chystadleuaeth effeithiol mewn band eang cyfredol a chyflym iawn

- A1.9 *Rydym wedi cael nifer o sylwadau ar faterion rheoleiddio sy'n deillio o fuddsoddiad BT mewn band eang cyflym iawn. Mae Vodafone wedi gofyn i Ofcom ystyried galluoedd technolegau sy'n cael eu cefnogi gan Openreach i hyrwyddo'r farchnad NGA gystadleuol. Mae Vodafone hefyd wedi mynegi pryderon am y gwahaniaethau rhwng gofynion y cynnyrch VULA a gwasanaeth GEA Openreach.*
- A1.10 *Mae SSE Ltd. wedi codi'r pryder nad oes cynnyrch llais cyfanwerthu olynol ar gyfer y WLR yn cael ei ddatblygu ar gyfer FTTH. Mae Ffederasiwn y Gwasanaethau Cyfathrebu hefyd wedi gofyn i Ofcom sicrhau bod gwasanaethau llais sy'n addas ar gyfer CPs ailwerthwyr yn cael eu darparu dros rwydwaith ffibr BT.*
- A1.11 *Mae VULA yn broses atebion mynediad a gyflwynwyd yn 2010 o dan adolygiad marchnad mynediad lleol cyfanwerthu er mwyn cefnogi cystadleuaeth adwerthu. O fewn yr atebion mae darpariaethau sy'n caniatáu i geiswyr mynediad gyflwyno ceisiadau am ffurflenni VULA newydd a / neu amrywiadau i ffurflenni VULA presennol. Bydd hyn yn cael ei ailasesu yn ein hadolygiad marchnad mynediad sefydlog sy'n cael ei gynnal drwy gydol 2013.*
- A1.12 *Bydd cwestiynau am yr angen i ffurfio cynnyrch llais cyfanwerthu FTTH penodol yn cael eu hystyried yn yr un adolygiad marchnad mynediad sefydlog.*

- A1.13 Mae Verizon wedi mynegi pryder nad oedd ateb PIA wedi cael ei gynnwys yn y Cynllun Blynyddol, a dywedodd fod angen mynd i'r afael â hyn o hyd. Nododd y CWU ei fod yn credu y dylai darparwyr cyfathrebu ddarparu mynediad agored i'w bibellau os nad yw'r gystadleuaeth a'r dewis am gael eu cyfyngu.
- A1.14 *Ym mis Hydref 2010, ar ôl canfod pŵer sylweddol yn y farchnad o ran y farchnad mynediad lleol cyfanwerthu, rydym wedi mynnu bod yn rhaid i BT ddarparu PIA. Roedd hyn er mwyn caniatáu i ddarparwyr cyfathrebu eraill ddefnyddio rhwydweithiau mynediad sefydlog y genhedlaeth nesaf i gefnogi gwasanaethau band eang cyflym iawn, ond nid llinellau ar les. Bydd hyn yn cael ei ailasesu yn ein hadolygiad marchnad mynediad sefydlog, sy'n ymwneud â'r farchnad mynediad lleol cyfanwerthu, sy'n cael ei gynnal drwy gydol 2013.*
- A1.15 *Mae gan Ofcom y pŵer hefyd i fynnu bod gweithredwyr, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn canfod SMP, yn cynnig mynediad i'w seilwaith goddefol er mwyn annog buddsoddi effeithiol mewn seilwaith a hyrwyddo arloesedd. Byddwn yn ystyried cymesurodeb defnyddio'r pŵer hwn mewn achosion lle mae'r trafodaethau masnachol rhwng ceisiwr mynediad a pherchennog ased seilwaith penodol wedi methu dod i gytundeb.*
- A1.16 Mae Vodafone wedi gofyn am adolygiad strategol o delathrebu o ganlyniad i ddatblygu NGA, defnyddwyr yn mabwysiadu dyfeisiau mwy pwerus, a gostyngiad yn reffeniw'r sector cyfathrebu.
- A1.17 *Ar hyn o bryd rydym yn cynnal cyfres o adolygiadau marchnad telathrebu sefydlog sy'n cynnwys ystyried effeithiau band eang cyflym iawn. Yng nghyd-destun yr adolygiad hwnnw, byddwn yn ystyried a oes angen gwneud unrhyw newidiadau neu ragor o waith yng nghyswllt yr Adolygiad Strategol Telathrebu.*
- A1.18 Mae Bit Commons wedi gofyn i Ofcom arddel agwedd ragweithiol er mwyn annog defnyddio FTTH a newid iddo gan ddefnyddio offer polisi fel:
- amlinellu cynllun newid ffibr ar gyfer ardaloedd trefol;
 - rhannu seilwaith, gan gynnwys sicrhau bod PIA yn fasnachol hyfyw i fuddsoddwyr ei ddefnyddio;
 - aildefnyddio pibelli awdurdod lleol ar gyfer cyflwyno ffibr; a
 - chefnogi a phrofi model 'gweithredwr adeiladu' ar gyfer unedau sawl annedd a defnyddwyr gwledig.
- A1.19 *Mae Ofcom yn cefnogi buddsoddiad sector preifat mewn band eang cyflym iawn drwy ein fframwaith rheoleiddio, gan hyrwyddo buddsoddi a chystadleuaeth. Pan fyddwn yn gweld bod gan BT neu Openreach bŵer marchnad mewn marchnadoedd perthnasol, fel yn adolygiad marchnad mynediad lleol cyfanwerthu 2010, byddwn yn ystyried mynd i'r afael â hyn drwy reoleiddio, a lle bo'n briodol, gall hyn gynnwys mynediad i rwydweithiau/technoleg BT er mwyn cefnogi cystadleuaeth. Er enghraifft, mae PIA ar gael ar sylfaen seiliedig ar gostau a dewis y buddsoddwyr yw penderfynu a ydynt am fuddsoddi yn FTTH ai peidio yn sgil hyn. Rydym hefyd yn cefnogi buddsoddiad sector cyhoeddus mewn band eang cyflym iawn drwy ddarparu cyngor ac arbenigedd i Broadband Delivery UK.*

Hyrwyddo dewis effeithiol ar gyfer defnyddwyr drwy sicrhau bod gwybodaeth glir a pherthnasol ar gael yn hwylus

- A1.20 Mae Llais Defnyddwyr yn cefnogi ymrwymiad Ofcom i wella atebion gwybodaeth a lleihau gwybodaeth anghymesur; maent hefyd wedi gofyn i Ofcom ehangu ei waith ar y wybodaeth sy'n cael ei darparu er mwyn cynnwys cyfryngwyr hefyd.
- A1.21 *Mae rhan o'n strategaeth gwybodaeth barhaus i ddefnyddwyr yn cynnwys gweithio gyda chyfryngwyr a manteisio i'r eithaf arnynt fel ffynhonnell wybodaeth i ddefnyddwyr. Mae hyn yn cynnwys gwefannau cynrychiolwyr defnyddwyr a chymharu prisiau fel mae Llais Defnyddwyr yn ei awgrymu.*
- A1.22 Mae Sefydliad Ffilmiau Prydain (BFI) wedi annog Ofcom i ddarparu mwy o eglurder wrth ddiffinio cyflymderau band eang. Mae Virgin Media yn cefnogi ein gwaith ar newid polisi ond mae wedi nodi bod angen ystyried anghenion grymuso defnyddwyr mewn cyd-destun ehangach, gan gynnwys sut caiff gwasanaethau eu hysbysebu (gan gynnwys disgrifiadau o 3G a 4G fel 'cyflym iawn' a 'chyflym eithriadol').
- A1.23 *Mae gwybodaeth i ddefnyddwyr wrth wraidd ein gwaith grymuso, ac mae ein gwaith ar gyflymderau band eang yn parhau yn ganolog i hyn. Yn ogystal â chyhoeddi ein hymchwil ar gyflymderau yn rheolaidd, byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid eraill er mwyn sicrhau bod y wybodaeth sy'n cael ei darparu i ddefnyddwyr, eu cynrychiolwyr, a'r cyfryngwyr yn glir ac yn gywir. Mae hyn yn cynnwys y wybodaeth adeg gwerthu.*
- A1.24 *Nid yw Ofcom yn diffinio'r termau sy'n cael eu defnyddio i adnabod gwahanol haenau'r gwasanaeth band eang; mae'n defnyddio'r rheini mae'r Comisiwn a'r rhanddeiliaid wedi'u mabwysiadu yn gyffredinol. Ar gyfer cyflym iawn, mae hyn yn golygu cysylltiadau sydd â phrif gyflymder (fel yr hysbysebwr) o 30Mbit yr eiliad neu uwch. Ar gyfer band eang eithriadol o gyflym, mae hyn yn golygu cysylltiadau sydd â phrif gyflymder (fel yr hysbysebwr) o 100Mbit yr eiliad neu uwch.*

Datblygu a gweithredu polisiâu a fydd yn ei gwella'r broses o symud yn hwylus rhwng darparwyr cyfathrebiadau

- A1.25 Roedd nifer o ymatebwyr yn croesawu ymrwymiad Ofcom i newid, er bod nifer o faterion wedi'u codi:
- roedd pryder cyffredinol nad oedd llawer o gynnydd wedi'i wneud gyda'r amcan hwn ers y cychwyn, gyda diffyg eglurder ar y camau pellach sydd wedi'u cynllunio;
 - mynegodd rai rhanddeiliaid awydd i gynyddu sgôp ein gwaith hyd yma: Roedd tri yn poeni bod y cynigion cyfredol yn ymwneud â newid llinell sefydlog yn unig; mae BT wedi gofyn am ystyried cwsmeriaid cebl;
 - Mae SSE Limited a Ffederasiwn y Gwasanaeth Cyfathrebu (FCS) wedi mynegi eu cefnogaeth i brosesau newid GPL ac wedi annog Ofcom i ystyried materion posibl y dyfodol yn weithredol yn ein gwaith yn y maes hwn, fel rhyngweithredu a chludo cynnwys; ac
 - mae Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu (CWU) wedi mynegi pryderon bod contractau adnewyddadwy yn rhwystrau sy'n atal cwsmeriaid preswyl rhag newid.

- A1.26 *Bydd sicrhau newid effeithiol a chwalu rhwystrau i newid yn parhau yn flaenoriaeth i Ofcom. Mae ein hadolygiad o ddefnyddwyr yn newid yn canolbwyntio ar y gymysgedd gyfredol o brosesau ar gyfer newid rhwng darparwyr a llwyfannau ar rwydwaith copr Openreach. Mae hwn yn ymarfer cymhleth, ac ni cheir barn gyffredin ymysg rhanddeiliaid nac o fewn y diwydiant, ynghylch yr hyd sydd ei angen. Yn dilyn ymgynghoriad yn 2012, rydym wedi casglu'r dystiolaeth yn llawn ac wedi adolygu'r dewisiadau. Rydym yn bwriadu cyhoeddi datganiad ynghylch y mater hwn yn ystod haf 2013. Yna byddwn yn ystyried yr angen am ddiwygio newid mewn rhwydweithiau a sectorau eraill.*
- A1.27 *Cadarnhaodd Ofcom ym mis Medi 2011 y byddai'n rhaid tynnu contractau sy'n adnewyddu'n awtomatig yn llwyr o ddiwedd mis Rhagfyr 2012 ymlaen ar gyfer cwsmeriaid llinell sefydlog preswyl a busnesau bach.*

Sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau teledu drwy dalu

- A1.28 *Mynegodd BT a Virgin Media bryderon am gystadleuaeth yn y maes hwn, ac maent wedi gofyn i Ofcom fonitro, a gweithredu fel bo'n briodol, er mwyn mynd i'r afael â'r materion sy'n codi. Croesawodd BFI gynlluniau Ofcom i fonitro a chyflwyno adroddiad ar ddatblygiadau'r farchnad Teledu drwy Dalu yng nghyswllt ffilmiau.*
- A1.29 *Fel y nodwyd, byddwn yn parhau i fonitro'r datblygiadau yn y farchnad yn weithredol, gan gynnwys wrth ddarparu cynnwys, er mwyn sefydlu a oes angen gweithredu.*

Adolygu'r fframwaith ar gyfer adrodd ariannol rheoleiddiol mewn telegyfathrebu

- A1.30 *Croesawodd nifer o ymatebwyr adolygiad Ofcom o'r fframwaith ar gyfer adrodd ariannol rheoleiddiol, ond roeddent yn poeni am yr oedi. Awgrymodd BT y dylai'r maes hwn gael blaenoriaeth. Mynegodd BT a Virgin Media bryderon fod adolygiad o ogwydd costau bellach wedi cael ei dynnu. Nododd Verizon ei fod yn credu y dylai rhanddeiliaid ddarparu mwy o fanylion yn hytrach na llai.*
- A1.31 *Gallwn gadarnhau ein bod yn bwriadu cyhoeddi ymgynghoriad a datganiad yn 2013/14 ynghylch y fframwaith adrodd rheoleiddio. Byddwn hefyd yn cychwyn ar y prosiect gogwydd costau. Rydym yn croesawu safbwyntiau'r rhanddeiliaid ar y mater hwn fel rhan o'n proses ymgynghori sydd i ddod.*

Cyfrannu at gysondeb rheoleiddio cyfathrebu yn Ewrop drwy BEREC ac ERGP

- A1.32 *Mae BT a Vodafone wedi amlinellu eu cefnogaeth i waith Ofcom gyda BEREC ac ERGP. Dywedodd y ddau gwmni y byddent yn hoffi gweld Ofcom yn cyhoeddi ei bapurau a'i ymatebion i BEREC. Mae Vodafone wedi argymhell y dylai Ofcom sefydlu pwyllgor er mwyn rhoi gwybod i'r diwydiant am y pynciau allweddol sy'n cael eu trafod mewn fforymau rheoleiddio Ewropeaidd a darparu dulliau i'r diwydiant roi gwybod am sefyllfa Ofcom. Gofynnodd Verizon i Ofcom annog NRAs i gymryd rhan weithredol mewn mentrau BEREC er mwyn cynyddu cysoni rheoleiddio ar draws yr UE.*
- A1.33 *Mae Ofcom yn gweithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid ac rydym yn awyddus i sicrhau ein bod yn deall eu sefyllfa, yn enwedig cyn cyfarfodydd rhyngwladol allweddol. Rydym yn cynnal cyfarfodydd â rhanddeiliaid rhyngwladol lle rydym yn canolbwyntio ar roi'r wybodaeth ddiweddaraf i rhanddeiliaid am bynciau allweddol (presennol a'r*

rhai sydd i ddod) ac am gael adborth gan y diwydiant. Mae'r cyfarfodydd hyn yn aml yn cael eu trefnu i gyd-fynd â chyfarfodydd BEREC perthnasol lle mae allbynnau allweddol BEREC yn cael eu trafod. Mae Ofcom hefyd yn nodi bod manteision mewn cael rhanddeiliaid y DU i ymuno â rhestr bostio BEREC er mwyn sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau diweddaraf, a hefyd er mwyn ymgysylltu'n uniongyrchol â BEREC ynghylch y materion allweddol sydd o ddiddordeb iddynt.

- A1.34 Mae BT wedi annog Ofcom i sicrhau ei fod yn canolbwyntio'n barhaus ar y gwasanaethau mynediad sydd ar gael ar delerau wedi'u rheoleiddio ac anwahaniaethol ledled Ewrop.
- A1.35 Nododd Chaltel nad oedd y Cynllun Blynyddol Drafft yn adnabod y "cyrff creu safonau" sydd fwyaf perthnasol i farchnadoedd byd-eang y DU a'r UE, ac nid yw'n esbonio sut bydd Ofcom yn gweithio gyda llywodraeth y DU, y Comisiwn Ewropeaidd a BEREC i weithredu'r maes gwaith hwn.
- A1.36 *Mae gan Ofcom gyfrifoldeb dros arwain y DU yn Sector Safoni yr Undeb Telathrebu Rhyngwladol (ITU-T). Serch hynny, nid yw'r cylch gwaith hwn yn ymestyn i ymgysylltu gweithredol wrth greu safonau, mae Ofcom yn credu mai cyfrifoldeb y diwydiant telathrebu priodol yw hyn. Os oes pryderon penodol ynghylch cystadleuaeth wrth ddatblygu safonau ar gyfer pwyntiau terfynu rhwydwaith neu offer neu wasanaethau rhwydwaith eraill, dylid codi'r rhain yn uniongyrchol ag Ofcom gan esbonio'n fanwl beth yw'r materion a sut maent yn effeithio, neu sut y gallent effeithio ar gystadleuaeth.*

Monitro dulliau gwaelodol o reoli traffig

- A1.37 Mynegodd BT ei siom nad yw Ofcom yn bwriadu ymyrryd yn arferion rheoli traffig gweithredwyr symudol sy'n rhwystro mynediad i wasanaethau VoIP. Awgrymodd CWU y dylai Ofcom gyflwyno safonau sylfaenol ar gyfer rheoli traffig er mwyn gweithredu yn erbyn arferion cyfyngedig a gormod o draffig.
- A1.38 *Byddwn yn parhau i fonitro agweddau rheoli traffig gwirioneddol fel rhan o'n dyletswydd i adrodd ar seilwaith. Roeddem wedi diweddarau ein sefyllfa yn ein datganiad Adroddiad Seilwaith a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2012. Yn y ddogfen hon roeddem wedi ystyried a yw arferion rheoli traffig yn cyd-fynd â'r egwyddorion rydym wedi'u gosod allan yn ein datganiad Niwtraliaeth Net. Dyma ein barn ni o'r sefyllfa ar hyn o bryd:*
- ar hyn o bryd nid oes dim pryderon sylweddol yng nghyswllt yr arferion rheoli traffig sy'n cael eu defnyddio gan ddarparwyr gwasanaeth rhyngwryd; ac*
 - mae rhai gweithredwyr symudol yn rhwystro rhai gwasanaethau, fel gwasanaeth VoIP Skype. Mae hyn yn peri pryder, ond ar hyn o bryd rydym o'r farn y dylai cystadleuaeth rhwng gweithredwyr fod yn ffordd effeithiol o fynd i'r afael â'r broblem, ar yr amod bod defnyddwyr yn cael gwybod am yr arferion hyn. Nid ydym wedi canfod unrhyw arferion rheoli traffig sy'n cael eu defnyddio gan weithredwyr symudol ac nad ydynt yn cael eu hadrodd yn gyhoeddus; ond*
 - fel yr oeddem wedi'i ddweud yn ein datganiad Niwtraliaeth Net ym mis Tachwedd 2011, rydym yn dal i fod o'r farn efallai y bydd angen ymyrryd i ddiogelu mynediad defnyddwyr i'r rhyngwryd agored yn y dyfodol; bydd allbwn y rhaglen monitro yn darparu sylfaen dystiolaeth i helpu i benderfynu pryd gallai ymyrryd fod yn briodol.*

Cystadleuaeth arall ac ymatebion dewis ar sail gwybodaeth

- A1.39 Mae BT wedi galw am adolygiad o'r USO, gan gynnwys biliau manwl ac a oes ffôn talu ar gael.
- A1.40 *Gall Ofcom gyflwyno argymhellion ar sgôp yr USO, ond cyfrifoldeb y Llywodraeth yw dechrau adolygiad o'r fath.*
- A1.41 Roedd nifer o'r ymatebwyr yn dal i gredu y dylai Ofcom adolygu'r Amodau Cyffredinol i sicrhau eu bod yn dal i reoleiddio'n effeithiol. Awgrymodd tri y dylid ehangu'r Amodau Cyffredinol i gynnwys darparwyr gwasanaethau cyfathrebu eraill yn hytrach na'r CSP gwreiddiol yn unig.
- A1.42 *Byddwn yn ystyried yr angen am adolygiad o'r Amodau Cyffredinol yn 2013/14.*
- A1.43 Awgrymodd unigolyn o'r enw Ying Huang y dylai ymdrechion Ofcom i hyrwyddo dewis ar sail gwybodaeth fod yn fwy rhagweithiol.
- A1.44 *Mae gennym raglen waith sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth glir, gywir a hygyrch i ddefnyddwyr, ond dim ond pan na fydd y diwydiant yn cyrraedd y safonau y dylai Ofcom ymyrryd fel darparwr gwybodaeth. Ceir enghreifftiau o Ofcom yn darparu gwybodaeth yn uniongyrchol yn ein cyhoeddiad o'r ymchwil i gyflymderau band eang a data cwynion defnyddwyr. Mae'r canllawiau i ddefnyddwyr sydd wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan hefyd yn darparu gwybodaeth a chyngor i ddefnyddwyr a'u cynrychiolwyr.*
- A1.45 Mae Vodafone wedi cefnogi'r rhaglen o adolygiadau o'r farchnad ond mae wedi argymhell y dylid mabwysiadu agwedd fwy dynamig, gan ddibynnu ar y farchnad. Mae Vodafone wedi cymeradwyo adolygiadau o'r farchnad sy'n ystyried tueddiadau ar draws y farchnad ac nad ydynt wedi'u cyfyngu i ddadansoddiad lefel Ewropeaidd.
- A1.46 *Wrth ddylunio rhaglen o adolygiadau'r farchnad, fe wnaethom ystyried ein goblygiadau cyfreithiol o dan fframwaith y Comisiwn Ewropeaidd a'r datblygiadau yn y farchnad. Golyga hyn, er enghraifft, bod nifer o adolygiadau mynediad sefydlog (ISDN30, mynediad linell cyfanwerthu, mynediad lleol cyfanwerthu ac ati) a gynhaliwyd ar wahân yn y gorffennol nawr yn cael eu cyflawni ar yr un pryd er mwyn cydnabod y cysylltiadau pwysig iawn sydd rhyngddynt.*
- A1.47 *Gan ddilyn y newidiadau i'r fframwaith Ewropeaidd yn 2011, mae bellach yn ofynnol drwy statud i Ofcom adolygu rhai marchnadoedd penodol bob tair blynedd. Byddwn yn parhau i gyflawni ein dyletswyddau yng nghyswllt hyn, gan gynnwys amseru, a byddwn yn parhau i adolygu pa farchnadoedd rydym yn ystyried y dylent gael eu hadolygu, yn gyson â'n dyletswyddau statudol. Rydym hefyd yn arddel safbwynt cyfannol er mwyn sicrhau bod y pecyn rheoleiddio cyffredinol yn gyson.*
- A1.48 Mae BT wedi gofyn i Ofcom lansio adolygiad o'r sector symudol er mwyn archwilio effeithiau cyfnerthu marchnadoedd symudol a marchnadoedd symudol sefydlog cydgyfeiriol.
- A1.49 *Mae Ofcom wedi ystyried y gystadleuaeth yn y sector symudol droeon yn ystod y blynyddoedd diwethaf:*
- *yn 2009 fe wnaethom gynnal adolygiad o'r sector symudol a ddaeth i'r casgliad nad oedd angen dim ymyriadau rheoleiddio (e.e. rheoleiddio mynediad cyfanwerthu) ar y pryd; ac*

- *fe wnaethom ystyried y gystadleuaeth eto yn 2010 a 2011 pan oeddem yn cefnogi proses adolygu uno yn ystod trafodion T-Mobile / Orange, ac ar wahân yng nghyd-destun y dyluniad yr arwerthiant ar gyfer 800MHz a 2.6GHz.*

- A1.50 *Bydd effaith bosibl cydgyfeirio symudol sefydlog yn cael ei hystyried yn ystod y flwyddyn nesaf yng nghyd-destun adolygiadau'r farchnad telathrebu unigol, er enghraifft, yr adolygiad o'r farchnad band cul a'r adolygiad o'r farchnad mynediad sefydlog. Ac ystyried hyn, rydym yn credu ei bod yn rhy gynnar i ni ymgymryd â mwy o waith yn y maes hwn yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.*
- A1.51 Mae Verizon wedi gofyn i Ofcom barhau gyda'i gynnig i gynnal adolygiad o'r farchnad telathrebu busnes ehangach.
- A1.52 *Gan adeiladu ar yr Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes diweddar, efallai mai un flaenoriaeth yn y dyfodol fydd cynnal adolygiad manylach o'r newidiadau yn anghenion pob busnes y mae angen cysylltedd data arnynt ac i ba raddau mae darparwyr yn ymateb i'r newidiadau hyn. Ar hyn o bryd rydym yn cyflawni mwy o ymchwil yn y maes hwn i ddeall profiad cwsmeriaid o delathrebu busnes. Rhoddir ystyriaeth i ragor o waith yn y maes hwn yng ngoleuni unrhyw dystiolaeth a fydd yn dod i'r fei am broblemau posibl.*
- A1.53 Mae Vodafone wedi mynegi pryder bod prosesau hir wrth asesu ymchwiliadau'r Ddeddf Cystadleuaeth yn atal rhanddeiliaid rhag codi materion gydag Ofcom ac yn effeithio ar gystadleuaeth.
- A1.54 *Mae Ofcom yn cytuno ei bod yn hanfodol bod ymchwiliadau i gystadleuaeth yn cael eu cwblhau yn brydlon. Yn ein canllawiau gorfodi diwygiedig¹⁹ rydym wedi nodi rhai o'r camau y byddwn yn eu cymryd yn y dyfodol i sicrhau bod ymchwiliadau o'r fath yn cael eu cwblhau cyn gynted â phosibl.*
- A1.55 Cynigiodd dri nifer o ymyriadau i ysgogi cystadleuaeth yn y sector. Mae'r rhain yn sôn yn fras am y meysydd polisi yn nibenion strategol Ofcom, ac yn cael eu crynhoi isod:

Annog defnyddio rhwydwaith yn fwy effeithiol ac yn rhatach drwy adolygu pwerau'r Cod

Mae pwerau Ofcom o dan y Cod Cyfathrebu Electronig wedi'u nodi yn y ddeddfwriaeth felly mae unrhyw adolygiadau i'r pwerau hynny yn fater i'r Llywodraeth. Rydym yn sylwi bod Comisiwn y Gyfraith wedi cynnal adolygiad o'r Cod yn ddiweddar, a byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth os bydd yn cynnig unrhyw newidiadau yn y dyfodol.

¹⁹ <http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/consultations/draft-enforcement-guidelines/statement/statement.pdf>

Dylid adolygu AIP ar y sbectrum adnoddau cyhoeddus (e.e. 900 MHz a 1800 MHz)	<i>Mae Ofcom wedi cael cyfarwyddyd gan y Llywodraeth i adolygu'r ffioedd sy'n daladwy ar gyfer y trwyddedau ffonau symudol 900 a 1800 MHz er mwyn i'r rhain adlewyrchu gwerth llawn marchnad y bandiau hyn. Ar hyn o bryd, mae gan Ofcom brif eitem waith ar gyfer ystyried hyn. Cyhoeddodd Ofcom ymgynghoriad ar AIP mewn darlledu ym mis Mawrth 2013, ac mae disgwyl datganiad yn C2 2013/14.</i>
Cefnogi amcanion yr UE o ran ysgogi gostyngiadau pellach yng nghostau cyfanwerthu crwydro	<i>Rydym yn cefnogi'r Comisiwn Ewropeaidd yn frwd i gyflwyno costau crwydro is.</i>
Sicrhau bod y broses mudo i LRIC yn llwyr yn parhau ar gyfer cyfraddau terfynu symudol a sefydlog	<i>Bydd MTRs yn LRIC llwyr o 1 Ebrill 2013 ymlaen o ganlyniad i'n penderfyniad MCT 2011 a gafodd ei gadarnhau yn 2012.</i> <i>Fe wnaethom gyhoeddi ein cynigion ar gyfer cyfraddau terfynu sefydlog (FTRs) ym mis Chwefror 2013. Rydym wedi cynnig i'r FTRs newid i LRIC yn llwyr o 1 Hydref 2013 ymlaen pan fydd y prosesau rheoli ffioedd newydd yn dod i rym. Mae hyn yn amodol ar ymgynghori.</i>
Rheoleiddio costau mewnbwn sylweddol eraill yn agosach, er enghraifft costau am-yn-ôl	<i>Cafodd y cynnyrch am-yn-ôl symudol ei ystyried yn Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes a gwblhawyd yn ddiweddar.</i>
Cymryd camau i leihau ffioedd trawsgludo rhoddwyr	<i>Mae pryderon tri o bobl ynghylch ffioedd trawsgludo rhoddwyr wedi'u nodi.</i>
Sicrhau bod prisiau cyfanwerthu wedi'u hystyried yn briodol yn yr ymgynghoriad sydd i ddod ar godi prisiau	<i>Byddwn yn ystyried yr holl faterion a godwyd yng nghyswllt ein hymgyngoriad i godi prisiau ar gontract, gan gynnwys unrhyw ffioedd sy'n berthnasol i gyfanwerthu.</i>
A1.56	Roedd BT dal yn siomedig nad oedd adolygiad o gyfeiriaduron wedi'i gynnwys yn y Cynllun Blynyddol Drafft, ac anogodd Ofcom i ymgymryd â hyn cyn gynted â phosibl.
A1.57	<i>Cafodd yr adolygiad o wybodaeth am gyfeiriadur cyfanwerthu ei ohirio oherwydd ystyriaeth gyfreithiol barhaus. Erbyn i hyn gael ei ddatrys, roedd yn amlwg nad oedd yn briodol ailgychwyn yr adolygiad gan ddilyn o'r ymgynghoriad blaenorol. Felly mae ailgychwyn adolygiad o'r materion hyn yn amodol ar flaenoriaethau adnoddau, ond rydym yn awyddus i glywed safbwyntiau rhanddeiliaid ynghylch lle dylid rhoi blaenoriaeth.</i>

- A1.58 Mae'r FCS wedi gofyn i Ofcom roi mesurau ar waith ar unwaith er mwyn creu mwy o gywerthedd mynediad i ddyfeisiau symudol.
- A1.59 *Nid yw Ofcom wedi gorfodi mynediad cyfanwerthu yn y sector dyfeisiau symudol. Roedd ein hasesiad o'r sector dyfeisiau symudol yn 2009 yn cefnogi'r safbwynt hwn, lle canfu nad oedd angen ymyriad ar y pryd. Er 2009, rydym wedi nodi llwyddiant parhaus MVNOs, er enghraifft, gwasanaeth Tesco, ac ymgeiswyr newydd fel Giff Gaff. Yn ogystal, rydym yn sylwi bod darparwyr llinell sefydlog fel Talk Talk wedi dod yn rhan o'r farchnad dyfeisiau symudol. Gan nad oes tystiolaeth o broblemau cystadleuaeth yn y maes hwn, nid oes gennym gynlluniau i gynnwys adolygiad o'r farchnad mynediad cyfanwerthu symudol yn ein Cynllun Blynyddol.*
- A1.60 Mae Chaltel wedi gofyn i Ofcom sicrhau bod safonau'n cael eu datblygu ar ôl mudo i dechnolegau newydd er mwyn sicrhau nad yw hyn yn cael effaith andwyol ar y 'gofynion hanfodol', fel mynediad di-dor i wasanaethau brys, argaeledd y gwasanaeth a didwyllledd rhwydwaith.
- A1.61 *Caiff gofynion argaeledd a didwyllledd rhwydwaith cyhoeddus a gweithredwyr gwasanaeth eu nodi gan fwyaf yn Adran 105A-D Deddf Cyfathrebu 2003. Ym mis Mai 2011, cyhoeddodd Ofcom arweiniad ar sut byddai'n asesu cydymffurfriad gweithredwr â'r gofynion hyn, petai'n penderfynu archwilio²⁰. Nid yw ein hagwedd yn seiliedig ar bennu safonau penodol i weithredwyr llynu wrthynt, gan fod amrywiaeth y rhwydwaith a'r gwasanaethau, yn ogystal â gofynion cwsmeriaid, mor eang. Yn lle hynny, rydym yn canolbwyntio ar sicrhau bod gweithredwyr wedi rhoi ystyriaeth briodol i'r risgiau penodol sy'n berthnasol ym mhob achos, ac wedi mynd i'r afael â nhw.*

Sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm

Clirio sbectrwm yn amserol ym mandiau 800 MHz a 2.6 GHz er mwyn gallu rhoi dyfarniadau newydd, ar yr un pryd â lliniaru ar faterion cydfodolaeth

- A1.62 Mae The Voice of the Listener and Viewer (VLV) wedi mynegi pryderon am agwedd Ofcom at amddiffyn gwasanaethau PSB rhag ymyrraeth a achosir gan wasanaethau 4G newydd. Dywedodd y gallai gwasanaethau presennol sy'n gorfod cael sbectrwm ddioddef o ganlyniad i gyflwyno'r gwasanaethau data newydd.
- A1.63 *Mae Digital Mobile Spectrum Limited (DMSL) yw'r cwmni gweithredwr rhwydwaith symudol sydd wedi'i greu i lliniaru ymyrraeth sy'n cael ei achosi wrth gyflwyno 4G ar deledu daearol digidol (DTT). Mae DMSL yn sefydlu nifer o fesurau er mwyn sicrhau bod derbyniad gwasanaethau teledu (gan gynnwys gwasanaethau PSB) yn parhau i gydfodoli ochr yn ochr â gwasanaethau symudol. Mae'r rhain yn cynnwys:*
- darparu hidlyddion i gartrefi a allai fod yn debygol o ddioddef ymyrraeth; ac
 - mewn achosion lle nad yw hidlyddion yn ddigon i oresgyn yr ymyrraeth, rhoddir rhagor o gefnogaeth, a allai gynnwys ailgyfeirio erialau ar y to i drosglwyddyddion eraill, neu mewn nifer fach o achosion, newid llwyfan e.e. i Freesat.

²⁰ <http://stakeholders.ofcom.org.uk/telecoms/policy/security-resilience/implementation-eu-framework/?lang=cy>

- A1.64 Mae'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebu (CCP) a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl (ACOD) wedi gofyn i Ofcom fonitro'r targed 98% ar gyfer darpariaeth band eang symudol, a bod Ofcom yn parhau i gefnogi atebion sy'n seiliedig ar y farchnad.
- A1.65 *Byddwn yn mesur darpariaeth a phroses gyflwyno 4G drwy ein hadroddiadau blynyddol ar y Farchnad a'r Seilwaith Cyfathrebu. Byddwn yn parhau i fesur datblygiadau o ran y dechnoleg a allai helpu'r farchnad i ddarparu gwasanaethau symudol gwell, fel datblygiadau mewn celloedd bach. Byddwn yn parhau i adolygu a oes dulliau rheoleiddio eraill y gallem eu mabwysiadu a fyddai'n arwain at wasanaethau symudol gwell.*

Gweithredu'r strategaeth UHF er mwyn gallu rhyddhau 700 MHz o bosibl ar gyfer defnydd symudol wedi'i gysoni

- A1.66 Mae'r BFI a'r Grŵp Teledu Digidol wedi dweud y dylid defnyddio a delio â pholisïau'r sbectrwm yn effeithiol er mwyn sicrhau nad yw hyn yn effeithio'n andwyol ar y llwyfan DTT.
- A1.67 Mae'r VLV wedi mynegi pryderon ynghylch llai o ddyraniad i'r sbectrwm PSB ar y llwyfan DTT fel rhan o broses ailddefnyddio'r sbectrwm UHF, a'i effaith ar ddefnyddwyr a hyfywedd DTT yn y dyfodol.
- A1.68 *Fel sydd wedi'i nodi yn ein datganiad ar Strwythur UHF ym mis Tachwedd 2012, rydym yn bwriadu sicrhau bod DTT yn parhau i ddarparu manteision pwysig yn yr hirdymor, ac yn arbennig yn cynnal sianeli PSB a fydd ar gael bron yn gyffredinol ac yn cynnal dewis gwylwyr o sianeli a llwyfannau digidol. Yn benodol, bydd ein hagwedd at ryddhau'r band 700 MHz o gwbl yn y dyfodol, neu wrth gyflwyno technolegau newydd sy'n gallu defnyddio "gofod gwyn" yn y sbectrwm rhyngddalennog â DTT, yn gyson â'r nod hwn.*
- A1.69 *Rydym yn bwriadu dyfarnu'r band 600 MHz dros dro, a fydd yn addas ar gyfer teledu HD. Roeddem wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar 6 Chwefror 2013, ac wedi gofyn i randdeiliaid roi gwybod i ni beth yw eu bwriad o ran gwneud cais am y drwydded.*

Cefnogi'r gwaith o ryddhau bandiau 2.3 GHz a 3.4 GHz er mwyn bodloni'r galw am sbectrwm

- A1.70 Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Ofcom ddiffinio targedau darpariaeth sylfaenol i boblogaeth ar lefel ranbarthol ar gyfer rhyddhau'r sbectrwm yn y bandiau sbectrwm 2.3 GHz a 3.4 GHz yn y dyfodol, ac mae wedi gofyn i Ofcom gyhoeddi ymrwymadau crwydro rhwydwaith darpariaeth ddaearyddol a gwledig.
- A1.71 *Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn gwerthu'r sbectrwm 2.3 GHz a 3.4 GHz, ac felly nid penderfyniad Ofcom yw'r materion sydd wedi'u codi.*

Datblygu rhaglen waith sbectrwm sy'n edrych tua'r dyfodol

- A1.72 Mae Vodafone ac Intellect wedi gofyn i Ofcom gyhoeddi strategaeth sbectrwm sy'n edrych tua'r dyfodol a rhoi barn am y gweithgareddau rheoleiddio a fwriedir. Awgrymodd Vodafone y dylid gwneud hyn ar gyfer pob band ac mewn amserlen o dair blynedd. Mae hefyd wedi gwneud cais penodol a bod rheolau rheoleiddio band E yn cael eu rhoi ar waith erbyn C2 2013/14.

- A1.73 *Fel sydd wedi'i nodi yn y Cynllun Blynyddol hwn, rydym yn datblygu rhaglen waith tymor hwy a fydd yn nodi ein blaenoriaethau allweddol dros y pump i saith mlynedd nesaf. Bydd hyn yn nodi unrhyw sialensiau a chamau gweithredu yn y dyfodol. Efallai y bydd yn canolbwyntio ar fandiau allweddol, neu ar ddatblygiadau a materion fesul sector, fel sy'n briodol. Mae ein gwaith ar fand E eisoes ar y gweill nawr ac mae ymgynghoriad wedi'i drefnu ar gyfer C1 2013/14.*

Symud ymlaen i ryddhau sbectrwm

- A1.74 Nododd Vodafone fod yn rhaid i Ofcom barhau i weithio ar glirio a rhyddhau'r sbectrwm er budd economi ehangach y DU. Rhaid cwblhau cynllun band Ewropeaidd manwl ar gyfer y band 700 MHz erbyn Cyngres Radio'r Byd yn 2015.
- A1.75 *Mae ein rhaglen waith ar ryddhau'r sbectrwm yn amlinellu gweithgareddau allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. O dan flaenoriaethau ein sbectrwm, rydym wedi amlinellu'r camau allweddol ar gyfer gweithredu strategaeth sbectrwm Ofcom, gan gynnwys ymgysylltu'n rhyngwladol ar gysoni a chynlluniau band i'r dyfodol.*
- A1.76 *Mae'r Comisiwn wedi gorfodi'r CEPT i ddarparu cynllun band Ewropeaidd dros dro ar gyfer y band 700 MHz erbyn mis Tachwedd 2014. Bydd hwn yn cael ei gwblhau ar ôl WRC15. Rydym yn ymgysylltu â'r broses CEPT yn llawn ar gyfer datblygu'r cynllun band hwn.*

Galluogi defnyddio dyfeisiau gofod gwyn yn y DU

- A1.77 Mae RadioCentre wedi gofyn i ni ymchwilio ymhellach i sut mae technoleg gofod gwyn yn cael ei defnyddio.
- A1.78 *Fel y disgrifir yng Nghynllun Blynyddol 2013/14, rydym yn canolbwyntio ar ddefnyddio technoleg gofod gwyn yn y band teledu UHF ac effaith hyn ar wasanaethau darlledu teledu a PMSE yn y band hwnnw. Nid ydym yn credu y bydd y dyfeisiau bwlch gwyn hyn yn cael unrhyw effaith ar ddarlledu radio yn y band VHF.*

Rheoli sbectrwm ac ymyrraeth ar gyfer Gemau'r Gymanwlad Glasgow 2014

- A1.79 Mae RadioCentre wedi gofyn i ni fanylu ar sut bydd sicrhau sbectrwm Gemau'r Gymanwlad 2014 yn effeithio ar radio.
- A1.80 *Rydym yn cydnabod y bydd gwasanaethau'r sector preifat sydd heb eu gwarantu (fel cyfryngau heb hawliau) yn chwarae rhan hollbwysig yn llwyddiant Gemau Glasgow. Serch hynny, nid ydynt yn amodol ar warant y Llywodraeth, nac yn cael eu cyfeirio gan CWG14 na phobl eraill sy'n gyfrifol yn uniongyrchol am drefnu'r gemau. Fel y dywed yng nghynllun y sbectrwm ar gyfer y Gemau, rydym yn cydnabod bod angen i'r defnydd hwn gael ei gydlynu'n effeithiol gan warantu defnydd, ac er nad ydym yn bwriadu sicrhau darpariaeth sbectrwm arbennig ar gyfer gofynion o'r fath, byddwn yn sicrhau bod trefniadau trwyddedu priodol ar waith ar gyfer y defnydd hwn. Byddwn yn cyhoeddi rhagor o fanylion trefniadau trwyddedu ar gyfer CWG14 yn ein datganiad ar gynllun sbectrwm y Gemau, a fydd yn cael ei gyhoeddi maes o law.*

Ymatebion eraill i'r sbectrwm

- A1.81 Mae'r FCS wedi gofyn am gyflawni adolygiad o'r sbectrwm gwasanaethau brys a darparwyr seilwaith cenedlaethol critigol yn ystod y flwyddyn ariannol hon.
- A1.82 *Mae Ofcom yn gweithio gyda'r Swyddfa Gartref ar ofynion sbectrwm gwasanaethau brys y dyfodol. Fel y nodwyd yn ein Datganiad Strategaeth UHF, mae'r mater hwn yn berthnasol i ryddhau'r band 700MHz yn y dyfodol o bosibl. Gall y cwmnïau sy'n gysylltiedig â'r Seilwaith Cenedlaethol Critigol gael gafael ar y sbectrwm drwy gael mynediad i gynnyrch trwydded agored Ofcom, neu drwy gymryd rhan mewn dyfarnu hawliau mynediad newydd i'r sbectrwm. Mae'n ddefnyddiol i Ofcom gael gwybod am ofynion cyffredinol y sbectrwm er mwyn cefnogi gofynion CNI yn y dyfodol.*
- A1.83 Mae Intellect wedi gofyn i Ofcom arddel agwedd fwy rhagweithiol at ymgysylltu rhyngwladol a dylanwadu ar faterion y sbectrwm.
- A1.84 *Mae Ofcom yn ymgysylltu'n rhagweithiol ar draws ystod eang o bwyllgorau a chyfarfodydd y sbectrwm rhyngwladol, gan roi blaenoriaeth i'r meysydd hynny rydym yn ystyried y gallwn gael yr effaith fwyaf a darparu'r manteision gorau. Rydym yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i'n helpu ni i bennu blaenoriaethau ac i sicrhau ein bod yn deall pryderon rhanddeiliaid y DU cyn y cyfarfodydd perthnasol.*
- A1.85

Hyrwyddo cyfleoedd i gyfranogi

Sicrhau bod y gwasanaeth post cyffredinol yn cael ei ddarparu

- A1.86 Mynegodd nifer o ymatebwyr bryderon ynghylch gwahanol agweddau ar y gwasanaeth post:

Ymateb i'r ymgynghoriad

Mae CWU yn credu bod angen ymyriadau rheoleiddio i osod amodau gwasanaeth ar gystadleuaeth o un pen i'r llall.

Anogodd Pwyllgor Rheoli Gogledd Iwerddon (ACNI) Ofcom i fonitro effaith unrhyw ddatblygiad ar ddarpariaeth y Ddyletswydd Gwasanaeth Cyffredin o ran cystadleuaeth o un pen i'r llall.

Croesawodd Intellect ddull gweithredu Ofcom o ran darpariaeth ac amddiffyniad parhaus y Ddyletswydd Gwasanaeth Cyffredin, ond gan fynegi pryder ynghylch cystadleuaeth o un pen i'r llall, a gofynnodd i Ofcom amlinellu pa gamau mae'n bwriadu eu cymryd.

Ymateb Ofcom

Roeddem wedi cyhoeddi'r canllawiau terfynol ynghylch cystadleuaeth o un pen i'r llall ar 27 Mawrth. Mae'n nodi'n glir sut y byddwn yn asesu effaith cystadleuaeth ar y gwasanaeth cyffredinol a'n dull gweithredu o ran ymyrryd os bydd angen. Rydym yn nodi bod y Post Brenhinol wedi dweud yn ei ymatebion nad oedd angen ymyrryd eto.

Mynegodd CWU siom ynghylch oedi Ofcom o ran sefydlu mesurau effeithlonrwydd.

Roeddem wedi ymrwymo i fonitro effeithlonrwydd y Post Brenhinol mewn datganiad ym mis Mawrth 2012. Rydym wedi bod yn gwneud hynny ers hynny. Ym mis Hydref, yn y canllawiau o un pen i'r llall drafft, roeddem wedi nodi ein bod am ddechrau prosiect i edrych ar effeithiolrwydd y Post Brenhinol. Roeddem wedi dechrau ar y prosiect hwn bryd hynny. Nodwyd yn y Cynllun Blynyddol Drafft y byddai'r gwaith yn parhau yn 2013/14.

Gofynnodd Llais Defnyddwyr i Ofcom barhau i weithio gyda'r Post Brenhinol i gael gwell dealltwriaeth ynghylch costau'r gwasanaeth cyffredinol.

Roeddem wedi cyhoeddi'r datganiad terfynol ar ein hadolygiad o anghenion defnyddwyr ym mis Mawrth 2013, ac yn hwnnw, roeddem wedi penderfynu peidio gwneud unrhyw newidiadau i'r Ddyletswydd Gwasanaeth Cyffredin. Rydym yn fodlon cysylltu â Llais Defnyddwyr a'r Uned Diwydiannau a Reoleiddir ynghylch y Ddyletswydd Gwasanaeth Cyffredin ac anghenion defnyddwyr.

Gofynnodd Llais Defnyddwyr i Ofcom ystyried diwygio'r portffolio cynnyrch gwasanaeth cyffredinol i ddadfwndelu nodweddion Special Delivery a gofynnodd i Ofcom wneud mwy i sicrhau bod defnyddwyr yn cael y cyngor iawn ynghylch cynnyrch a gwasanaeth mewn swyddfeydd post.

Roedd ACNI yn annog Ofcom i ystyried gwasanaethau post ar draws ffiniau, gan ddweud y byddai'n croesawu ymchwiliad pellach i raddfa'r problem.

Byddwn yn parhau i archwilio gwasanaethau cyfathrebu ar draws ffiniau yn 2013/14. Rydym eisoes wedi rhoi rhyddid sylweddol i'r Post Brenhinol o ran prisiau, gan gynnwys ar wasanaethau rhyngwladol. Hefyd, mae prisio unfurf yn golygu y byddai prisiau is Gogledd Iwerddon-Gweriniaeth Iwerddon yn gwrth-ddweud gofynion sylfaenol Deddf Gwasanaethau Post 2011, felly byddai'n rhaid iddo fod yn y Deyrnas Unedig-Gweriniaeth Iwerddon. Mae hwn yr un gofyniad ag sy'n diogelu defnyddwyr mewn ardaloedd mwy gwledig rhag gorfod talu ffi uwch am anfon post o gymharu â chwsmeriaid trefol.

Gweithio ar y cyd gyda'r Llywodraeth a'r diwydiant i hyrwyddo'r gwaith o ddarparu band eang cyflym iawn yn eang

A1.87 Mynegodd CWU eu pryder efallai na fyddai'r Llywodraeth yn cyrraedd y targed ar gyfer band eang yn 2015 gan awgrymu y dylai Ofcom fynd i'r afael â'r bwch mewn

cyllid drwy fecanweithiau rheoleiddio priodol a chymhellion i annog buddsoddiadau preifat. Roedd CWU hefyd yn galw am Ddyletswydd Gwasanaeth Cyffredin ar gyfer band eang.

- A1.88 *Mater i'r llywodraeth yn hytrach nag Ofcom yw cwestiynau ynghylch ymyriadau polisi cyhoeddus i sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn ehangach. Fodd bynnag, bydd Ofcom yn parhau i ddarparu'r gefnogaeth a'r arbenigedd i drafodaethau polisi o'r fath yn ystod y flwyddyn.*

Sicrhau bod digon o wasanaethau'n cael eu darparu i ddefnyddwyr â nam ar eu clyw

- A1.89 Roedd Cymdeithas Genedlaethol Pobl sydd wedi colli eu Clyw (NADP) yn croesawu'r adolygiad parhaus o Amod Cyffredinol 15, gwasanaeth cyfnewid testun cenedlaeth nesaf ac ymrwymiad Ofcom i archwilio i dechnolegau adnabod llais. Cyflwynodd y Gymdeithas sawl pwynt ategol:

- Roedd yn annog Ofcom i fonitro'r gwasanaeth newydd yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn cael ei ddatblygu'n barhaus;
- ychwanegodd y dylai sicrhau bod gwasanaethau sy'n cael eu darparu i ddefnyddwyr sydd â nam ar eu clyw hefyd yn cynnwys gwasanaethau mynediad priodol mewn darlledu;
- mynegodd bryderon nad oedd y Cynllun Blynyddol Drafft yn cynnwys isdeitlo byw; a
- dywedodd y byddai'n croesawu cydnabod anghenion defnyddwyr sydd â nam ar eu clyw mewn gwasanaethau heb fod yn llinol.

- A1.90 Roedd y CCP ac ACOD wedi mynegi cefnogaeth i'n gwaith ar ddarparu gwasanaethau i ddefnyddwyr sydd â nam ar y clyw, gan awgrymu y dylai ein gwaith i ddarparu mynediad i wasanaethau heb fod yn llinol ymestyn i restr electronig o raglenni sy'n fwy hwylus.

- A1.91 *Mae Ofcom yn cytuno ei bod yn bwysig sicrhau bod defnyddwyr sydd â nam ar y clyw yn elwa o wasanaethau mynediad priodol ar wasanaethau a ddarlledir. Ym mis Mawrth 2013, cyhoeddodd Ofcom adroddiad ynghylch gwasanaethau mynediad ar 70 o sianeli yn ystod 2012, a oedd yn dangos bod darlledwyr yn dal i fodloni'r targedau cynyddol sy'n berthnasol i'w sianeli, ac mewn sawl achos, yn rhagori ar y targedau hyn. O'r herwydd, mae nifer fawr o'r sianeli, yn arbennig y rhai mwyaf poblogaidd, nawr yn isdeitlo'r rhan fwyaf o'u rhaglenni.*

- A1.92 *Mae Ofcom hefyd yn cydnabod, tra bo argaeledd nifer fawr o raglenni gydag isdeitlau'n gwella'r dewis ar gyfer defnyddwyr is-deitlau, mae safon yr isdeitlo'n bwysig hefyd. O'r herwydd, mae Ofcom wedi bod yn cynnal trafodaethau â defnyddwyr isdeitlau ynghylch eu profiadau, ac â darlledwyr a'u contractwyr ynghylch sut maent yn cynhyrchu isdeitlau, a lle mae problemau'n gallu codi. Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad ar hyn yn nes ymlaen yn y gwanwyn, gan nodi ein barn ynghylch sut gall safon isdeitlo ar wasanaethau a ddarlledir gael eu gwella ymhellach.*

Cynnal rhagor o waith ymchwil i effaith argaeledd seilwaith cyfathrebu ar ardaloedd daeryddol

- A1.93 Galwodd nifer o ymatebwyr am fwy o ystyriaeth a chynrychiolaeth ar gyfer defnyddwyr busnes, ac am fwy o ymgysylltu â hwy, yn enwedig busnesau bach a chanolig. O fewn yr ymatebion hyn, pwysleisiodd O3b yr angen i Ofcom gynrychioli busnesau bach a chanolig ynghylch gwasanaethau lloeren a gofod, a galwodd Vodafone am ffocws penodol parhaus ar fonitro lefelau gwasanaeth BT ar gyfer gosod ac atgyweirio gwasanaethau cyfanwerthu i'w cynnwys yn y cynllun gwaith.
- A1.94 *Rydym yn amlinellu ein dull gweithredu ar gyfer cwsmeriaid busnes yn Adran 6 y ddogfen hon. Rydym yn cydnabod swyddogaeth bwysig busnesau, gan gynnwys busnesau bach a chanolig, yn economi'r DU ac rydym bob amser yn ystyried eu hanghenion fel defnyddwyr. Rydym yn cynnal sawl prosiect eleni a fydd yn arbennig o berthnasol yma, yn enwedig yn ein gwaith ar argaeledd gwasanaethau cyfathrebu a'r effaith ar ddinasoedd y DU.*
- A1.95 *Hefyd, rydym yn cynnal mwy o waith ymchwil yn y maes hwn er mwyn deall anghenion defnyddwyr busnes yn well. Bydd hyn yn sail i waith posibl yn y maes hwn yn y dyfodol.*

Ymatebion eraill

- A1.96 Roedd llywodraeth Cymru wedi awgrymu y dylai Ofcom gefnogi sicrhau bod cystadleuaeth a gwasanaethau sefydlog dosbarth busnes cymesur sy'n fwy fforddiadwy ar gael er mwyn darparu gwasanaethau yn yr ardaloedd sydd â dwysedd poblogaeth is.
- A1.97 *Mae'r Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes yn delio â chystadleuaeth ar sail seilwaith BT. Mater i'r llywodraeth yn hytrach nag Ofcom yw cwestiynau ynghylch ymyriadau polisi cyhoeddus i sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn ehangach. Fodd bynnag, bydd Ofcom yn parhau i ddarparu'r gefnogaeth a'r arbenigedd i drafodaethau polisi o'r fath yn ystod y flwyddyn.*
- A1.98 Gofynnodd yr Athro S. Livingstone a'r Athro P. Lunt, a oedd yn cynrychioli eu hunain, am fwy o eglurder ynghylch gwaith Ofcom yn hybu buddiannau dinasyddion.
- A1.99 *Rhan o'n prif ddyletswydd statudol yw hybu buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion cyfathrebu; mae'r dinesydd wrth galon popeth a wnawn. Rydym yn parhau i ystyried beth yw ystyr 'dinasyddiaeth' mewn cymdeithas fodern yn y DU ac yn paratoi gwerthusiadau mewnol o berthynas hyn â'r gwasanaethau cyfathrebu. Byddwn yn ystyried materion sy'n berthnasol i ddinasyddion yn benodol wrth wneud gwaith cyfredol ac arfaethedig sydd wedi'u nodi yn y Cynllun hwn, er enghraifft ar seilwaith cenedlaethol critigol, lluosogrwydd a'r defnydd o ddata personol.*
- A1.100 Awgrymodd CCP ac ACOD y dylai Ofcom ystyried y llwybr cyflawn ar gyfer y defnyddwyr wrth gynnal ymchwil defnyddwyr.
- A1.101 *Mae ein gwaith o rymuso defnyddwyr yn ceisio sicrhau bod rhwystrau cyfranogi'n cael eu chwalu. Mae rhan o hyn yn ymwneud â deall profiad y defnyddwyr ac rydym yn cynnal ac yn cyhoeddi llawer o ymchwil ar hyn bob blwyddyn. Mae'r ymchwil hwn yn sail i'n gwaith o ddatblygu polisiâu. Edrychwn ymlaen at barhau gyda'r drafodaeth hon gyda'r Panel.*
- A1.102 Roedd defnyddio hen wasanaeth yn fater a godwyd gan y Fforwm Defnyddwyr ar gyfer cyfathrebu (CFC), a oedd yn nodi'r angen i gynllunio mesurau amddiffyn yn erbyn prisiau'n codi ar gyfer defnyddwyr agored i niwed gwasanaethau o'r fath.

Roedd y Fforwm yn mynegi diddordeb mewn deall barn Ofcom ynghylch pa bryd y credai y byddai hyn yn berthnasol a pha gynlluniau oedd ganddo ar gyfer mesurau amddiffyn.

- A1.103 *Bydd Ofcom yn parhau i fonitro newid mewn prisiau ac effaith hyn ar grwpiau penodol o ddefnyddwyr.*
- A1.104 Nododd CWU y dylai Ofcom hybu ymwybyddiaeth o gynlluniau dulliau amgen o ddatrys anghydfodau eraill.
- A1.105 *Roedd Ofcom wedi ailgymeradwyo dau gynllun dulliau amgen o ddatrys anghydfodau, Gwasanaethau'r Ombwdsmon a CISAS yn 2012. Yn 2013/14 byddwn yn cynnal adolygiad o gydymffurfiaid y diwydiant â gofynion Amod Cyffredinol 14. Bydd hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth a 'chyfeirio' argaeledd gwneud iawn o gynlluniau dulliau amgen o ddatrys anghydfodau. Hefyd, yn 2012, roeddem wedi adolygu pa mor effeithiol oedd ein gwefan ein hunain fel darparwr gwybodaeth i ddefnyddwyr yn y maes hwn, ac yn dilyn hyn, ail-lansiwyd adran defnyddwyr y wefan, a diweddarwyd canllawiau i ddefnyddwyr a gwybodaeth ynghylch ble i gwyno.*
- A1.106 Roedd y Pwyllgor Cynghori ar gyfer yr Alban (ACS) wedi ailadrodd pryder ynghylch allgau cymdeithasol o ganlyniad i raniadau digidol yn yr Alban.
- A1.107 *Bydd Ofcom yn parhau i fynd i'r afael â rhwystrau rhag cyfranogi mewn sawl maes. Mae nifer o'n gweithgareddau yn ceisio mynd i'r afael â rhwystrau i argaeledd gwasanaethau neu rwydweithiau, er enghraifft ein gwaith ni gyda Llywodraeth Ei Mawrhydi i roi sylw i ardaloedd digyswllt symudol (MIP) a'r broses o drwyddedu 4G. Rydym yn gweithio gydag asiantaethau eraill i helpu i ddeall y rhwystrau o'r ochr galw o ran newid – er enghraifft, mae ein gwaith ymchwil i lythrennedd yn y cyfryngau yn cyfrannu at ddeall bylchau o ran cyfranogi.*
- A1.108 Gofynnodd CFC am i'r adolygiad cyfredol o becyn cymorth buddiannau defnyddwyr gynnwys ystyried pa mor agored i niwed yw defnyddwyr. Hefyd, gofynnodd CFC i Ofcom ymchwilio i'r anawsterau y mae defnyddwyr agored i niwed yn ei chael i sicrhau bod trydydd parti yn siarad â'u Darparwr Cyfathrebu ar eu rhan.
- A1.109 *Mae ein gwaith cyfranogi yn cynnwys deall sefyllfa dinasyddion a defnyddwyr agored i niwed a chwalu unrhyw rwystrau rhag cyfranogi iddynt. Adlewyrchir hyn yn y pecyn cymorth ar gyfer buddiannau defnyddwyr. Rydym yn disgwyl gweithio gydag asiantaethau eraill (e.e. yr Uned Diwydiannau a Reoleiddir) o ran deall a mynd i'r afael â materion ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr agored i niwed yn ein sector.*
- A1.110 *Mae Amod Cyffredinol 15 yn darparu bod trydydd parti yn gwneud rhai pethau ar ran defnyddwyr agored i niwed, e.e. rheoli biliau trydydd parti. Rhan o'r adolygiad o Amod Cyffredinol 15 yw ystyried a ddylid ymestyn yr amddiffyniadau hyn i feysydd eraill. Rydym yn fodlon iawn siarad â rhanddeiliaid am hyn, a'u hannog yn arbennig i fynegi unrhyw bryderon fel rhan o'r broses o adolygu Amod Cyffredinol 15.*

Diogelu defnyddwyr rhag niwed

Diwygio'r broses yn ymwneud â rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol i sicrhau tryloywder prisiau

A1.111 Dywedodd Vodafone ei fod yn cefnogi gwaith Ofcom yn y maes hwn, ond ei fod am annog Ofcom i ofalu nad yw meysydd gwaith eraill yn cael sylw ar draul y flaenoriaeth hon e.e. gweithredu Amod Cyffredinol 9 yn briodol. Dywedodd BT y byddai mwy o oedi yn rhwystr rhag creu marchnad gystadleuol ar gyfer costau galwadau 09, ac awgrymodd y dylai costau galwadau 09 gael eu gwahanu oddi wrth yr adolygiad NGCS fel bod llai o oedi.

A1.112 *Nid ydym yn credu y bydd rhagor o oedi sylweddol wrth adolygu galwadau nad ydynt yn rhai daearyddol (NGCS). Nid yw'n bosibl ystyried y modd y bydd galwadau 09 yn cael eu trin yn y dyfodol heb eu hystyried law yn llaw â'r polisi NGCS ehangach.*

Diogelu defnyddwyr mewn nifer o feysydd blaenoriaeth, gan gynnwys galwadau mud a chodiadau mewn prisiau ar ganol contract

A1.113 Dywedodd nifer o randdeiliaid eu bod wedi'u synnu nad oedd galwadau a negeseuon testun niwsans wedi'u cynnwys yn y cynllun gwaith, yn ogystal â'n gwaith ar alwadau mud.

A1.114 *Mae pwerau statudol Ofcom yn y maes hwn wedi'u cynnwys yn bennaf yn y darpariaethau camddefnyddio parhaus yn adrannau 128-130 y Ddeddf Cyfathrebiadau, ac rydym yn canolbwyntio yma ar alwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael. Fodd bynnag, yn ogystal â'n gwaith gorfodi ym maes diogelu defnyddwyr, rydym yn benderfynol o chwarae rhan allweddol wrth ymgysylltu'n rhagweithiol â rheoleiddwyr eraill i'w helpu i fynd i'r afael â niwed o ganlyniad i alwadau ffôn a negeseuon testun marchnata nad oes unrhyw un wedi gofyn amdanynt, fel yr amlinellwyd yn y cynllun gweithredu pum pwynt i fynd i'r afael â galwadau niwsans²¹ a gyhoeddwyd 8 Ionawr 2013. Mae hyn wedi cael ei adlewyrchu yn y trosolwg o'r rhaglen waith rydym yn ei chynnal yng nghyswllt galwadau mud.*

Ymatebion eraill ynghylch diogelu

A1.115 Mae Diwydiant Ffonograffig Prydain (BPI) wedi gofyn i Ofcom ystyried rôl peiriannau chwilio wrth gyfeirio plant at safleoedd sy'n cynnwys deunydd anaddas.

A1.116 *Does gan Ofcom ddim dyletswyddau statudol yng nghyswllt peiriannau chwilio a chanlyniadau unrhyw chwiliadau. Fodd bynnag, rydym wedi ceisio rhoi sylw i faterion yn y maes cyffredinol hwn drwy sefydlu ParentPort²² a thrwy ein gwaith gyda Chyngor y DU dros Ddiogelwch Plant ar y Rhynggrwyd (UKCCIS).*

A1.117 *Mae Ofcom yn un o saith rheoleiddiwr cyfryngau yn y DU sydd wedi sefydlu'r porth ar-lein ParentPort, ac yn ei weithredu. Mae'r porth yn darparu gwybodaeth glir ynglŷn â'r hyn y gall rhieni ei wneud os ydynt yn teimlo eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth sy'n anaddas ar gyfer eu plant. Mae'r safle'n gwneud y broses o wneud cwyn yn haws drwy gyfeirio rhieni at y rheoleiddiwr cyfryngau priodol ar gyfer eu pryder penodol nhw. Er mis Chwefror 2013, mae'r safle wedi cynnig 'Cyngor Da i Rieni' ar amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys diogelwch ar-lein. Mae hefyd yn cynnwys cyngor a dolenni at adnoddau a mudiadau i helpu rhieni i amddiffyn eu plant ar-lein.*

²¹ <http://media.ofcom.org.uk/2013/01/08/action-plan-to-tackle-nuisance-calls/>

²² <http://www.parentport.org.uk/>

A1.118 *Mae Ofcom hefyd yn gweithio'n agos gyda UKCCIS a swyddogion y llywodraeth sy'n gweithio ar ddiogelwch rhyngwladol i blant ar-lein. Mae Claudio Pollack, Cyfarwyddwr y Grŵp ar gyfer Cynnwys, Defnyddwyr a Materion Allanol, yn eistedd ar Fwrdd Gweithredol UKCCIS, ac rydym yn darparu cyngor technegol a chymorth ymchwil drwy ein harchwiliadau ar lythrennedd plant ac oedolion yn y cyfryngau.*

Cynnal hyder cynulleidfaoedd mewn cynnwys a ddarllidir

Targeddu trwyddedu a gorfodi i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael eu diogelu'n effeithiol

A1.119 Mae'r BPI wedi gofyn i Ofcom ystyried y rôl y mae gwefannau sy'n hwyluso rhannu ffeiliau ar-lein yn ei chwarae o ran argaeledd deunydd niweidiol ar-lein.

A1.120 *Mae dyletswydd statudol Ofcom dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 i sicrhau rhoi safonau ar waith 'sy'n rhoi digon o amddiffyniad i aelodau'r cyhoedd rhag cynnwys deunyddiau sy'n achosi tramgwydd a niwed' yn gysylltiedig â chynnwys gwasanaethau teledu a radio yn unig. Nid oes gan Ofcom ddyletswyddau statudol sy'n ymwneud â gwefannau sy'n hwyluso rhannu ffeiliau ar-lein.*

Aildrwyddedu Sianeli 3, 4 a 5

A1.121 Mae Virgin Media wedi croesawu'r cynnig i gyflwyno AIP mewn darlledu ac wedi gofyn i hawliau a breintiau darlledu gwasanaeth cyhoeddus gael eu cydbwysu'n briodol yn erbyn ymestyniad cymesur o'u cyfrifoldebau.

A1.122 *Caiff y cwestiynau hyn eu hystyried fel rhan o'n gweithgarwch aildrwyddedu o ran darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ac yn ein cyngor arall i'r Llywodraeth ar faterion perthnasol.*

A1.123 Mae'r VLV yn credu y dylai Ofcom ganfod atebion priodol er mwyn mynd i'r afael â'r gostyngiad o ran buddsoddi mewn cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

A1.124 *Bydd gwaith parhaus Ofcom o ran aildrwyddedu Sianeli 3, 4 a 5 yn bwysig wrth greu'r amodau ar gyfer buddsoddi yng nghynnwys y DU. Yn ogystal, byddwn yn cyfrannu at Adolygiad Cyfathrebu'r Llywodraeth o ran newidiadau deddfwriaethol posibl i gefnogi buddsoddi mewn cynnwys.*

A1.125 Gwnaeth Llywodraeth Cymru ac ACNI bwysleisio bod angen i sianeli adlewyrchu'r gwledydd datganoledig yn eu darpariaeth newyddion a darpariaeth heb fod yn newyddion.

A1.126 *Rydym wedi adlewyrchu anghenion darpariaeth y Gwledydd datganoledig yn ein hymgyngoriadau ar aildrwyddedu Sianel 3 a Sianel 5 a byddwn yn ystyried y safbwynt o ran Sianel 4 yng nghyd-destun yr aildrwyddedu hwnnw eleni.*

A1.127 Awgrymodd y BFI y dylai Ofcom sicrhau setliad hirdymor ar gyfer cyfraniadau gan ddarllledwyr i'r Archif Teledu Genedlaethol, fel rhan o'r broses aildrwyddedu.

A1.128 *Byddwn yn bwrw ymlaen â gwaith ar y posibilrwydd o gael setliad hirdymor gyda'r BFI a darllledwyr yn ystod y flwyddyn hon.*

Datblygu dulliau gweithredu ar gyfer rheoleiddio cynnwys yn y dyfodol

- A1.129 Awgrymodd Intellect bod Ofcom yn ystyried rhoi mesurau rheoleiddio cymharol ar waith ar draws sectorau cyfathrebu wrth iddynt barhau i gyfuno. Mynegwyd pryder hefyd gan Ying Huang, unigolyn, bod angen cynllun rheoleiddio cynnwys wedi'i ddiweddarau yn unol â chyfuno.
- A1.130 *Mae cyfuno yn thema sy'n dylanwadu ar y ffordd rydym yn meddwl am y mwyafrif o'n meysydd polisi, yn benodol yng nghyswllt safonau cynnwys a materion amddiffyn. Rydym bob amser yn chwilio am achosion tebyg yn y broses rheoleiddio bresennol wrth i ni ddatblygu ymyriadau newydd, gan gynnwys tynnu ar enghreifftiau o sectorau eraill, er ein bod bob amser yn ofalus i beidio â mabwysiadu ymagwedd 'un ateb i bawb'.*
- A1.131 Pwysleisiodd y BFI na ddylai rheoleiddio cynnwys yn y dyfodol awgrymu ymagwedd unffurf.
- A1.132 *Rydym yn gwerthfawrogi y bydd yr amgylchedd cyfryngau digidol sy'n newid yn cyflwyno nifer o sialensiau wrth reoleiddio'r cyfryngau yn y dyfodol. Rhoddwyd sylw i'r maes hwn yn araith Ed Richards (Prif Swyddog Gweithredol Ofcom) yng Nghonfensiwn y Cyfryngau yn Rhydychen ym mis Ionawr 2012, ac yn ein tystiolaeth i Ymchwiliad Tŷ'r Arglwyddi ar gyfuno'r cyfryngau ym mis Hydref 2013.*
- A1.133 *Yng nghyd-destun y ffin aneglur rhwng cynnwys a dosbarthu, mae Ofcom wedi awgrymu bod cyfle posibl i sefydlu set graidd o egwyddorion a nodau cyffredin ar draws tirwedd cyfryngau amrywiol gyda gwahanol fframweithiau rheoleiddio. Gallai set o egwyddorion craidd o'r fath gael ei sefydlu rhwng y rheoleiddwyr sy'n codi o'r ddadl bresennol, gyda'r nod o wneud y broses rheoleiddio yn fwy clir a dealladwy i ddefnyddwyr a'r diwydiant.*

Trwyddedu gwasanaethau teledu a radio yn y DU gan gynnwys rownd arall o drwyddedu radio cymunedol a ffocws parhaus ar orfodi effeithiol

- A1.134 Gwnaeth RadioCentre alw am adolygu hyd trwydded radio analog, gyda golwg ar symud i drwyddedau 12 mlynedd yn hytrach na saith mlynedd.
- A1.135 *Rydym wedi dweud y byddwn yn adolygu ein polisi pan fydd dwy amod wedi'u bodloni – pan fydd y Llywodraeth yn dod i gytundeb â'r diwydiant ynglŷn â'r ffordd ymlaen ar gyfer radio digidol, a phan fydd y Llywodraeth yn nodi ei chynigion ynghylch fframwaith statudol y dyfodol ar gyfer rheoleiddio radio mewn papur gwyrdd. Mae'r amod gyntaf wedi'i bodloni wrth lofnodi'r Memorandwm Dealltwriaeth ar ariannu DAB lleol, ond nid yw'r ail amod wedi'i bodloni eto.*
- A1.136 Nododd RadioCentre bryder y byddai rownd arall o drwyddedu radio cymunedol yn rhoi mwy o bwysau cystadlu ar orsafoedd radio masnachol llai.
- A1.137 *Wrth drwyddedu gwasanaethau radio cymunedol, mae Ofcom dan ddyletswydd i ystyried yr angen i sicrhau na fydd unrhyw wasanaeth o'r fath yn peryglu hyfywedd economaidd gwasanaethau radio masnachol lleol yn ormodol. Ceir hefyd gyfyngiadau penodol ar faint o refeniw gall gwasanaeth radio cymunedol ei gael o arian hysbysebu a nawdd mewn ardaloedd lle mae gwasanaeth radio masnachol bach yn bodoli.*
- A1.138 Pwysleisiodd Llywodraeth Cymru y dylai Ofcom ystyried materion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg wrth gyflawni ei swyddogaethau trwyddedu yng nghyswllt Cymru.

- A1.139 *Bydd Ofcom yn parhau i ystyried yn briodol materion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg wrth gyflawni ei swyddogaethau trwyddedu statudol yn 2013/14.*
- A1.140 Gofynnodd ACNI am eglurhad ynglŷn â sut y bydd Ofcom yn asesu'r ddarpariaeth o wasanaethau darlledu Gwyddeleg a Gaeleg Ulster.
- A1.141 *Bydd y gwaith hwn yn seiliedig ar ymchwil yn bennaf. Ein bwriad yw cyhoeddi ein gwaith ymchwil ein hun ochr yn ochr â data sydd ar gael gan ddarlledwyr a chyrrff eraill i ddangos argaeledd rhaglenni ieithoedd cynhenid, a'r defnydd a wneir o'r rhaglenni hyn.*

Ymatebion eraill ynghylch safonau darlledu

- A1.142 Mae'r CCP ac ACOD wedi gofyn i ni gyfeirio'n benodol at hyder ac ymddiriedaeth yng nghyswllt safonau cynnwys a ddarllidir.
- A1.143 *Rydym o'r farn bod hyder y gynulleidfa mewn darlledu yn cynnwys ymddiriedaeth o ganlyniad i orfodi a rheoleiddio safonau'n barhaus. Yn 2009/10, gwnaethom gyflawni maes gwaith yn ymwneud â hybu ymddiriedaeth mewn darlledu, a gafodd ei fwrw ymlaen gan y diwydiant.*
- A1.144 Gwnaeth Llywodraeth Cymru alw ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i ddiffinio eu cyfrifoldebau a'u hymrwymiaidau i Gymru.
- A1.145 *Nid yw hyn yn rhywbeth y darperir ar ei gyfer yn y ddeddfwriaeth ar hyn o bryd. Byddai felly naill ai'n fater o gael y ddarlledwyr i wneud hyn yn wirfoddol neu'n fater i'r Llywodraeth fwrw ymlaen ag ef.*

Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a'i roi ar waith

Cyfrannu at Adolygiad Cyfathrebu'r Llywodraeth

- A1.146 Mae BT yn credu y dylai cyfraniad Ofcom i'r Adolygiad Cyfathrebu fod yn flaenoriaeth yn hytrach na phrif faes gwaith, a dywedodd y dylai Ofcom fabwysiadu rôl arweiniol, gan ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau cyfathrebu a'r diwydiant.
- A1.147 *Mae'r Adolygiad Cyfathrebu ac unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol yn faterion ar gyfer Senedd a Llywodraeth y DU. O ganlyniad, nid ydym wedi eu nodi fel blaenoriaethau y byddem yn bwrw ymlaen â nhw (neu mae modd i ni fwrw ymlaen â nhw) ar ein pennau ein hunain. Fodd bynnag, rydym yn cytuno ei bod yn bwysig i ni barhau i ymateb yn briodol i ofynion y Llywodraeth o ran cyngor, ac yn cyfrannu at y ddadl.*

Cefnogi rhaglen radio digidol y Llywodraeth

- A1.148 Dywedodd Llywodraeth Cymru na fyddai o blaid newid i radio digidol nes bod modd gwarantu o leiaf 97% o ddarpariaeth DAB drwy Gymru gyfan. Gwnaeth yr ymateb bwysleisio problemau â darpariaeth FM a gofyn i Ofcom barhau i gysylltu â rhanddeiliaid radio er mwyn cael y gwasanaeth radio gorau ar gyfer defnyddwyr Cymru.
- A1.149 *Fel rhan o'i waith i gyfrannu at Gynllun Gweithredu Radio Digidol y Llywodraeth, mae Ofcom yn cynnal trafodaethau parhaus â'r BBC a rhanddeiliaid eraill ynglŷn â sut i wella darpariaeth gwasanaethau DAB lleol yng Nghymru a rhannau eraill o'r DU.*

- A1.150 Gwnaeth RadioCentre ofyn am eglurhad ynghylch pa orsafoedd y bydd gofyn iddynt newid pe bai penderfyniad o'r fath yn cael ei gyhoeddi, er mwyn gwneud yn siŵr bod y gorsafoedd FM lleiaf yn cael yr wybodaeth briodol ac yn paratoi ar gyfer penderfyniad i newid.
- A1.151 *Mae hwn yn fater ar gyfer y Llywodraeth fel rhan o'i phenderfyniad ynghylch newid i radio digidol. Byddwn yn parhau i gefnogi'r ddadl yn y maes hwn drwy ddarparu cyngor ac arbenigedd.*

Ymatebion eraill ynghylch polisi cyhoeddus

- A1.152 Mae nifer o ymatebwyr wedi croesawu blaenoriaeth Ofcom ar dorri hawlfraint ar-lein yn y Cynllun Blynyddol Drafft.
- A1.153 *Bydd Ofcom yn parhau â'i ddyletswyddau i weithredu darpariaethau sy'n ymwneud â thorri hawlfraint ar-lein yn Neddf yr Economi Ddigidol ar ôl i Orchymyn Costau diwygiedig y Llywodraeth gael ei gyflwyno gerbron y Senedd. Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys creu Cod i reoleiddio darpariaethau Deddf yr Economi Ddigidol, a chreu corff apeliadau annibynnol. Byddwn hefyd yn cynnal ymgynghoriad newydd i geisio nodi'r costau a'r amser angenrheidiol i Ddarparwr Gwasanaeth Rhyngwrwyd effeithlon gydymffurfio ag ymrwymadau Cod Ofcom. Rydym hefyd yn bwriadu noddi safon sydd ar gael yn gyhoeddus ar gyfer arfer gorau o ran adnabod tanysgrifwyr.*
- A1.154 Gwnaeth y VLV groesawu gwaith Ofcom hyd yma ar luosogrwydd y cyfryngau ac ar y diffiniad a chysyniad o 'unigolyn addas a phriodol', sy'n cael ei ddefnyddio fel maen prawf ar gyfer dal trwydded. Gwnaeth y VLV annog Ofcom i barhau i wneud sylwadau ac ymyrryd lle bo'n briodol. Awgrymodd y BFI na ddylai ymagwedd Ofcom at luosogrwydd y cyfryngau gael ei gyfyngu i ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes, ond dylai hefyd adlewyrchu gwerth lluosogrwydd ar sail gymdeithasol a diwylliannol.
- A1.155 *O dan Ddeddfau Darlledu 1990 a 1996 mae gan Ofcom ddyletswydd i fod yn fodlon bod unrhyw un sydd â thrwydded darlledu yn addas ac yn briodol i ddal y drwydded honno a'u bod yn aros felly. Mae'r ddyletswydd hon yn barhaus. Fel rhan o'n cyfrifoldebau i ddiogelu defnyddwyr rhag niwed, byddwn yn parhau i fonitro'r rheini sy'n dal trwyddedau ar hyn o bryd i sicrhau eu bod yn addas ac yn briodol i ddal y trwyddedau hynny.*
- A1.156 *Ein cyngor ynghylch lluosogrwydd y cyfryngau ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol, sydd hefyd wedi'i gyhoeddi, yw y dylai unrhyw ystyriaeth newydd o luosogrwydd y farchnad ganolbwyntio ar newyddion a materion cyfoes. Mae gan y genres hyn y capasiti gorau i ddylanwadu ar ddadl ddemocrataidd. Fodd bynnag, wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae hi eisoes yn ofynnol i Ofcom sicrhau cynnal lluosogrwydd digonol o ddarparwyr gwasanaethau teledu a radio gwahanol (gweler Adran 3.2(d) Deddf Cyfathrebiadau 2003).*
- A1.157 Gwnaeth yr ACNI annog Ofcom i ystyried y lefel isel o raglenni rhwydwaith y DU a gaiff ei gomisiynu yng Ngogledd Iwerddon yn yr Adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus.
- A1.158 *Bydd Ofcom yn cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, ei Adroddiad Cydymffurfiaeth Rhwydwaith Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus a Chofrestr Cynhyrchu y Tu Allan i Lundain (MoL) yn 2013/14 a fydd yn adrodd ar y mater hwn.*

- A1.159 Awgrymodd Llywodraeth Cymru a'r ACS y dylid adolygu diben strategol cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a'i roi ar waith er mwyn cynnwys llywodraethau'r gwledydd datganoledig yn ei gylch gwaith.
- A1.160 *Byddwn yn parhau i adolygu'r diben hwn yng ngoleuni newidiadau yn natur a disgwyliadau datganoli yn y Gwledydd. Fodd bynnag, nid oes gennym farn ynghylch pa mor ddymunol yw newid cyfansoddiadol gan fod hyn yn fater ar gyfer deddfwrfeydd ac etholaethau. Byddwn yn ceisio ymateb yn adeiladol o fewn cyfyngiadau ein dyletswyddau a'n pwerau os gofynnir i ni ddarparu gwybodaeth ffeithiol berthnasol am y broses rheoleiddio gyfredol neu am oblygiadau newid cyfansoddiadol penodol.*
- A1.161 Gwnaeth yr ACNI annog Ofcom i helpu i sicrhau bod penderfyniadau buddsoddiad cyhoeddus yng Ngogledd Iwerddon yn y dyfodol yn effeithlon ac yn effeithiol, ac yn seiliedig ar wybodaeth.
- A1.162 *Bydd Ofcom yn parhau i ymgysylltu â phob llywodraeth ac adran er mwyn helpu i gefnogi mentrau polisi cyhoeddus effeithlon ac effeithiol sy'n seiliedig ar wybodaeth.*